
HM Government

# Strategaeth Wrthlygredigaeth y DU 2025

## Cefnogi twf
## Cryfhau diogelwch
## Diogelu democratiaeth



CP 1454

Government of the United Kingdom

Home Office

# Strategaeth Wrthlygredigaeth y DU 2025

Cefnogi twf

Cryfhau diogelwch

Diogelu democratiaeth

Cyflwynwyd gerbron Senedd y DU gan Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref drwy Orchymyn Ei Fawrhydi

Rhagfyr 2025

CP 1454

OGL

© Hawlfraint y Goron 2025

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 oni nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom yn

public.enquires@homeoffice.gov.uk

ISBN 978-1-5286-6077-8 E03041725 12/25
Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o ffeibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

# Cynnwys


Rhagair 4

Y Dirprwy Brif Weinidog 4

Y Gweinidog Diogelwch 6

Yr Hyrwyddwr Gwrthlygredigaeth 7

Crynodeb gweithredol 9

Cyflwyniad 13

Problem llygredigaeth 16

Piler 1: Gweithredwyr llwgr 22

1.1 : Cyfiawnder ac atebolrwydd 23

1.2 : Tarfu ar fynediad 29

1.3 : Arian llwgr 36

Piler 2: Mynd i'r afael â gwendidau'r DU 48

2.1 : Gwleidyddiaeth a llywodraeth 48

2.2 : Y sector cyhoeddus 53

2.3 : Uniondeb busnesau 62

Piler 3: Gallu'r byd i wrthsefyll llygredigaeth 68

3.1 : Partneriaethau rhyngwladol 68

3.2 : Safonau rhyngwladol 76

Rhoi ar waith 82

4.1 : yn drawsbynciol 83

Atodiad A: Diffiniad polisi'r DU o lygredigaeth 88

Atodiad B: Canlyniadau'r strategaeth 91

Atodiad C: Crynodeb o'r ymrwymiadau 95

Atodiad D: Rhestr o bartneriaid Llywodraeth y DU 136

Atodiad E: Ymateb i droseddau economaidd 140

# Rhagair

## Y Dirprwy Brif Weinidog



Mae llygredigaeth yn rym cyrydol, sy'n tanseilio twf, yn peryglu ein diogelwch gwladol, ac yn erydu sylfeini ein democratiaeth. Mae'n dinistrio ymddiriedaeth mewn gweinyddiaeth gyhoeddus, yn tanseilio swyddogaethau craidd y wladwriaeth, yn creu annhegwch i fusnesau, yn amddifadu gwledydd o refeniw hollbwysig sydd ei angen ar gyfer datblygu, a – thrwy gyllid anghyfreithlon – yn sbardun i droseddau ar ein strydoedd ac yn cryfhau ein gelynion. Mae llygredigaeth bob amser yn achosi niwed ac yn creu dioddefwyr. Ac nid oes yr un sefydliad na gwlad yn rhydd rhagddi.

Mewn oes o ansefydlogrwydd geowleidyddol a newid technolegol cyflym, mae'n rhaid i'r DU arwain drwy esiampl wrth i ni wynebu'r bygythiad trawswladol cyffredin hwn, yma a thramor. Fel gwlad sy'n ymrwymedig iawn i reolaeth y gyfraith, dyma ein cyfrifoldeb i'r cyhoedd ym Mhrydain. Fel canolfan fyd-eang ar gyfer gwasanaethau ariannol a phroffesiynol mae'n gyfrifoldeb arnom i'r byd. Rhaid i ni sicrhau nad oes unrhyw le i lygredigaeth, na'r rhai sy'n ei galluogi. Caiff yr ymrwymiad hwn ei ddangos drwy ein gweithredoedd.

Ers yr etholiad, mae'r llywodraeth hon eisoes wedi cymryd camau penderfynol i fynd i'r afael â llygredigaeth a chynnal uniondeb ymhob rhan o fywyd cyhoeddus. Mae'r Prif Weinidog wedi penodi'r Farwnes Margaret Hodge yn Hyrwyddwr Gwrthlygredigaeth newydd y DU. Rydym wedi gosod sancsiynau ar gleptocratiaid a'r rhai sy'n eu galluogi, ac wedi codi safonau mewn bywyd cyhoeddus drwy gyhoeddi Comisiwn Moeseg ac Uniondeb newydd. Rydym hefyd wedi diogelu uniondeb chwaraeon, drwy'r Ddeddf Llywodraethu Pêl-droed sy'n sefydlu Rheoleiddiwr Pêl-droed Annibynnol i ddiogelu clybiau rhag perchnogion anaddas.

Byddwch bellach yn mynd ymhellach i dyfu'r economi, cefnogi busnesau ym Mhrydain, sicrhau ein ffiniau, mynd i'r afael â'r ansefydlogrwydd dramor sy'n sbardun i droseddau cyfundrefnol yn y DU, ac adfer ymddiriedaeth yn y DU a'i sefydliadau.

Drwy'r strategaeth hon, byddwn yn cryfhau camau gorfodi yn erbyn llygredigaeth, drwy ehangu'r Uned Llygredigaeth Ddomestig yn Heddlu Dinas Llundain a harneisio pŵer deallusrwydd artiffisial i gyflymu ymchwiliadau. Byddwn yn symleiddio ac yn gwella system reoleiddio gymhleth drwy gydgrynhoi swyddogaethau goruchwylio atal gwyngalchu arian a chyllido gwrthderfysgaeth y 22 o gyrff goruchwylio gwasanaethau proffesiynol yn y DU. Byddwn yn ymdrechu'n fwyfwy i ddymchwel rhwydweithiau cleptocrataidd yn y DU drwy gynyddu ein hadnoddau i fynd ar drywydd galluogwyr proffesiynol sy'n gwneud llygredigaeth a throseddau economaidd ehangach yn bosibl. Ar yr un pryd, byddwn yn defnyddio adnoddau newydd i ganfod a diswyddo unigolion llwgr o'r tu mewn i'r heddlu, diogelwch y ffiniau, a'r system garchardai – gan gau'r bylchau y mae troseddwyr yn manteisio arnynt. A byddwn yn rhoi hwb i arweinyddiaeth ryngwladol y DU ar y mater hwn drwy gynnal Uwchgynhadledd yn erbyn Cyllid Anghyfreithlon yn 2026.

Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth agos â'n partneriaid rhyngwladol, gan mai her fyd-eang yw mynd i'r afael â llygredigaeth, sy'n gofyn am ymateb byd-eang. Gyda'r strategaeth hon,

mae'r DU yn cadarnhau o'r newydd ei harweinyddiaeth a'i phenderfyniad i wrthwynebu llygredigaeth lle bynnag mae'n peryglu ein ffyniant, ein diogelwch a'n democratiaeth.



**Y Gwir Anrhydeddus David Lammy AS**

# Rhagair

## Y Gweinidog Diogelwch



Fel Gweinidog Diogelwch y DU, rwyf wedi gweld y rôl y mae llygredigaeth a chyllid anghyfreithlon yn ei chwarae i greu bygythiadau i ddiogelwch gwladol sy'n effeithio ar y DU. Drwyddynt mae gwladwriaethau gelyniaethus, rhwydweithiau troseddol ac elitiau llwgr yn gallu tanseilio ein sefydliadau, ystumio ein marchnadoedd, ac erydu ymddiriediaeth y cyhoedd. Fel y noda'r Strategaeth Diogelwch Gwladol, cynhelir pob elfen o'n diogelwch gan ein gallu i fynd i'r afael â'r bygythiadau hyn.

Mae llwgrwobrwyo a llygredigaeth yn tanseilio'r sefydliadau sy'n hanfodol i'n heconomi a'n cymdeithas. Mae unigolion llwgr o'r tu mewn yn gwneud strydoedd y DU yn llai diogel i'r cyhoedd, gan gynnwys ei gwneud yn bosibl i eraill gyflawni troseddau difrifol a chyfundrefnol drwy ddatgelu gwybodaeth sensitif, hwyluso'r broses o symud cyffuriau neu danseilio rheolaethau mudo sy'n cadw'r cyhoedd yn ddiogel.

Mae llygredigaeth yn tanseilio diogelwch ac ansefydlogrwydd dramor, gan greu amodau sy'n tanseilio bron bob un o fuddiannau'r DU – o'i gwneud yn haws i derfysgwyr weithredu, i ysgogi mudo afreolaidd.

Mae rhyfel anghyfreithlon Rwsia yn erbyn Wcráin wedi taflu goleuni ar y ffyrdd y mae cyfundrefnau gwleidyddol hynod lwgr yn achosi bygythiad uniongyrchol i ddiogelwch gwladol, boed hynny drwy niweidio ein cynghreiriaid a'u diogelwch yn uniongyrchol, neu drwy hyrwyddo eu buddiannau milain yn nhiriogaeth y DU.

Ni fydd y llywodraeth hon yn llaesu dwylo o ran y bygythiad hwnnw. Yn gynharach eleni, cyhoeddais y byddai canllawiau'r llywodraeth ar allgáu yn ehangu, gan roi'r gallu i'r Ysgrifennydd Cartref atal elitiau sydd â chysylltiadau â llywodraeth Putin rhag dod i mewn i'r DU.

Mae'r strategaeth hon yn adeiladu ar hynny, gan gyflwyno ymrwymiadau pellach i sicrhau ein bod yn tarfu ar weithredwyr llwgr, gan gynnwys cleptocratiaid, a'u hatal rhag camfanteisio ar gymdeithas a sefydliadau'r DU, ochr yn ochr â chyfres ehangach o fesurau i fynd i'r afael â'r niwed y mae llygredigaeth yn ei achosi i'r DU a buddiannau'r DU dramor, gan gynnwys drwy weithio'n agosach â'n partneriaid rhyngwladol.

Dros dymor y Senedd hon, byddaf yn arwain ymdrechion i sicrhau bod y strategaeth hon yn cael ei chyflawni'n llawn. Mae hynny'n golygu sbarduno'r broses o'i rhoi ar waith ym mhob rhan o'r llywodraeth, cefnogi ein partneriaid gweithredol, a dwyn y system i gyfrif. Mae'n golygu sicrhau ein bod cael gwared ar wendidau, dwyn mwy o weithredwyr llwgr gerbron llys barn, a chryfhau ein harweinyddiaeth fyd-eang yn y frwydr yn erbyn llygredigaeth.



**Dan Jarvis MBE AS**

# Rhagair

## Yr Hyrwyddwr Gwrthlygredigaeth



Rwyf bob amser wedi credu'n gryf yng nghyfrifoldeb y DU, fel canolfan ariannol fyd-eang ag economi agored ac iddi enw da am reolaeth y gyfraith, i arwain y frwydr yn erbyn llygredigaeth a'r arian brwnt sy'n ei galluogi. Mae ein heconomi a'n democratiaeth agored wedi ein gwneud yn darged i weithredwyr llwgr sy'n hyrwyddo eu buddiannau milain eu hunain.

Mae llygredigaeth yn gwneud cymdeithas a'r economi yn llai cystadleuol ac yn llai teg. Mae'n rhwystro twf. Mae llygredigaeth yma a thramor yn porthi troseddau cyfundrefnol difrifol, gweithgarwch gwladwriaethau gelyniaethus, a bygythiadau eraill yn y DU ac i'n cynghreiriaid.

Dyna pam rwyf wedi ymroi i ymgyrchu ar y mater hwn am gymaint o'm gyrfa, a pham mae'n bleser gennyf ysgrifennu'r rhagair hwn i Strategaeth Wrthlygredigaeth y DU. Mae'r strategaeth hon yn cynnwys camau gweithredu eofn ac effeithiol i leihau'r niwed a achosir gan lygredigaeth i'r DU a buddiannau'r DU dramor. Mae'n cyflwyno sawl ymrwymiad sy'n bwysig i mi fy hun, sy'n cwmpasu'r gwerthoedd tryloywder, atebolrwydd ac uniondeb rwyf bob amser wedi'u hyrwyddo.

Mae'r DU wedi arwain y byd o ran cyhoeddi gwybodaeth sy'n dangos pwy sy'n berchen ar gwmnïau sydd wedi'u cofrestru yn y DU mewn gwirionedd a phwy sy'n cael budd ohonynt. Mae llawer mwy y gallwn ei wneud. Mae'n dda gennyf y bydd y strategaeth yn lansio adolygiad o berchnogaeth asedau ehangach gan y llywodraeth, y byddaf yn ei arwain, er mwyn nodi gwendidau a gwneud argymhellion. Croesawaf hefyd ymrwymiad y strategaeth i weithio gyda Thiriogaethau Tramor y DU a Thiriogaethau Dibynnol y Goron i gyflwyno cofrestrau ychwanegol o berchnogaeth lesiannol.

Mae gwasanaethau proffesiynol a busnes yn un o lwyddiannau'r DU, ond gall enw da'r sector hwn, sydd mor hanfodol i'w lwyddiant parhaus, gael ei danseilio gan weithgarwch risg uwch amheus, gan gynnwys gan weithredwyr llwgr sy'n ceisio camfanteisio ar ein systemau. Felly, mae'n bleser mawr gennyf nodi y bydd y llywodraeth yn cydgrynhoi swyddogaethau goruchwylio atal gwyngalchu arian a chyllido gwrthderfysgaeth 22 o gyrff goruchwylio gwasanaethau proffesiynol. Bydd yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb am oruchwylio ffyrmiau gwasanaethau proffesiynol, gan ddisodli'r clytwaith presennol ag un goruchwyliwr i'r sector cyhoeddus, a fydd yn goruchwylio mewn ffordd gyson ac yn cryfhau gweithgarwch gorfodi.

Rhaid bod moeseg ac uniondeb wrth wraidd y ffordd y mae'r llywodraeth yn ymdrin â gwasanaethau cyhoeddus. Croesawaf y penderfyniad i gyflwyno Comisiwn Moeseg ac Uniondeb i gryfhau gonestrwydd mewn bywyd cyhoeddus, ac edrychaf ymlaen at barhau i weithio ar yr agenda hon dros oes y strategaeth.

Problem systematig a llechwraidd yw llygredigaeth, ac mae'n galonogol i mi nodi pa mor agos y mae gwahanol rannau o'r llywodraeth wedi gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â'r

bygythiadau hyn. Mae hynny’n dyst i ymrwymiad y llywodraeth hon i gymryd camau cydgysylltiedig ynglŷn â bygythiad sy’n effeithio ar ein twf, ein diogelwch, a’n buddiannau rhyngwladol ar y cyd. Edrychaf ymlaen at chwarae fy rhan yn hyn o beth, gan weithio mewn partneriaeth â’r llywodraeth, y sector preifat a chymdeithas sifil.

**Y Gwir Anrhydeddus y Farwnes Margaret Hodge DBE**

# Crynodeb gweithredol

1. **Mae llygredigaeth yn niweidio'r DU a'i dinasyddion yn uniongyrchol.** Mae'n gwneud pobl Prydain yn dlotach ac yn llai diogel, ac yn tanseilio ein democratiaeth. Mae llygredigaeth yn sbarduno ansefydlogrwydd dramor, yn cynyddu troseddu, mudo anghyfreithlon, a bygythiadau eraill yn ôl yn y DU.[1]

2. Mae cwmnïau llwgr sy'n sicrhau contractau drwy gaffael annheg yn dwyn o bwrs y wlad ac mae'n golygu **llai o arian i wasanaethau cyhoeddus a chanlyniadau gwael i drethdalwyr.** Mae presenoldeb arferion llwgr yn niweidiol i enw da'r DU ac mae hyn yn ei dro yn tanseilio ein strategaeth ar gyfer twf. Mae swyddogion llwgr yn yr heddlu, mewn carchardai neu ar y ffiniau sy'n derbyn llwgrwobrwyon yn golygu mwy o gyffuriau ac arfau ar y strydoedd a llai o droseddwyr yn y carchar. Yn draddodiadol, mae'r DU wedi ymfalchïo yn y ffaith ei bod yn wlad na fydd yn goddef gweithredoedd na phobl lwgr yn ei gwleidyddiaeth na'i llywodraeth.

3. **Mae mynd i'r afael â llygredigaeth yn bwysig i'r cyhoedd ym Mhrydain:** mae 68% yn pryderu am effaith gweithredwyr llwgr o dramor ar ddiogelwch gwladol, ac mae 59% yn pryderu am yr effaith ar y farchnad dai. Mae tua 85% yn pryderu am y posibilrwydd o lygredigaeth ymhlith cyflogeion yn y sector cyhoeddus neu wleidyddion.[2] Mae mynd i'r afael â llygredigaeth yn bwysig i fusnesau ym Mhrydain, gyda 7% o fusnesau yn y DU sy'n masnachu'n rhyngwladol yn credu eu bod wedi colli cyfle busnes dramor i gystadleuwyr sy'n cynnig llwgrwobrwyon yn y 12 mis diwethaf.[3] Mae mynd i'r afael â llygredigaeth hefyd yn bwysig i'n henw da. Cafodd y DU ei sgôr isaf erioed, sef 20fed ym Mynegai Canfyddiadau Llygredigaeth By-eang Transparency International yn 2024.[4]

4. Mae'r strategaeth hon yn ceisio **lleihau'r niwed a achosir o ganlyniad i lygredigaeth i dwf, diogelwch, a democratiaeth yn y DU a buddiannau'r DU dramor.** Byddwn yn gwneud hyn drwy wrthsefyll gweithredwyr ac arian llwgr, mynd i'r afael â gwendidau sy'n ein gwneud yn agored i lygredigaeth yn y DU, a meithrin gallu'r byd i wrthsefyll llygredigaeth. Byddwn yn mesur ein heffeithiolrwydd o ran sicrhau'r newid hwn yn erbyn y canlyniadau a nodir yn Atodiad B.

5. **Mae mynd i'r afael â llygredigaeth yn helpu i gyflawni *Plan for Change* llywodraeth.**[5] Bydd y strategaeth yn gwella cyfleoedd ar gyfer **twf** hirdymor drwy hyrwyddocystadleuaeth deg i allforwyr o'r DU dramor, gan sicrhau bod enw da'r DU am uniondeb busnesau yn cefnogi buddsoddiad, ac yn cryfhau enw da ein sector gwasanaethau ariannol. Mae busnesau yn y DU yn cefnogi camau gweithredu cadarn yn erbyn llygredigaeth, a'r cyllid anghyfreithlon sy'n gwneud y bygythiad hwn yn bosibl. Bydd y strategaeth yn ymdrin yn

---

1 Diffinnir llygredigaeth fel "camddefnyddio pŵer ymddiriedig er budd preifat sydd fel arfer yn torri cyfreithiau, rheoliadau, safonau uniondeb a/neu safonau ymddygiad proffesiynol." Gweler Atodiad A.

2 Y Swyddfa Gartref, UK public's concerns, perceptions and understanding of corruption, 2025, sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/uk-publics-concerns-perceptions-and-understanding-of-corruption

3 Yn y cyfnod o 12 mis cyn yr arolwg. Y Swyddfa Gartref, Arolwg Troseddau Economaidd 2024, sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/economic-crime-survey-2024

4 Mynegai Canfyddiadau Llygredigaeth 2024 Transparency International, sydd ar gael yn: https://www.transparency.org/en/cpi/2024

5 Llywodraeth EF, Plan for Change, Rhagfyr 2024, sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/plan-for-change

uniongyrchol â bygythiadau i ddiogelwch gwladol y DU, gan ddefnyddio galluoedd arbenigol ym maes gorfodi'r gyfraith yn erbyn llygredigaeth, ac anelu am yr arian llwgr sy'n creu bygythiadau i ddiogelwch gwladol. Bydd yn **sicrhau'r ffiniau** yn erbyn gweithredwyr llwgr. Bydd mesurau i atal unigolion llwgr rhag gweithio mewn cyrff risg uchel yn y sector cyhoeddus yn cefnogi'r **genhadaeth dros strydoedd mwy diogel**, gan ennyn mwy o hyder mewn plismona ymhlith y cyhoedd.

6. Mae'r strategaeth yn ceisio ailennyn **ymddiriedaeth yn llywodraeth a gwleidyddiaeth y DU**, sef prawf mwyaf ein hoes medd Prif Weinidog y DU.[6]

7. Mae'r strategaeth hon yn canolbwyntio ar lygredigaeth, ond mae'n ategu Cynllun Troseddau Economaidd 2 (ECP2) ac yn adeiladu arno. Mae'r cynllun hwn yn nodi'r ffordd y bydd y DU yn mynd i'r afael â throseddau economaidd yn fwy cyffredinol, mewn partneriaeth â'r sector preifat ac mae'n cwmpasu gwyngalchu arian, twyll ac efadu sancsiynau. Bydd y llywodraeth hefyd yn cyhoeddi Strategaeth Dwyll estynedig, newydd, ac unwaith y daw ECP2 i ben, Strategaeth Atal Gwyngalchu Arian ac Adennill Asedau (gweler Atodiad E).

8. Mae gan y Strategaeth Wrthlygredigaeth hon ar gyfer 2025 y nodau canlynol:

- **Cryfhau camau gorfodi yn erbyn llygredigaeth.**
  Byddwn yn ehangu'r Uned Llygredigaeth Ddomestig (DCU) yn Heddlu Dinas Llundain ac yn parhau i gefnogi'r Uned Llygredigaeth Ryngwladol (ICU) a'r Ganolfan Cydgysylltu Atal Llygredigaeth Ryngwladol (IACC) yn yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol. Byddwn yn ehangu ar y defnydd o sancsiynau yn erbyn gweithredwyr llwgr, yn cynyddu ein hadnoddau i fynd ar drywydd galluogwyr proffesiynol, gan gynnwys drwy fwy o gydgysylltu ym maes gorfodi'r gyfraith, a chymryd camau yn erbyn unigolion yn y sector cyhoeddus drwy sgrinio, rhannu gwybodaeth ac arweiniad. Byddwn yn cryfhau rheolaethau ar y ffiniau er mwyn atal elitiau llwgr rhag dod i mewn i'r DU. Byddwn hefyd yn archwilio'r dirwedd gyllido gyda'r nod o gryfhau camau gorfodi yn erbyn troseddau economaidd. Byddwn yn achub ar y cyfleoedd sy'n deillio o ddeallusrwydd artiffisial, gan gynnwys cyflymu ymchwiliadau'r Swyddfa Twyll Difrifol a rhannu gwersi ehangach, a threialu prototeip ar gyfer cynorthwyydd ymchwilio llygredigaeth â deallusrwydd artiffisial.
- **Cefnogi diwydiant i atal a nodi gweithgarwch llwgr**
  Byddwn yn diwygio system goruchwylio atal gwyngalchu arian a chyllido gwrthderfysgaeth drwy gydgrynhoi swyddogaethau goruchwylio 22 o gyrff goruchwylio gwasanaethau proffesiynol. Byddwn yn helpu busnesau yn y DU i wrthsefyll llwgrwobrwyo drwy allu'r Swyddfa Twyll Difrifol i atal troseddau a chasgliad newydd o adnoddau ar-lein ar gyfer atal llwgrwobrwyo i fusnesau bach a chanolig. Byddwn yn ystyried cyfleoedd i ddiwygio fframwaith chwythu'r chwiban y DU, gan gynnwys drwy gymhellion ariannol posibl. Byddwn yn ymgynghori ynghylch a ddylid diwygio rheoliadau atal gwyngalchu arian y DU i ymateb i'r risgiau sy'n dod i'r golwg.
- **Mynd i'r afael â gwendidau mewn sector sy'n agored i gamfanteisio gan weithredwyr.**
  Byddwn yn cefnogi'r Rheoleiddiwr Pêl-droed Annibynnol i gryfhau ei alluoedd i atal llygredigaeth, gan gynnwys gwella ei gysylltiadau â gorfodi'r gyfraith. Byddwn yn cryfhau mesurau i wrthsefyll Achosion Cyfreithiol Strategol yn erbyn Cyfranogiad Cyhoeddus (SLAPPs), gan gynnwys ystyried sut i fynd i'r afael â phob math o SLAPP yn y dyfodol y tu hwnt i droseddau economaidd. Byddwn yn annog sefydliadau diwylliannol a dinesig i


6 Llywodraeth EF, Cod y Gweinidogion, 2024, sydd ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/672b46f5f03408fa7966d1d4/November_2024_-_Ministerial_Code.pdf

gryfhau eu gallu i wrthsefyll risgiau o lygredigaeth drwy roddion gwerthfawr. Byddwn yn asesu pa mor effeithiol yw ymateb presennol y DU i droseddau ariannol o ran y bygythiad o gleptocratiaeth, lle mae elitiau llwgr dramor yn aml yn gallu cyfreithloni eu llygredigaeth i bob diben drwy eu rôl yn eu gwladwriaeth enedigol.

- **Ailennyn ymddiriediaeth y cyhoedd yn uniondeb ein sefydliadau**
  Byddwn yn sefydlu Comisiwn Moeseg ac Uniondeb newydd i gryfhau gonestrwydd mewn bywyd cyhoeddus drwy gryfhau a diwygio'r Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus. Byddwn yn gwella mesurau diogelu i amddiffyn fframwaith cyllido gwleidyddol y DU rhag camfanteisio, gan gynnwys cyflwyno gofynion newydd ar y rhai sy'n cael rhoddion gwleidyddol i gynnal asesiadau risg. Byddwn yn cyflwyno cod ymddygiad gorfodol newydd i lywodraeth leol a Swyddfa Archwilio Leol newydd – dau fesur allweddol sydd â'r nod o gryfhau uniondeb a lliniaru risgiau o lygredigaeth mewn llywodraeth leol. Byddwn yn gwella hyfforddiant ar lygredigaeth i swyddogion yn y sector cyhoeddus, yn enwedig o ran caffael.
- **Rhoi arweinyddiaeth gadarn gan y DU ar fynd i'r afael â llygredigaeth yn fyd-eang**
  Bydd y DU yn cynnal Uwchgynhadledd yn erbyn Cyllid Anghyfreithlon a fydd yn dwyn ynghyd glymblaid amrywiol o wledydd i fynd i'r afael â chyllid anghyfreithlon a llygredigaeth. Byddwn yn ehangu rhwydwaith cyllid anghyfreithlon dramor y DU ac yn datblygu partneriaethau newydd â chanolfannau ariannol sy'n datblygu a rhai byd-eang er mwyn sbarduno dull rhwydweithiol, effeithiol o fynd i'r afael â llygredigaeth. Byddwn yn gweithio gyda De'r Byd i feithrin gallu hirdymor, a chefnogi ac atal cymdeithas sifil a newyddiadurwyr ymchwiliol. Byddwn yn amddiffyn safonau byd-eang allweddol drwy gyrff megis y Tasglu Gweithredu Ariannol a'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd. Mae hyn yn cynnwys ymdrechion i gryfhau'r ffordd y rhoddir safonau adennill asedau rhyngwladol ar waith.
- **Gwella tryloywder.**
  Byddwn yn nodi disgwyliadau clir o ran pryd rydym yn disgwyl i Diriogaethau Dibynnol y Goron a Thiriogaethau Tramor gyflwyno cofrestrau ychwanegol o dryloywder perchenogaeth lesiannol, os nad ydynt wedi gwneud hynny eisoes, gan gynnwys cyflwyno mynediad eang i'r rhai sydd â buddiant dilys fel cam dros dro, fel rhan o arweinyddiaeth ehangach y DU ar y mater hwn. Yn y DU, bydd yr Hyrwyddwr Gwrthlygredigaeth yn arwain adolygiad o berchnogaeth asedau a pherchnogaeth lesiannol yn y DU gan y llywodraeth er mwyn nodi gwendidau y gall troseddwyr gamfanteisio arnynt, a llunio argymhellion ynglŷn â sut y gellir ymdrin â'r rhain.

9. **Bydd proses weithredu effeithiol yn allweddol i wireddu ein huchelgais.** Rydym yn ymrwymedig i roi diweddariadau tryloyw ar ein cynnydd, gan gynnwys i Senedd y DU. Byddwn yn ceisio cyflawni mewn partneriaeth â chymdeithas sifil, academyddion, seneddwyr a'r sector preifat lle y bo modd. Caiff hyn gefnogaeth weithredol gan Hyrwyddwr Gwrthlygredigaeth y Prif Weinidog. Byddwn yn ceisio gwella'r sylfaen dystiolaeth lwgr, gan gynnwys drwy ddiffiniad polisi newydd y DU o lygredigaeth.

**Ffigur 1: Crynodeb o ymateb gwrthlygredigaeth y DU**



# Cyflwyniad

10. Nod y strategaeth yw lleihau'r niwed o ganlyniad i lygredigaeth i dwf, diogelwch, a democratiaeth yn y DU a buddiannau'r DU dramor dros y pum mlynedd nesaf. Mae hyn yn golygu:

- gwrthsefyll gweithredwyr ac arian llwgr yn y DU a thramor (piler 1)
- mynd i'r afael â gwendidau sy'n ein gwneud yn agored i lygredigaeth yn y DU (piler 2)
- meithrin gallu'r byd i wrthsefyll llygredigaeth (piler 3)

11. Mae'r tri philer hyn wedi'u hategu gan faes gweithredu trawsbynciol sy'n ymwneud â thystiolaeth, tryloywder a goruchwylio.

12. Mae'r **cyd-destun domestig a byd-eang** wedi newid yn sylweddol dros y degawd diwethaf. Mae ymddiriediaeth y cyhoedd yng ngallu llywodraethau i gyflawni dros eu dinasyddion wedi lleihau. Fel y dengys y Strategaeth Diogelwch Gwladol, mae'r rhagolygon economaidd a diogelwch byd-eang yn cael eu nodweddu'n fwyfwy gan ansicrwydd radical.[7] Mae rhyfel anghyfreithlon Rwsia yn erbyn Wcráin wedi tynnu sylw at yr effaith filain y gall cyfundrefnau gwleidyddol llwgr ei chael ar y DU a'n cynghreiriaid. Mae gan ddatblygiadau pellach mewn technoleg, megis deallusrwydd artiffisial, y potensial i hwyluso mathau newydd o droseddau, gan gynnwys llygredigaeth, ond gallant hefyd fod yn fodd i fynd i'r afael â nhw yn fwy effeithiol.

13. Mae'r strategaeth hon **yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed dros yr 20 mlynedd diwethaf** gan wahanol lywodraethau'r DU, yn aml gyda chefnogaeth drawsbleidiol gref. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno Deddf Llwgrwobrwyo 2010; sefydlu'r Ganolfan Cydgysylltu Atal Llygredigaeth Ryngwladol amlwlad, sy'n rhan o'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol; cyflwyno adnoddau arloesol fel Gorchmynion Rhewi Cyfrif a Gorchmynion Cyfoeth Anesboniadwy sy'n helpu i nodi enillion llygredigaeth a amheuir; a phasio deddfwriaeth i gryfhau rhestr y DU o gwmnïau a gwella tryloywder ynghylch pwy sy'n berchen ar eiddo a chwmnïau yn y DU.

14. Mae'r llywodraeth hon **eisoes wedi cyhoeddi cyfres bellach o fesurau** ers iddi gael ei hethol ym mis Gorffennaf 2024 sy'n dangos ei hymrwymiad i fynd i'r afael â llygredigaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- penodi'r Farwnes Margaret Hodge yn Hyrwyddwr Gwrthlygredigaeth newydd y DU gan y Prif Weinidog[8]
- sefydlu cynllun peilot ar gyfer Uned Llygredigaeth Ddomestig newydd yn Heddlu Dinas Llundain[9]
- defnydd arloesol o sancsiynau yn erbyn cleptocratiaid a'r rhai sy'n eu galluogi, gan wneud y DU yn amgylchedd mwy gelyniaethus i weithredwyr llwgr

7 Swyddfa'r Cabinet, National Security Strategy 2025: Security for the British People in a Dangerous World, 2025, sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/national-security-strategy-2025-security-for-the-british-people-in-a-dangerous-world/national-security-strategy-2025-security-for-the-british-people-in-a-dangerous-world-html#pm-foreword

8 Y Gwir Anrhydeddus y Farwnes Margaret Hodge DBE, gweler: https://www.gov.uk/government/people/margaret-hodge

9 Y Swyddfa Gartref, Working with partners to defeat economic crime, 2024, sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/ government/speeches/working-with-partners-to-defeat-economic-crime

- cynnal Uwchgynhadledd yn erbyn Cyllid Anghyfreithlon yn y DU
- mesurau mudo newydd ym mis Chwefror 2025 sydd wedi'u targedu at elitiau sydd â chysylltiadau â'r Kremlin[10]
- gwell safonau ac uniondeb mewn gwleidyddiaeth, gyda Chomisiwn Moeseg ac Uniondeb newydd, diweddaru Cod y Gweinidogion, rôl gryfach i'r Cynghorydd Annibynnol ar Safonau Gweinidogol, a chanllawiau newydd ar roddion a lletygarwch
- cyflwyno Rheoleiddiwr Pêl-droed Annibynnol o dan y Ddeddf Llywodraethu Pêl-droed i ddiogelu pêl-droed rhag perchnogion anaddas

## Yr ymgyrch yn erbyn Cyllid Anghyfreithlon

Ym mis Tachwedd 2024, lansiodd yr Ysgrifennydd Tramor ar y pryd yr ymgyrch yn erbyn Cyllid Anghyfreithlon. Roedd yr ymgyrch yn canolbwyntio ar ddangos arweinyddiaeth fyd-eang y DU o ran mynd i'r gyfraith â'r gwendidau cyffredin sy'n gwneud cyllid anghyfreithlon a llygredigaeth yn bosibl, a'r niweidiau sy'n gysylltiedig â nhw. Bydd y DU hefyd yn cynnal Uwchgynhadledd yn erbyn Cyllid Anghyfreithlon.

Mae'r ymgyrch wedi creu cryn fomentwm a chyfeiriad i ymdrechion y llywodraeth hon i fynd i'r afael â'r bygythiadau cyffredin sy'n deillio o gyllid anghyfreithlon a llygredigaeth, ac mae ei blaenoriaethau wedi cael eu hintegreiddio â'r strategaeth gyfan hon. Mae hyn yn cynnwys mesurau i:

- leihau cyfrinachedd ariannol
- cyfyngu ar alluogwyr proffesiynol sy'n hwyluso'r broses o wyngalchu arian llwgr neu anghyfreithlon.
- dwyn cleptocratiaid i gyfrif
- ysgogi diwygiadau yng nghanolfannau ariannol y byd
- lleihau'r niweidiau i ddatblygu a achosir gan gyllid anghyfreithlon a llygredigaeth

Er mwyn sicrhau llwyddiant o ran mynd i'r afael â'r bygythiadau trawswladol llygredigaeth a chyllid anghyfreithlon bydd yn hanfodol cyfuno diwygiadau domestig ag arweinyddiaeth fyd-eang; dull gweithredu sydd wedi cael ei ymgorffori yn y strategaeth hon.

15. Mae'r strategaeth hon yn amlinellu ymateb llywodraeth gyfan i lygredigaeth ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol. Bydd y strategaeth hon yn cael ei chyflawni mewn partneriaeth agos â chymdeithas sifil, academyddion, y sector preifat a phartneriaid allanol allweddol eraill, yn enwedig o ran mynd i'r afael ag arian llwgr, gwella uniondeb busnesau, cynnal Uwchgynhadledd y DU yn erbyn Cyllid Anghyfreithlon, a diogelu safonau

10 Llywodraeth EF, 'Kremlin-linked elites face exclusion from UK', Chwefror 2025, sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/ government/news/kremlin-linked-elites-face-exclusion-from-uk

rhyngwladol dramor. Bwriadwn roi diweddariadau rheolaidd i bartneriaid drwy grŵp cyswllt allanol a gadeirir gan yr Hyrwyddwr Gwrthlygredigaeth.

16. Bydd y strategaeth hon yn arwain at ganlyniadau perthnasol i bedair gwlad y DU. Mae gan Ogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru gryn ymreolaeth ddeddfwriaethol, weinyddol, a chyllidebol, gan gynnwys mewn meysydd sy'n berthnasol i'r strategaeth hon (e.e. llywodraeth leol a chaffael gan gyrff datganoledig). O ganlyniad, bydd rhai meysydd o'r strategaeth hon yn gymwys i Loegr yn unig, ond bydd i eraill gwmpas ehangach.

# Problem llygredigaeth

17. Mae llygredigaeth yn niweidio'r DU a'i dinasyddion yn uniongyrchol. Mae gwneud pobl Prydain yn dlotach, yn llai diogel, ac mae'n tanseilio democratiaeth. Mae gwneud cymdeithas a'r economi yn llai cystadleuol ac yn llai teg, ac mae'n rhwystro twf economaidd. Mae'n niweidiol i'n henw da am uniondeb ac felly mae'n tanseilio hyder yn ein sefydliadau a'n busnesau. Mae llygredigaeth yn her i ddiogelwch trawswladol sy'n peri ansefydlogrwydd a chipio gwladwriaethol ac mae'n cynyddu'r bygythiadau yn ôl yn y DU, gan gynnwys o du cleptocratiaid, troseddwyr a gwladwriaethau gelyniaethus.[11,12]

18. Mae'r strategaeth yn nodi diffiniad polisi cyntaf Llywodraeth y DU o lygredigaeth, a ddatblygwyd ar y cyd â Phrifysgol Sussex (gweler isod). Mae hwn yn cydnabod, er bod llygredigaeth yn y DU a thramor yn anghyfreithlon ac yn destun camau gorfodi'r gyfraith fel arfer, fod rhywfaint o weithgarwch llwgr yn ymwneud â thorri rheoliadau, safonau uniondeb, a/neu ymddygiad proffesiynol nad yw'n anghyfreithlon o bosibl. Fel diffiniad polisi, ni fwriedir iddo gael ei gymhwyso'n gyfreithiol o gwbl. Gweler Atodiad A am nodiadau esboniadol a manylion pellach am y defnydd arfaethedig o'r diffiniad hwn.

## Diffiniad y DU o lygredigaeth

Llygredigaeth yw camddefnyddio pŵer ymddiriedig er budd preifat sydd fel arfer yn torri cyfreithiau, rheoliadau, safonau uniondeb a/neu safonau ymddygiad.

19. Yn debyg i wledydd eraill, mae'n anodd mesur maint cyffredinol bygythiad llygredigaeth i'r DU.[13] Mae natur gudd llygredigaeth yn ei gwneud yn anodd i'w ddatgelu, ac mae'n heriol cael data dibynadwy a'u dadansoddi. Cyfyd heriau hefyd o ran asesu'n uniongyrchol y niweidiau y mae'n eu hachosi, y tu hwnt i'w heffaith anuniongyrchol neu eilaidd ar ymddiriedaeth y cyhoedd, sefydliadau gwannach, a chamddefnydd o arian. Er y gall dangosyddion canfyddiad lefel uchel a chyfansawdd fod yn ddefnyddiol o ran dweud wrthym beth mae pobl yn ei feddwl am y broblem o ran llygredigaeth, nid ydynt yn dweud wrthym am ei graddfa na'i natur wirioneddol. Gwyddom mai dim ond cyfran fach o lygredigaeth sy'n cael ei chanfod a'i herlyn, a bod llygredigaeth yn achosi niwed i economi, diogelwch a democratiaeth y DU.[14,15]

11 Gweler, er enghraifft, Allison, O., Lewis, D., Looting Mariupol: Russia's use of illicit finance and economic crime in Ukraine, Papur Ymchwil 35 SOC ACE, Prifysgol Birmingham, 2025, sydd ar gael yn: https://www.socace-research.org.uk/publications/looting-mariupol

12 Gweler Hellman J. S., Jones G., Kaufmann D., Seize the state, seize the day: State capture, corruption, and influence in transition, Banc y Byd, 2000.

13 Prifysgol Sussex, Y Ganolfan er Astudio Llygredigaeth International approaches to recording corruption and monitoring intervention outcomes at the national level, sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/international-approaches-to-recording-and-monitoring-corruption

14 Cynigiwyd 117,000 o lwgwobrwyon i fusnesau yn y DU sydd â chyflogeion gan fusnesau neu unigolion eraill yn y DU dros gyfnod o 12 mis. Y Swyddfa Gartref, Arolwg Troseddau Economaidd 2024, sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/ publications/economic-crime-survey-2024

15 Llywodraeth EF, Deddf Llwgrwobrwyo 2010 y DU, sydd ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/23/contents

# Mae llygredigaeth yn ein gwneud yn dlotach

20. Mae llygredigaeth yn niweidio twf cynaliadwy hirdymor. Mae costau llygredigaeth yn golygu bod pawb ar ei golled yn yr hirdymor – drwy lai o fuddsoddi, costau uwch i fusnesau, ac economi sydd wedi'i hadeiladu ar annhegwch a diffyg cyfle i bawb – sy'n gwrthbwyso unrhyw fanteision byrdymor ymddangosiadol.[16]

21. Mae pob cwmni yn y DU sy'n colli ei fynediad at farchnad oherwydd swyddogion llwgr yn derbyn llwgrwobrwyon, neu fuddsoddwr tramor sy'n ailfeddwl oherwydd ei ganfyddiad nad yw mynd i'r afael â llygredigaeth yn bwysig yn y DU, yn golygu llai o swyddi, llai o incwm a llai o arian ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. Mae diogelu uniondeb system ariannol y DU, a rhoi lle glân diogel ac atyniadol i fuddsoddi ynddo, yn cefnogi twf economaidd a sefydlogrwydd ariannol gryf.

22. Credir mai llwgrwobrwyo yw'r math mwyaf cyffredin o lygredigaeth dros y byd.[17] Mae'n tanseilio cystadleuaeth deg drwy gyfyngu ar fynediad at farchnadoedd newydd neu gontractau llywodraethau. Gall costau llwgrwobrwyo i fusnesau fod yn uchel, a bydd unrhyw enillion unigol yn y byrdymor, sydd yn aml yn anghynaliadwy, yn cael eu gwrthbwyso gan niwed ehangach i gystadleuaeth deg. Dangosodd Arolwg Troseddu Economaidd 2024 y Swyddfa Gartref fod tua 1 o bob 35 busnes â chyflogeion wedi dod ar draws achos o lwgrwobrwyo yn ystod y 12 mis blaenorol, a bod busnesau wedi cael cynnig cyfanswm amcangyfrifedig o 117,000 o lwgrwobrwyon gan fusnesau neu unigolion eraill yn y DU, a oedd yn werth dros £300 miliwn i gyd. Mae data gorfodi yn dangos, bod diffynyddion wedi cael eu herlyn am gyfanswm o 15 o droseddau o dan Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010 y DU yn 2024.[18] Un enghraifft ddiweddar yw euogfarnu pedwar rheolwr adeiladu am droseddau ynglŷn â llwgrwobrwyo mewn perthynas â chontractau llafur gwerth dros £15 miliwn rhwng 2012 a 2018. Cawsant eu dedfrydu i gyfanswm o 11 a hanner o flynyddoedd yn y carchar.[19]

23. Mae gweithredwyr llwgr sy'n gwyngalchu eu cyfoeth anghyfreithlon yn y DU yn gwneud y DU yn dlotach drwy niweidio ein henw da fel lle i gynnal busnes cyfreithlon yn yr hirdymor. Drwy ddefnyddio eu harian anghyfreithlon i brynu eiddo a busnesau, gall gweithredwyr llwgr hefyd ystumio amodau'r farchnad leol a chynyddu costau pob dydd i bobl Prydain.[20] O blith y cyhoedd, mae 60% yn pryderu am effaith gweithredwyr llwgr o dramor ar brosiectau seilwaith y DU, ac mae 59% yn pryderu am eu heffaith ar y farchnad dai.[21] Drwy ddwyn gweithredwyr llwgr gerbron llys barn mae hyn yn atgyfnerthu ymrwymiad y

---

16 Gweler Nur-tegin, K. a Jakee, K., Does corruption grease or sand the wheels of development? New results based on disaggregates data, The Quarterly Review of Economics and Finance, 2020, 75, tudalennau 19-30.

17 Am esboniad pellach o lwgrwobrwyo, gweler Barrington, R., David-Barrett, E., Dobson Phillips, R. a Garrod, G., gol., Dictionary of Corruption, Agenda Publishing, 2023. Am ddiffiniad cyfreithiol o lwgrwobrwyo, gweler adrannau 1 a 2 o Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010 y DU, sydd ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/23/contents

18 Llywodraeth EF, Deddf Llwgrwobrwyo 2010 y DU, sydd ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/23/contents, a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, bwletin ystadegol chwarterol y System Cyfiawnder Troseddol: Rhagfyr 2024, sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/statistics/criminal-justice-system-statistics-quarterly-december-2024

19 Construction Enquirer News, 'Former Keltbray managers jailed after corruption trial', 2025, sydd ar gael yn: https://www.constructionenquirer.com/2025/04/28/four-jailed-after-keltbray-corruption-trial/

20 U4, Illicit financial flows and economic growth, sydd ar gael yn: https://www.u4.no/publications/illicit-financial-flows-and-economic-growth/fullversion

21 Y Swyddfa Gartref, UK public's concerns, perceptions and understanding of corruption, 2025, sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/uk-publics-concerns-perceptions-and-understanding-of-corruption

DU i reolaeth y gyfraith sy'n diogelu twf economaidd yn yr hirdymor.[22] Mae'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol yn asesu ei bod yn bosibilrwydd realistig bod dros £100 biliwn yn cael ei wyngalchu bob blwyddyn drwy'r DU neu drwy strwythurau corfforaethol y DU gan ddefnyddio dulliau gwyngalchu arian soffistigedig. Un enghraifft o hyn yw'r gwleidydd llwgr, James Ibori, cyn-Lywodraethwr Talaith Delta yn Nigeria, a ddedfrydwyd i 13 mlynedd o garchar yn y DU am ddwyn bron £50 miliwn oddi wrth ei dalaith drwy dwyll ac ariannu bywyd moethus, gan gynnwys eiddo a cheir drud yn Llundain, Washington DC, a Texas.[23,24]

24. Mae llygredigaeth a chyllid anghyfreithlon yn llesteirio twf byd-eang. Maent yn ystumio marchnadoedd rhyngwladol, yn atal buddsoddi cyfreithlon ac yn gwanhau sefydlogrwydd ariannol. Yn Affrica yn unig, amcangyfrifir bod o leiaf US$50 biliwn yn cael ei golli bob blwyddyn oherwydd cyllid anghyfreithlon.[25] Lle bynnag y digwydd, gall llygredigaeth ddargyfeirio arian i ffwrdd o fuddsoddiadau sy'n ysgogi twf. Mae hyn yn lleihau'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer prosiectau datblygu hollbwysig, yn tanseilio hyder yn yr amgylchedd busnes, yn cynyddu costau cydymffurfio ac yn lleihau mynediad cwmnïau sy'n gweithredu'n gyfreithlon at gredyd.

# Mae llygredigaeth yn ein gwneud yn llai diogel

25. Mae pob unigolyn llwgr sy'n helpu troseddwyr cyfundrefnol i osgoi rheolaethau ffiniau'r DU, neu bob cyfreithiwr neu gyfrifydd sy'n helpu cleptocratiaid i gelu eu harian llwgr, yn chwarae rôl o ran cynyddu troseddau, a grymuso'r rhai sy'n ceisio achosi niwed i'r DU a'i dinasyddion.

26. Mae swyddogion mudo llwgr yn gwneud strydoedd y DU yn llai diogel i'r cyhoedd. Mae unigolion o'r tu mewn yn ei gwneud yn bosibl i eraill gyflawni troseddau difrifol a chyfundrefnol drwy ddatgelu gwybodaeth sensitif, hwyluso'r broses o symud cyffuriau neu danseilio rheolaethau mudo sy'n cadw'r cyhoedd yn ddiogel.[26] Mae gweithwyr achos llwgr sy'n darparu fisâu i unigolion yn gyfnewid am ffafrau, neu sy'n tanseilio ymweliadau gorfodi, yn niweidio uniondeb ein system fudo. Mae hyn yn achosi risg i'r cyhoedd drwy ganiatáu i unigolion peryglus, gan gynnwys troseddwyr o wledydd tramor, aros yn y DU. Mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys swyddog llwgr o Lu'r Ffiniau a gafodd ei garcharu am ganiatáu i gyffuriau fynd drwy fan archwilio ym Mhorthladd Portsmouth, a swyddog o'r

22 Fernandes, M. a Jančová, L., Stepping up the EU's efforts to tackle corruption: Cost of Non-Europe Report, Gwasanaeth Ymchwil Senedd Ewrop, Senedd Ewrop, 2023, sydd ar gael yn: https://www.europarl.europa.eu/RegData/etudes/STUD/2023/734687/EPRS_STU(2023)734687_EN.pdf

23 Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, National Strategic Assessment of Serious and Organised Crime, 2025, sydd ar gael yn: https://www.nationalcrimeagency.gov.uk/nsa-2025

24 BBC News, 'Former Nigeria governor James Ibori jailed for 13 years', 2012, sydd ar gael yn: https://www.bbc.co.uk/ news/world-africa-17739388

25 Y Cenhedloedd Unedig , y Comisiwn Economaidd dros Affrica, 'Illicit financial flows: report of the High-Level Panel on illicit financial flows from Africa', 2015, sydd ar gael yn: https://repository.uneca.org/entities/publication/b49325f9-4396-5882-8d56-88117f079086

26 Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, National Strategic Assessment of Serious and Organised Crime, 2025, sydd ar gael yn: https://www.nationalcrimeagency.gov.uk/nsa-2025

gwasanaeth mudo a gymeradwyodd geisiadau am loches yn gyfnewid am lwgrwobrwyon.[27,28]

27. Mae swyddogion yr heddlu a swyddogion carchardai sy'n llwgr o fantais i droseddwyr ac yn achosi niwed i'r cyhoedd y dylent ei wasanaethu. Maent yn tanseilio ymddiriedaeth mewn gwasanaethau lifrai yn y DU sy'n dibynnu ar ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd i weithredu'n effeithiol. Yn 2024, cafodd 45 o staff a oedd yn gweithio yng Ngwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi eu herlyn am droseddau a oedd yn ymwneud â llygredigaeth.[29] Gwnaeth pob un o'r unigolion hyn dorri'r ymddiriediaeth a roddwyd ynddynt, gan achosi risg i ddiogelwch y cyhoedd er eu mantais eu hunain.

28. Mae llygredigaeth yn peryglu uniondeb y sector amddiffyn byd-eang ac felly gallai fod yn sbardun i wrthdaro a chynyddu yn ôl yn y DU.[30] Ceir tystiolaeth gref sy'n awgrymu bod y sector amddiffyn yn agored i gamfanteisio gan weithredwyr llwgr, o ystyried natur gynhenid gyfrinachol a chymhleth y sector.[31] Mae'r cysylltiadau hyn yn arbennig o wir mewn gwledydd lle mae'r wladwriaeth wedi cael ei chipio, oherwydd mae rheolaeth dros y sector diogelwch yn un o'r prif dargedau i elitiau llwgr.[32] Gallai'r risg hon gynyddu yn y blynyddoedd sydd i ddod wrth i wledydd yn Ewrop ac mewn mannau eraill gynyddu eu gwariant ar amddiffyn a diogelwch mewn ymateb i wrthdaro cynyddol.

29. Mae llygredigaeth yn tanseilio diogelwch a sefydlogrwydd dramor. Mae'n atal cyfundrefn lywodraethu effeithiol a medrus rhag ymwreiddio mewn gwledydd sy'n bwysig i'r DU a gall fod yn sbardun i broses o gipio'r wladwriaeth. Mae hyn yn creu amodau sy'n tanseilio bron bob un o fuddiannau'r DU, gan gynnwys y defnydd effeithiol o gymorth datblygu swyddogol a gallu'r DU i gefnogi'r rhai sydd â'r angen mwyaf. Mae canfyddiadau nad yw'r DU yn mynd i'r afael â llygredigaeth yma yn tanseilio ein henw da yn fyd-eang a'n gallu i ddylanwadu ar eraill i fynd i'r afael â llygredigaeth. Mae llygredigaeth yn sbardun i ansefydlogrwydd a all ei gwneud yn haws i droseddwyr cyfundrefnol, terfysgwyr a chleptocratiaid weithredu, ac mae'n un o'r ffactorau sy'n ysgogi mudo afreolaidd. Pan fydd gweithredwyr troseddol yn llwgrwobrwyo swyddogion i anwybyddu eu gweithrediadau cychod bach anghyfreithlon, neu pan fydd gweinyddwyr llwgr yn gwrthod rhoi cymorth i unigolion sy'n haeddu ei gael, effeithir ar y bobl fwyaf agored i niwed, gan gynnwys drwy annog unigolion i beryglu eu bywydau ar deithiau peryglus i Ewrop, gan gynnwys y DU.

27 BBC News, 'Corrupt Portsmouth border officer jailed for aiding drugs gang', 2024, sydd ar gael yn: https://www.bbc.co.uk/news/articles/ck77vzz2lxxo

28 BBC News, 'Blackburn Home Office worker granted asylum applications for cash', 2025, sydd ar gael yn: https://www.bbc.co.uk/news/articles/cvg8emkley3o

29 Mae troseddau sy'n ymwneud â llygredigaeth yn y cyd-destun hwn yn cynnwys camymddwyn mewn swydd gyhoeddus, cynllwynio i gyfleu, a throseddau cyfathrebu o dan adran 40D. Ffigurau mewnol Uned Wrthlygredigaeth Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi.

30 Transparency International Defence and Security, 'Transparency International Exposes Corruption's Hidden Role in Global Weapons Diversion in New Report', 2025, sydd ar gael yn: https://ti-defence.org/publications/under_the_radar_publication/

31 Transparency International Defence and Security, Sabotaging Peace: Corruption as a threat to international peace and security, 2025, sydd ar gael yn: https://ti-defence.org/wp-content/uploads/2025/06/Corruption-as-a-threat-to-peace-and-security.pdf

32 Transparency International Defence and Security, Trojan Horse Tactics: Unmasking the imperative for transparency in military spending, 2024, sydd ar gael yn: https://ti-defence.org/publications/trojan-horse-tactics-transparency-military-spending-corruption-risk/

# Mae llygredigaeth yn ein gwneud yn llai democrataidd

30. Mae pob arweinydd gwleidyddol sy'n anwybyddu safonau uniondeb mewn bywyd cyhoeddus, neu bob swyddog sy'n masnachu mewn gwasanaethau a dylanwad er ei fudd ei hun, yn golygu llai o ymddiriedaeth mewn democratiaeth a gwasanaethau cyhoeddus gwannach. Ac mae pob cleptocrat sy'n cael mynediad at elitiau'r DU ei hun drwy wyngalchu eu henw yn tanseilio ac yn gwanhau ein sefydliadau.[33] Mae'r DU, yn draddodiadol, wedi ymfalchïo mewn bod yn wlad na fydd yn goddef gweithredoedd na phobl lwgr yn ei gwleidyddiaeth na'i llywodraeth, ac mae angen i ni sicrhau nad ydym yn colli ein henw da am hyn.

31. Mae gweithredwyr llwgr o dramor sy'n ceisio dylanwad gwleidyddol yn y DU yn gweithredu yn unol â'u buddiannau eu hunain, nid buddiannau pleidleiswyr y DU na'n democratiaeth. Mae Pwyllgor Cuddwybodaeth a Diogelwch Senedd y DU wedi canfod bod elitiau o dramor sy'n ymwneud â sefydliadau elusennol neu wleidyddol yn y DU wedi rhoi arian i bleidiau gwleidyddol.[34]

32. Mae swyddogion lleol llwgr yn niweidio cymunedau lleol. Maent yn tanseilio ymddiriedaeth mewn sefydliadau lleol wrth i bŵer gael ei ddatganoli. Mae unrhyw ganfyddiad nad yw cynghorwyr/ swyddogion lleol yn cynnal safonau uchel o ran uniondeb ac ymddygiad yn tanseilio ymddiriedaeth y cyhoedd hefyd. Er bod y dystiolaeth yn anecdotaidd yn bennaf, mae partneriaid ym maes gorfodi'r gyfraith yn asesu llywodraeth leol fel sector allweddol sy'n agored i'r risg o lygredigaeth yn y DU.[35] Un enghraifft yw cyn-weithiwr cyngor a garcharwyd yn 2024 am dderbyn llwgrwobrwyon gan gwmni lleol i chwyddo anfonebau, a thrwy hynny ddefnyddio arian a ddylai fod wedi ariannu gwasanaethau yn y gymuned leol.[36]

33. Mae cwmnïau llwgr sy'n sicrhau contractau drwy brosesau caffael cyhoeddus annheg yn golygu gwasanaethau gwaeth a llai o werth am arian i drethdalwyr. Yn ogystal â chosbi cwmnïau sy'n cadw at y rheolau, mae caffael annheg yn niweidiol i ymddiriedaeth y cyhoedd mewn llywodraeth a'r ffordd y dyfernir cyllid cyhoeddus. Er bod tystiolaeth o lygredigaeth ym maes caffael cyhoeddus yn anecdotaidd i raddau helaeth, mae maint y risg yn sylweddol o ystyried bod £400 biliwn yn cael ei ddyfarnu drwy gontractau'r llywodraeth bob blwyddyn.[37] Mae Comisiynydd Gwrthdwyll Covid yn mynd ati i adennill symiau sylweddol o arian cyhoeddus a gollwyd drwy dwyll a oedd yn ymwneud â'r pandemig.

33 Heathershaw, J., Pelec, T. a Mayne, T., Indulging Kleptocracy: British Service Providers, Postcommunist Elites, and the Enabling of Corruption, 2025, Gwasg Prifysgol Rhydychen, sydd ar gael yn: https://global.oup.com/academic/

34 Intelligence and Security Committee of Parliament, HC 632 – Pwyllgor Cuddwybodaeth a Diogelwch Senedd y DU – Russia, 2020, sydd ar gael yn: https://isc.independent.gov.uk/wp-content/uploads/2021/01/20200721_HC632_CCS001_CCS1019402408-001_ISC_Russia_Report_Web_Accessible.pdf

35 Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, Local government procurement: fraud and corruption risk review, 2020, sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/local-government-procurement-fraud-and-corruption-risk-review

36 Gwasanaeth Erlyn y Goron, Former council employee jailed after roofing work fraud, 2024, sydd ar gael yn: https://www.cps.gov.uk/cps/news/former-council-employee-jailed-after-roofing-work-fraud-0

37 Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, Review into the risks of fraud and corruption in local government procurement, 2020, sydd ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5ede321ce90e073a07056d08/Fraud_and_corruption_risks_in_local_government_procurement_FINAL.pdf

# Piler 1:

# Gweithredwyr llwgr




# Piler 1: Gweithredwyr llwgr

**Gwrthsefyll gweithredwyr llwgr a'u harian yn y DU a thramor (Amcan 1)**

34. Nod piler cyntaf y strategaeth yw gwrthsefyll gweithredwyr llwgr a'u harian yn y DU a thramor. Er mwyn gwneud hyn, byddwn ein hymateb yn canolbwyntio ar gyfiawnder ac atebolrwydd, **a tharfu ar fynediad i'r DU**, a **mynd i'r afael ag arian llwgr**.

**Ffigur 2: Trosolwg o system y DU ar gyfer dwyn gweithredwyr llwgr gerbron llys barn**




* NPCC: Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu. HMRC: Cyllid a Thollau EF. DWP: Yr Adran Gwaith a Phensiynau. PSFA: Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus. HMPPS: Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi. BF: Llu'r Ffiniau. IE: Gorfodi Mewnfudo. IOPC: Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu FCA: Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol. SRA: Yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr. CMA: Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. DHSC: Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. NHS: Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol

# 1.1 : Cyfiawnder ac atebolrwydd

**Mae gweithredwyr llwgr yn cael eu dwyn i gyfrif am eu gweithredoedd yn y DU a thramor (Canlyniad 1.1)**

35. Mae effeithiolrwydd ymateb y DU i lygredigaeth yn dibynnu nid yn unig ar ei gallu i ddwyn gweithredwyr llwgr gerbron llys barn, ond hefyd ar hygyrchedd ei hamgylchedd galluogi ehangach – sy'n cwmpasu atal, tryloywder, y gallu i orfodi, ac ymrwymiad gwleidyddol estynedig. Yn dactegol, mae hyn yn gofyn am system sy'n gallu nodi llygredigaeth ar gam cynnar, brysbennu achosion newydd yn effeithlon, a sicrhau bod gan gyrff gorfodi lefel dda o adnoddau a'u bod yn gweithredu'n effeithiol yn y system gyfiawnder. Mae achosion o lygredigaeth yn aml yn heriol iawn i ymchwilio iddynt a'u herlyn yn llwyddiannus: mae'r troseddau fel arfer yn gudd, gall yr achosion fod yn gymhleth ac yn hirfaith, ac mae ymchwiliadau yn aml yn rhychwantu sawl awdurdodaeth ryngwladol.[38]

36. Er mwyn dwyn gweithredwyr llwgr i gyfrif am eu gweithredoedd yn y DU a thramor yn llwyddiannus, byddwn ein hymateb yn canolbwyntio ar **nodi ac agyfeirio**, **gorfodi**, a **chyfiawnder**.

## Proses nodi ac atgyfeirio

**Caiff gweithgarwch llwgr posibl ei nodi ar gam cynnar a chaiff atgyfeiriadau eu brysbennu a'u cydgysylltu'n effeithiol gan asiantaethau gorfodi (Canlyniad 1.1a)**

37. Mae heriau cynhenid o ran adnabod troseddau cudd megis llygredigaeth. Yn aml, ni chaiff atgyfeiriadau posibl eu cofnodi fel llygredigaeth oherwydd gorgyffwrdd â thwyll neu fathau eraill o droseddu, ac nid yw bob amser yn hawdd gwybod ble i roi gwybod am lygredigaeth. Unwaith y rhoddir gwybod am achos, mae angen i atgyfeiriadau ynglŷn â llygredigaeth gael eu brysbennu a'u blaenoriaethu rhwng prif asiantaethau gorfodi'r gyfraith er mwyn sicrhau yr ymchwilir i'r achosion sy'n peri'r niwed mwyaf yn effeithiol.

38. Chwythwyr chwiban yw un o'r asedau mwyaf effeithiol o ran adnabod arwyddion o gamymddwyn, am eu bod yn aml yn dyst i ymddygiad llwgr o'r tu mewn a'u bod yn gallu atal niwed pellach ar gam cynnar.[39,40] Fodd bynnag, mae pryderon nad yw fframwaith presennol y DU i ddiogelu chwythwyr chwiban o dan y gyfraith yn Neddf Hawliau Cyflogaeth 1996, a gyflwynwyd yn gyntaf yn 1998, o bosibl yn gweithredu mor effeithiol ag y dylai. Mae dadleuon hefyd wedi cael eu cynnig y dylai mwy o reoleiddwyr yn y DU dalu chwythwyr chwiban corfforaethol i roi gwybod am achosion o gamymddwyn, yng ngoleuni tystiolaeth mewn gwledydd eraill bod rhaglenni o'r fath yn arwain at fwy o wybodaeth am

38 UNODC, Practical Guide on the Investigation of Corruption Cases, 2024, sydd ar gael yn: https://track.unodc.org/uploads/documents/corruption/Publications/2024/UNODC_2024_Practical_Guide_on_the_Investigation_ of_Corruption_Cases.pdf

39 Llywodraeth EF, Public Interest Disclosure Act 1998, sydd ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/23/contents

40 Transparency International, Internal Whistleblowing Systems: Best practice principles for public and private organisations, 2022: https://www.transparency.org/en/publications/internal-whistleblowing-systems

weithgareddau llwgr y gellir gweithredu arni a gwella canlyniadau ym maes gorfodi'r gyfraith[41,42]

39. Ein huchelgais yw y bydd gweithredwyr llwgr posibl yn cael eu hadnabod ar gam cynnar, ac y bydd atgyfeiriadau at asiantaethau gorfodi yn cael eu brysbennu a'u cydgysylltu'n effeithiol. Byddwn yn llunio gweithgareddau a'u rhoi ar waith dros y pum mlynedd nesaf er mwyn gwireddu'r uchelgais hon, ac rydym wedi cytuno ar yr ymrwymiadau canlynol i ddechrau.

    I. Adolygu'r system bresennol ar gyfer **rhoi gwybod am achosion posibl o lygredigaeth** yn y DU er mwyn nodi ffyrdd o wneud y broses yn haws a mwy cydgysylltiedig, gan gynnwys cysoni â'r systemau presennol at gyfer atgyfeirio troseddau economaidd yn well (JACU) (ymrwymiad â blaenoriaeth).

    II. Ehangu tŷ clirio Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth **y Ganolfan Troseddau Economaidd Genedlaethol** i gynnig proses gadarn i gael gwared ar wrthdaro a goruchwyliaeth dactegol o'r achosion mwyaf arwyddocaol o lygredigaeth yn y DU, gan gynnwys un ffordd o sgorio risg, cofrestr o achosion a chyflwyno adroddiadau ar achosion bob chwe mis (NECC, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, JACU) (ymrwymiad â blaenoriaeth).[43]

    III. Ystyried canfyddiadau newydd yr Adolygiad Annibynnol o Droseddau Datgelu a Thwyll (rhan dau) sy'n cynnwys **rhoi cymhelliant i chwythwyr chwiban mewn troseddau economaidd**, ac asesu dichonoldeb cyflwyno cynlluniau cymell ariannol a helpu unigolion i roi gwybod am achosion economaidd (y Swyddfa Gartref, JACU, y Swyddfa Twyll Difrifol, Trysorlys EF, y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, yr Adran Fusnes a Masnach, Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus) (ymrwymiad â blaenoriaeth).

    IV. Ystyried cyfleoedd i **ddiwygio trefniadau chwythu'r chwiban yn y DU** yng nghyd-destun cyflogaeth (yr Adran Fusnes a Masnach) (ymrwymiad â blaenoriaeth).

# Gorfodi

**Mae asiantaethau gorfodi yn ymchwilio i weithredoedd llwgr yn effeithiol er mwyn atal niwed i ddioddefwyr, y DU a'i buddiannau dramor (Canlyniad 1.1b)**

40. Mae'r DU yn adleoli timau penodol yn yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, y Swyddfa Twyll Difrifol a Heddlu Dinas Llundain i fynd i'r afael â llygredigaeth ac adennill asedau yn y DU a thramor. Ers ei sefydlu, mae'r Ganolfan Cydgysylltu Atal Llygredigaeth Ryngwladol a arweinir gan yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol wedi cael mwy na 347 o

41 Yn 2024 i 2025, cafodd Is-adran Guddwybodaeth y Swyddfa Twyll Difrifol tua 1,450 o atgyfeiriadau, a gwnaeth frysbennu, asesu a gweithredu ar bob un ohonynt. O'r rhain, ymdriniodd Is-adran Guddwybodaeth y Swyddfa Twyll Difrifol â 167 o ddatgeliadau chwythu'r chwiban, fel y'i diffiniwyd gan adran 230(3) o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996, a/neu 'wneud datgeliad er budd y cyhoedd'. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024/25 y Swyddfa Twyll Difrifol, sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/ sfo-annual-report-and-accounts-2024-25

42 SOC ACE, The Role of Financial Rewards for Whistleblowers in the Fight Against Economic Crime, 2024, sydd ar gael yn: https://www.socace-research.org.uk/publications/socace-rp31-the-role-of-financial-reward-programmes-for-whistleblowers-in-the-fight-againts-economic-crime

43 Mae'n cynnwys pob achos Blaenoriaeth 1 a Blaenoriaeth 2, heb gynnwys unrhyw achosion o lygredigaeth fewnol ym maes gorfodi'r gyfraith a phlismona. Achos Blaenoriaeth 1: Bygythiad neu weithgarwch troseddol sy'n cael effaith ar raddfa ryngwladol. Achos Blaenoriaeth 2: Bygythiad neu weithgarwch troseddol sy'n cael effaith ar raddfa ryngwladol neu genedlaethol.

geisiadau am gymorth ar gyfer ymchwilliadau i lygredigaeth fawr, ac o ganlyniad mae wedi nodi asedau sydd wedi cael eu dwyn a'u celu gwerth £1.8 biliwn ac wedi rhoi cymorth uniongyrchol i rewi £641 miliwn.[44] Mae asiantaethau gorfodi'r gyfraith hefyd yn canolbwyntio ar y canlynol: gwaith atal gyda chwmnïau, gweithgarwch atal a tharfu, a dulliau eraill dwyn gweithredwyr llwgr i gyfrif, gan gynnwys drwy gytundebau erlyniad gohiriedig. Mae sawl sefydliad arall yn y sector cyhoeddus yn y DU sy'n ymchwilio i weithgarwch llwgr, gan gynnwys y Swyddfa Gartref, Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu a Cyllid a Thollau EF (CThEF).

41. Cyfyd heriau i bob tîm gorfodi'r gyfraith o ran ymchwilio i achosion o lygredigaeth. Mae cymhlethdod a hyd achosion yn golygu bod asiantaethau ond yn ymdrin â nifer cymharol fach o achosion posibl o niwed mawr, gyda lefel isel o adnoddau i fod yn hyblyg ynglŷn ag achosion newydd neu pan ddaw meysydd risg i'r golwg. Yn debyg i droseddau economaidd ehangach, cyfyd heriau o ran recriwtio a chadw staff oherwydd y galw am sgiliau ariannol arbenigol y mae galw amdanynt hefyd yn y sector ariannol, rheoleiddwyr cyhoeddus a phreifat, cynghorwyr masnachol ac is-adrannau bancio. Gan adeiladu ar fuddsoddiad diweddar mewn galluoedd domestig newydd, bydd y llywodraeth yn ystyried y dirwedd gyllido gyda'r nod o gryfhau gorfodi o ran troseddau economaidd.

## Astudiaeth achos: Uned Llygredigaeth Ddomestig

Yn 2024, lansiodd Heddlu Dinas Llundain, gyda chymorth Uned Wrthlygredigaeth ar y Cyd (JACU) y Swyddfa Gartref, gynllun peilot Uned Llygredigaeth Ddomestig. Sefydlwyd yr Uned Llygredigaeth Ddomestig i wella gallu'r DU i ddeall bygythiad llygredigaeth ddomestig ac ymateb iddo. Ei hamcanion craidd yw:




- meithrin gallu ac adnoddau penodol ar gyfer cuddwybodaeth ac ymchwilio
- gwella dealltwriaeth o natur a maint llygredigaeth ddomestig
- helpu heddluoedd rhanbarthol a lleol i fwrw ymlaen ag achosion o lygredigaeth

Yn ei blwyddyn weithredu gyntaf, creodd yr uned dîm arbenigol o ymchwilwyr a swyddogion cuddwybodaeth. Mae'r uned wedi prosesu mwy na 70 o atgyfeiriadau mewn nifer o sectorau, ac mae nifer yr atgyfeiriadau yn parhau i godi wrth i'r cynllun peilot ddod yn rhan fwy annatod o'r ymateb cenedlaethol. Mae hyn wedi arwain at weithgarwch gweithredol cynyddol, gan gynnwys arestiadau, ac mae wedi cryfhau gallu'r DU o ran plismona llygredigaeth yn gyffredinol i darfu a dwyn troseddwyr gerbron llys barn.

Mae'r uned yn gweithio'n agos gyda phartneriaid plismona, erlyn a gorfodi yn y DU i fynd i'r afael â llygredigaeth a lleihau niwed, gan gynnwys Unedau Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol. Mae cydgysylltu gweithredol o'r fath yn sicrhau bod achosion newydd o lygredigaeth yn cael eu nodi'n gyflym, ac yr eir ar drywydd gweithredwyr llwgr ar lefel ranbarthol a chenedlaethol.

44 Ystadegau allweddol a luniwyd gan y Ganolfan Cydgysylltu Atal Llygredigaeth Ryngwladol ers ei sefydlu ym mis Gorffennaf 2017 hyd at Ragfyr 2024.

42. Ein huchelgais yw y bydd asiantaethau gorfodi yn ymchwilio i weithredwyr llwgr yn effeithiol er mwyn atal niwed i ddioddefwyr, y DU a'i buddiannau dramor. Byddwn yn llunio gweithgareddau a'u rhoi ar waith dros y pum mlynedd nesaf er mwyn gwireddu'r uchelgais hon, ac rydym wedi cytuno ar yr ymrwymiadau canlynol i ddechrau.

I. Ehangu'r **Uned Llygredigaeth Ddomestig** i ymchwilio i achosion cenedlaethol a rhanbarthol o lygredigaeth yn y DU, gan ganolbwyntio ar sectorau allweddol sy'n wynebu risg, a chefnogi achosion Unedau Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol a heddluoedd lleol (JACU, Heddlu Dinas Llundain) (ymrwymiad â blaenoriaeth).[45]

II. Parhau i gefnogi **Uned Llygredigaeth Ryngwladol** yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol a chryfhau trefniadau cydweithio â gwledydd partner yr uned ar ymchwiliadau er mwyn gwella tystiolaeth (y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol) (ymrwymiad â blaenoriaeth).

III. Parhau i gefnogi'r **Ganolfan Cydgysylltu Atal Llygredigaeth Ryngwladol** er mwyn iddi gynyddu ei haelodau ym maes gorfodi'r gyfraith yn y DU ac fel y gall godi ei phroffil mewn fforymau rhyngwladol, a chynyddu adnoddau ac aelodau o wledydd eraill (y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol) (ymrwymiad â blaenoriaeth).

IV. Yng nghyd-destun yr Adolygiad o Wariant 2025, **ystyried y dirwedd gyllido** gyda'r nod o gryfhau gorfodi o ran troseddau economaidd (Trysorlys EF, y Swyddfa Gartref) (ymrwymiad â blaenoriaeth).

V. Cyflymu ymchwiliadau'r Swyddfa Twyll Difrifol, drwy broses ymchwilio fwy effeithlon a'r defnydd o **ddeallusrwydd artiffisial a dysgu peirianyddol**, a rhannu gwersi ehangach a ddysgwyd ac y gellid eu mabwysiadu a'u hintegreiddio drwy'r system gyfan (y Swyddfa Twyll Difrifol) (ymrwymiad â blaenoriaeth).

VI. Treialu prototeip ar gyfer **cynorthwyydd ymchwilio llygredigaeth â deallusrwydd artiffisial** er mwyn gwella cymorth ar gyfer cyflawni gweithredol yn Unedau Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol a heddluoedd lleol ar achosion lleol o lygredigaeth (JACU, Heddlu Dinas Llundain, y Coleg Plismona, yr Unedau Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol).[46]

VII. Cydgysylltu **gweithgarwch cyfathrebu ym maes gorfodi'r gyfraith** i godi ymwybyddiaeth ymhlith unigolion a diwydiant er mwyn diogelu rhag risgiau o lygredigaeth yn y dyfodol (NECC).

VIII. Datblygu pecyn hyfforddiant a chymorth i wledydd incwm isel ar ddefnyddio adnoddau **cydweithredu rhyngwladol** mewn achosion gwrthlygredigaeth (y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, UKCA).[47]

IX. Cyflwyno'r tasglu erlyniadol gwrthlygredigaeth rhyngwladol newydd i ddatblygu gwell partneriaeth weithredol rhwng y Swyddfa Twyll Difrifol a'i phartneriaid rhyngwladol allweddol (y Swyddfa Twyll Difrifol).

X. Mynd ati i orfodi'n gryfach drwy **Uned Orfodi Beilot Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus** drwy ymchwilio i dwyll yn y sector cyhoeddus ar ran awdurdodau cyhoeddus ac atgyfeirio achosion o lwgrwobrwyo a llygredigaeth at asiantaethau

45 Mae'r DCU yn gweithredu o fewn awdurdodaeth gyfreithiol Cymru a Lloegr.

46 Achosion blaenoriaeth 3 – Bygythiad neu weithgarwch troseddol sy'n effeithio ar raddfa ranbarthol neu genedlaethol.

47 Y Swyddfa Gartref, canllawiau ar gydgymorth cyfreithiol i awdurdodau y tu allan i'r DU, 2023, sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/ government/publications/mla-guidelines-for-authorities-outside-of-the-uk

perthnasol, yn dddarostyngedig i'r pwerau a roddwyd o dan y Bil Twyll, Gwall ac Adennill Awdurdodau Cyhoeddus (Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus).[48]

# Cyfiawnder

**Mae gweithredwyr llwgr yn cael eu dwyn gerbron llys barn mewn modd cymesur ac amserol (Canlyniad 1.1c)**

43. Mae'r ôl-groniad cynyddol yn y llysoedd wedi arwain at oedi sy'n peri'r risg y bydd dioddefwyr a thystion yn ymddieithrio ac y bydd achosion yn chwalu, a fydd yn tanseilio effaith ataliol y gyfraith. Bydd angen diwygiadau sylfaenol er mwyn cael effaith ar yr ôl-groniad yn y llysoedd. Mae Syr Brian Leveson wedi cyhoeddi'r rhan gyntaf o'i Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol.[49] Bydd y llywodraeth yn ystyried ei gynigion yn ofalus ac yn rhoi ymateb ffurfiol.

44. Mae angen i'r system gyfiawnder weithio'n effeithiol gyda phartneriaid ym maes gorfodi'r gyfraith er mwyn dwyn gweithredwyr llwgr i gyfrif. Nid oes unrhyw drosedd benodol yn ymwneud â llygredigaeth wedi'i nodi yng nghyfraith y DU, sy'n ei gwneud yn anodd i benderfynu'n hawdd ai llygredigaeth yw troseddau ai peidio.[50] Mae troseddau economaidd yn gymhleth ac maent yn aml yn cymryd cryn amser i ddod i dreial oherwydd maint a hyd yr achos. Mae cymryd amser i ddilyn pob llwybr ymholi rhesymol, a chasglu a datgelu tystiolaeth yn briodol, ac mae angen cryn dipyn o amser y llys i wrando achosion lle y rhoddwyd mechnïaeth, sy'n cyfrannu at unrhyw oedi.[51]

45. Yn rhyngwladol, gall amrywiaeth eang o ffactorau danseilio ymdrechion i ddwyn gweithredwyr llwgr i gyfrif, gan gynnwys system farwnol wan neu wedi'i chipio, cyfyngiadau o ran adnoddau mewn systemau gorfodi'r gyfraith a chyfiawnder troseddol, a mynediad annigonol at wybodaeth i fod yn sail i erlyniadau. Bydd y DU yn chwarae rhan weithredol mewn deialogau rhyngwladol sy'n canolbwyntio ar ddwyn gweithredwyr llwgr i gyfrif, gan gynnwys ystyried gwerth Llys Gwrthlygredigaeth Rhyngwladol.

46. Ein huchelgais yw y bydd gweithredwyr llwgr yn cael eu dwyn i gyfrif mewn modd cymesur ac amserol. Byddwn yn llunio gweithgareddau a'u rhoi ar waith dros y pum mlynedd nesaf er mwyn gwireddu'r uchelgais hon, ac rydym wedi cytuno ar yr ymrwymiadau canlynol i ddechrau.

    I. Yn dibynnu ar ymateb y llywodraeth i'r Adolygiad Annibynnol o Ddatgelu a Throseddau Twyll 'Disclosure in the Digital Age', byddwn yn rhoi'r argymhellion y cytunwyd arnynt ar waith, yn amodol ar gyllid, er mwyn sicrhau bod y **gyfundrefn ddatgelu** yn hwyluso yn hytrach nag yn llesteirio cyfiawnder cyflym, gan gynnwys mewn achosion o lygredigaeth (y Swyddfa Gartref, Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol, y Weinyddiaeth Gyfiawnder) (ymrwymiad â blaenoriaeth).

48 Ac eithrio CThEM a'r Adran Gwaith a Phensiynau sy'n gallu defnyddio eu hadnoddau mewnol eu hunain.
49 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, yr Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol, 2024, sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/ guidance/independent-review-of-the-criminal-courts
50 Y prif adnoddau deddfwriaethol i erlyn llygredigaeth yw Deddf Llwgrwobrwyo 2010, Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015, a'r drosedd cyfraith gyffredin: Camymddwyn mewn Swydd Gyhoeddus.
51 Mae achosion troseddau economaidd yn gallu cymryd hyd at 2 i 3 blynedd i'w rhestru ar gyfer gwrandawiad llys. Spotlight on Corruption, Back of the Courtroom Queue, 2024, sydd ar gael yn: https://www.spotlightcorruption.org/wp-content/uploads/2024/12/ SoC_BotCQ_final.pdf

II. Cwmpasu a lansio **adolygiad o’r dechrau i’r diwedd o achosion o lwgrwobrwyo** sydd wedi dod i ben, er mwyn nodi rhwystrau cyffredin i ddatrys achosion, gan gynnwys adolygu gofynion o ran cydsyniad personol (JACU, y Swyddfa Twyll Difrifol).

III. Yn unol ag argymhellion Comisiwn y Gyfraith, byddwn yn bwrw ati (drwy’r Bil Swydd Gyhoeddus (Atebolrwydd) i ddiddymu’r drosedd cyfraith gyffredin bresennol o **Gamymddwyn mewn Swydd Gyhoeddus** ac, yn ei lle, gyflwyno dwy drosedd statudol newydd, sef tor dyletswydd mewn swydd gyhoeddus a gweithredoedd difrifol amhriodol mewn swydd gyhoeddus (y Weinyddiaeth Gyfiawnder)

## Astudiaeth achos: Y Ganolfan Cydgysylltu Atal Llygredigaeth Ryngwladol (IACCC)

Ers 2018, mae’r IACCC wedi cefnogi’r ymchwiliad troseddol i ddwyn dros $4 biliwn oddi wrth gronfa cyfoeth sofran Malaysia. Cafodd yr arian ei wyngalchu drwy nifer o awdurdodaethau gan droseddwyr yn llywodraeth Malaysia ar y pryd, bancio rhyngwladol, a chwmnïau preifat.

Gwnaeth yr IACCC helpu i nodi a rhewi asedau byd-eang gwerth mwy na £300 miliwn, a sicrhau a chydgysylltu’r gwaith o gyflwyno tystiolaeth rhwng gwledydd ar gyfer erlyniadau troseddol. Roedd gweithgareddau cynghorol IACCC hefyd yn cefnogi setliadau sifil a dirwyon rheoleiddio. Roedd y cymorth hefyd yn cynnwys hyfforddiant a gefnogwyd gan y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu a’r Swyddfa Gartref ym Malaysia a’i phartneriaid rhyngwladol, a’r defnydd o ymchwilwyr arbenigol yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol o dimau’r ICU a Gwadu Asedau.

# 1.2: Tarfu ar fynediad

**Rydym yn tarfu ar weithredwyr llwgr, gan gynnwys cleptocratiaid, ac yn eu hatal rhag cael mynediad i gymdeithas neu sefydliadau'r DU neu gamfanteisio arnynt (Canlyniad 1.2)**

47. Mae gwendidau yn ein systemau presennol y mae elitiau llwgr o dramor, gan gynnwys cleptocratiaid, yn camfanteisio arnynt i heintio'r DU, gwyngalchu eu henw da drwy sefydliadau'r DU, ac integreiddio eu cyfoeth a gafwyd drwy ddulliau llwgr â system ariannol y DU. Mae cleptocratiaid yn aml yn gallu cyfreithloni eu llygredigaeth i bob diben drwy eu rôl yn eu gwladwriaeth enedigol, er enghraifft drwy fynediad ffafriol at gontractau'r llywodraeth.

48. Mae presenoldeb cleptocratiaid yn y DU yn cael dylanwad cyrydol ac o ganlyniad mae perygl y bydd yn tanseilio ein polisi tramor, ein nodau datblygu, a'n hygyrchedd fel gweithredwr diogelwch gwladol. Mae pryder mawr ymhlith y cyhoedd ynglŷn ag effaith gweithredwyr llwgr o dramor ar rannau o fywyd y DU, gan gynnwys gwleidyddiaeth y DU, diogelwch gwladol, polisi tramor, a'r farchnad dai.[52]

## Cleptocratiaeth

Cyfundrefn wleidyddol hynod lygredig yw cleptocratiaeth lle mae grym wedi cael ei gydgrynhoi er budd elît bach.

Mae cleptocratiaid yn fath penodol o elît llwgr sy'n tanseilio systemau gwleidyddol domestig i gamfanteisio ar gyfoeth ac adnoddau gwladol a dwyn oddi wrth y trysorlys cyhoeddus. Mae cleptocratiaeth yn 'systemig' yn yr ystyr ei bod yn awgrymu system lle mae dwyn wedi cael ei sefydliadoli ac, yn aml, ei ddiogelu gan swyddogion gorfodi'r gyfraith, y farwrniaeth a'r rhai sy'n rheoli'r cyfryngau.

49. Mae elitiau llwgr yn cael budd o gyfoeth anghyfreithlon sy'n cael ei droi'n ddilysrwydd, ochr yn ochr â dylanwad a diogelwch a roddir drwy rwydwaith o wasanaethau byd-eang.[53] Maent yn camfanteisio ar wahanol sectorau i gelu asedau, rheoli naratifau, neu ennill grym gwleidyddol a chymdeithasol drwy wyngalchu eu henw. Yn hytrach na gweithredu ar eu pennau eu hunain, mae'r unigolion hyn yn dibynnu ar lu o ganolwyr proffesiynol, gan gynnwys rheolwyr enw da. Mae cleptocratiaid yn cadw eu mantais drwy gronni cyfoeth.

---


52 Mae 73% yn pryderu am effaith gweithredwyr llwgr o dramor ar system wleidyddol y DU, mae 68% yn pryderu am yr effaith ar ddiogelwch gwladol y DU, mae 67% yn pryderu am bolisi tramor y DU ac mae 59% yn pryderu am y farchnad dai. Y Swyddfa Gartref, UK public's concerns, perceptions and understanding of corruption, 2025, sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/ government/publications/uk-publics-concerns-perceptions-and-understanding-of-corruption

53 Mae elitiau llwgr yn unigolion pwerus sydd wedi cronni cyfoeth drwy ffyrdd anghyfreithlon neu anfoesegol ac sydd wedi cyfreithloni eu cyfoeth o fewn eu systemau gwladwriaethol llwgr neu dan fygythiad eu hunain, yn aml drwy gamfanteisio ar sefydliadau gwan, mannau llwyd cyfreithiol, neu ddylanwad gwleidyddol.

ynghyd â mynediad strategol a manipiwleiddio sefydliadau sy'n gyfreithiol eu natur, gan droi eu buddiannau preifat yn awdurdod cyhoeddus.[54]

50. Dangoswyd y berthynas rhwng cleptocratiaid a'r gwasanaethau y maent yn eu cael ac yn dibynnu arnynt mewn gwledydd fel y DU yn y ffigur isod gan academyddion o'r DU.[55]

**Ffigur 3:**




54 Nid yw'r sectorau na'r gweithgareddau sy'n agored i wyngalchu arian yr un fath â'r rhai a gamddefnyddwyd gan elitiau llwgr i wyngalchu eu henw yn y DU. Er enghraifft, nid yw cwmnïau cysylltiadau cyhoeddus yn chwarae rôl uniongyrchol mewn symud neu gelu arian anghyfreithlon yn y ffordd ag y gallai 'porthgeidwaid' y system ariannol megis banciau gael eu camddefnyddio i'w wneud. Fodd bynnag, gall y gwasanaethau a ddarperir ganddynt ddwyn risg o hyd pan fyddant yn cyfrannu at ddiogelu neu hyrwyddo enw elît llwgr.

55 Cyfeiriad graffig: Heathershaw, J., Pelec, T. a Mayne, T., Indulging Kleptocracy: British Service Providers, Postcommunist Elites, and the Enabling of Corruption, 2025, sydd ar gael yn: https://global.oup.com/academic/product/indulging-kleptocracy-9780197688229?cc=gb&lang=en&. Atgynhyrchwyd drwy ganiatâd Gwasg Prifysgol Rhydychen. Er mwyn cael caniatâd i ailddefnyddio'r deunydd hwn, ewch i https://global.oup.com/academic/rights

51. Er mwyn tarfu ar fynediad elitiau llwgr at gymdeithas y DU, byddwn yn canolbwyntio ar **ffiniau, sefydliadau,** a **deddfwriaeth**.

# Ffiniau

**Mae elitiau llwgr yn cael eu hatal rhag croesi ffiniau'r DU (Canlyniad 1.2a)**

52. Mae diogelwch y ffiniau yn rhan allweddol o'n pecyn cymorth ar gyfer diogelwch gwladol. Bydd rheolaethau mwy effeithiol ar y ffiniau yn helpu i atal elitiau llwgr rhag cael mynediad i'r DU.

53. Ein huchelgais yw y byddwn yn atal elitiau llwgr rhag croesi ffiniau'r DU. Byddwn yn llunio gweithgareddau a'u rhoi ar waith dros y pum mlynedd nesaf er mwyn gwireddu'r uchelgais hon, ac rydym wedi cytuno ar yr ymrwymiadau canlynol i ddechrau.

I. Datblygu gwell gallu gweithredol i **darfu ar elitiau llwgr a'r rhai sy'n eu galluogi a'u hatal rhag dod i'r DU**, drwy integreiddio a gwella'r ymateb ar y ffin fel ein llinell amddiffyn gyntaf a chynyddu adnoddau timau mewnfudo yn y Swyddfa Gartref (y Swyddfa Gartref) (ymrwymiad â blaenoriaeth).

II. Parhau i **fynd i'r afael â chamddefnyddio preswyliaeth neu ddinasyddiaeth drwy gynlluniau buddsoddi**, a allai gynnwys cyflwyno gofynion fisa pan fo angen, a thrwy waith ymgysylltu rhyngwladol i fyny'r gadwyn i leihau'r risg o gyllid anghyfreithlon (y Swyddfa Gartref).

III. Ystyried **mesurau mewnfudo ychwanegol** i dargedu elitiau llwgr a'r rhai sy'n eu galluogi, ar sail gwarchod diogelwch gwladol a gwrthsefyll llygredigaeth (y Swyddfa Gartref).

# Sefydliadau

**Mae sefydliadau'r DU yn cael eu diogelu rhag cael eu camddefnyddio gan elitiau llwgr (Canlyniad 1.2b)**

54. Mae'r DU yn gartref i sector diwylliannol llewyrchus a sefydliadau sy'n uchel eu parch yn fyd-eang, sy'n eu gwneud yn atyniadol i fuddsoddi a dyngarwch dilys. Fodd bynnag, mae'r sector hefyd yn cael ei dargedu gan elitiau llwgr a chleptocratiaid sy'n ceisio diogelu mynediad a dylanwad yn y DU. Mae pryder ymhlith y cyhoedd ynglŷn ag effaith gweithredwyr llwgr o dramor ar sefydliadau cenedlaethol allweddol, gan gynnwys sefydliadau diwylliannol, sefydliadau addysgol a sefydliadau chwaraeon a digwyddiadau yn y DU.[56]

56 Mae 53% yn pryderu am effaith gweithredwyr llwgr o dramor ar sefydliadau addysgol y DU, mae 52% yn pryderu am eu heffaith ar sefydliadau a digwyddiadau chwaraeon y DU ac mae 42% yn pryderu am eu heffaith ar sefydliadau diwylliannol y DU. Y Swyddfa Gartref, UK public's concerns, perceptions and understanding of corruption, 2025, sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/ uk-publics-concerns-perceptions-and-understanding-of-corruption

55. Gall gweithredwyr llwgr geisio gwyngalchu eu henw drwy roddion i sefydliadau cenedlaethol; rhoddion a all, yn rhannol neu'n llawn, gael eu hariannu drwy gyfoeth o darddiad troseddol.[57] Maent hefyd yn ceisio camfanteisio ar system gyfreithiol y DU er mwyn osgoi craffu dilys ar eu gweithgareddau. Mae angen i'r llywodraeth fynd i'r afael â gwendidau er mwyn diogelu ein sefydliadau rhag elitiau llwgr a chleptocratiaid, a fydd yn y pen draw yn cynnal uniondeb ac atyniad ein sector diwylliannol o'r radd flaenaf a'n sefydliadau cenedlaethol.

## Llygredigaeth mewn chwaraeon: Rheoleiddio pêl-droed

Pêl-droed yw gêm genedlaethol y DU a'r gamp fwyaf poblogaidd ymhlith gwylwyr yn y byd. Yn ystod tymor 2022 i 2023, amcangyfrifodd Adolygiad Blynyddol Deloitte o Gyllid Pêl-droed fod trosiant clybiau'r Uwch Gynghrair dros £6 biliwn. Mae'r ffactorau hyn yn golygu bod pêl-droed a chlybiau pêl-droed yn cynnig cyfle atyniadol i berchnogion a buddsoddwyr dilys.



Fodd bynnag, mae hyn hefyd yn gwneud pêl-droed yn darged atyniadol i weithredwyr milain sy'n ceisio gwyngalchu arian troseddol neu gael enillion anghyfreithlon. Felly, mae'r llywodraeth wedi cynnwys clybiau pêl-droed ac asiantiaid yn Lloegr yn yr Asesiad Risg Cenedlaethol diweddaraf o Wyngalchu Arian a Chyllido Terfysgaeth.[58] Y ddogfen hon yw'r ffordd y mae'r llywodraeth yn cloriannu bygythiadau y mae'r DU yn eu hwynebu o ganlyniad i wyngalchu arian a chyllido terfysgaeth. Mae'n rhoi rhagor o fanylion am y risgiau a'r gwendidau penodol yn sector pêl-droed y DU gyda pherthnasedd trawsbynciol i sectorau sydd o fewn cwmpas y rheoliadau gwyngalchu arian, ac yn helpu sectorau rheoleiddiedig i asesu a rheoli'r risgiau hyn yn unol â hynny.

56. Ein huchelgais yw y bydd sefydliadau'r DU yn cael eu diogelu rhag camfanteisio gan elitiau llwgr. Byddwn yn llunio gweithgareddau a'u rhoi ar waith dros y pum mlynedd nesaf er mwyn gwireddu'r uchelgais hon, ac rydym wedi cytuno ar yr ymrwymiadau canlynol i ddechrau.

    I. Rhoi'r **mesurau SLAPP** yn Neddf Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol 2023 mewn perthynas â throseddau economaidd ar waith (y Weinyddiaeth Gyfiawnder) (ymrwymiad â blaenoriaeth).

57 Gweler Atodiad C i'r Asesiad Risg Cenedlaethol. Elît: rhoddion i sefydliadau diwylliannol (amgueddfeydd), sefydliadau dinesig (prifysgolion), cofrestriadau ysgolion preifat, rhoddion gwleidyddol. Y canlyniad yw cyfreithloni gweithgarwch troseddol a chaniatáu mynediad at elitiau gwleidyddol a diwylliannol o ddomisiliau dewisedig. Trysorlys EF, National risk assessment of money laundering and terrorist financing 2025, sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/national-risk-assessment-of-money-laundering-and-terrorist-financing-2025

58 Trysorlys EF, National risk assessment of money laundering and terrorist financing 2025, sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/national-risk-assessment-of-money-laundering-and-terrorist-financing-2025

II. Ystyried, ar sail y dystiolaeth ehangach sydd ar gael ynglŷn â SLAPPs, sut **i fynd i'r afael â phob SLAPP yn gynhwysfawr yn y dyfodol** (y Weinyddiaeth Gyfiawnder) (ymrwymiad â blaenoriaeth).

III. Annog **sefydliadau cenedlaethol**, gan gynnwys sefydliadau diwylliannol a dinesig, i gryfhau eu gallu i wrthsefyll llygredigaeth a risgiau cyllid anghyfreithlon o roddion gwerthfawr (yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, y Swyddfa Gartref, yr Adran Addysg) (ymrwymiad â blaenoriaeth).

IV. Cefnogi'r **Rheoleiddiwr Pêl-droed Annibynnol** yn y gwaith o gryfhau ei alluoedd ym maes llygredigaeth a chyllid anghyfreithlon, gan gynnwys drwy wella cysylltiadau'r rheoleiddiwr â gorfodi'r gyfraith (yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, JACU) (ymrwymiad â blaenoriaeth).

V. Codi **ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o fygythiad llygredigaeth mewn chwaraeon yn system gorfodi'r gyfraith y DU (JACU).**

VI. Ymgysylltu â chyrff a phroffesiynau ym maes pêl-droed i hyrwyddo **safonau ymddygiad a chydymffurfio uwch** (yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, JACU).

# Deddfwriaeth

**Mae ymateb y DU i droseddau ariannol, gan gynnwys deddfwriaeth, yn barod i ymateb i'r bygythiad sy'n deillio o gleptocratiaeth (Canlyniad 1.2c)**

57. Mae enillion llygredigaeth o fewn cwmpas deddfwriaeth bresennol y DU ar arian troseddol a'r gyfundrefn rheoleiddio atal gwyngalchu arian.[59] Fodd bynnag, nid yw'r ddeddfwriaeth hon wedi'i llunio i atal elitiau llwgr o dramor, sydd wedi cyfreithloni eu cyfoeth dramor ac wedi celu'r ymddygiad troseddol cychwynnol, rhag dod â'u budrelw i'r DU.
Mae Deddf Enillion Troseddau 2002 yn cynnwys troseddau sy'n ymwneud â gwyngalchu arian sy'n cwmpasu amrywiaeth eang o weithgarwch troseddol, gan gefnogi swyddogion gorfodi'r gyfraith i ddwyn y rhai sy'n gwyngalchu arian i gyfrif. Er mai nod y Ddeddf Enillion Troseddau oedd ymdrin ag enillion troseddau, boed hynny yma neu dramor, mae ei gallu i wrthsefyll troseddau difrifol a chyfundrefnol yn gryfach mewn achosion lle ceir tystiolaeth glir a hygyrch; ond mae cleptocratiaid yn gwarchod eu cyfoeth rhag craffu drwy eu gwledydd genedigol i bob diben ac mae hyn yn ei gwneud yn eithriadol o anodd i gyrraedd trothwyon tystiolaethol yn system gyfreithiol y DU. Mae cleptocratiaid rhyngwladol yn gallu dibynnu ar y ffactorau canlynol er eu budd eu hunain:

- mae cyfoeth sy'n deillio o bosibl o droseddau neu lygredigaeth hanesyddol (e.e. yr amgylchedd busnes ôl-Sofietaidd yn y 1990au) wedi cael ei fuddsoddi mewn busnesau dilys
- esboniadau a gefnogir gan wladwriaeth ynglŷn â tharddiad eu cyfoeth os ydynt yn dal i fod yn rhan annatod o'r wladwriaeth honno.
- gwŷr a gwragedd priod a pherthnasau eraill, a all ddal asedau yn eu henw, sy'n meddu ar eu ffrydiau incwm ymddangosiadol ddilys yn eu gwledydd genedigol
- mewn rhai cleptocratiaethau ni chaiff fawr ddim cuddwybodaeth ei rhannu, ac mae'r cyfryngau rhydd yn aml yn cael eu ffrwyno.

59 Deddf Enillion Troseddau 2002, sydd ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2002/29/contents

- bygythiad costau cyfreithiol sylweddol i asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn y DU

58. Er bod cyfreithiau perthnasol yn y DU yn targedu enillion llygredigaeth a throseddau yn fwy cyffredinol, maent yn ddiffygiol o ran atal cleptocratiaid o dramor sy'n smyglo eu cyfoeth i mewn i'r DU dan ochel dilysrwydd o dramor.

59. Ein huchelgais yn y strategaeth yw y bydd ymateb y DU i droseddau ariannol, gan gynnwys deddfwriaeth, yn barod i ymateb i fygythiad cleptocratiaeth. Er mwyn creu ymatebion deddfwriaethol mwy pwrpasol i fynd i'r afael â chleptocratiaeth, a chynnal rheolaeth y gyfraith yn y DU, bydd angen ystyried, asesu, ac ymgynghori'n ofalus. Byddwn hefyd yn ystyried y graddau y mae defnydd y DU o sancsiynau yn mynd i'r afael â'r bygythiad hwn fel rhan o'r adolygiad hwn. Byddwn yn llunio gweithgareddau i wireddu'r uchelgais hon a'u rhoi ar waith dros y pum mlynedd nesaf, ac rydym wedi cytuno ar yr ymrwymiad canlynol i ddechrau.

    I. **Adolygu effeithiolrwydd ymdrechion presennol y DU i wrthsefyll cleptocratiaeth**, gan gynnwys ein hymateb i droseddau ariannol o ddeddfwriaeth i orfodi, a'r defnydd o sancsiynau. Bydd unrhyw argymhellion yn cael eu hystyried drwy'r sianeli priodol (y Swyddfa Gartref, Trysorlys EF, y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu) (ymrwymiad â blaenoriaeth).

## Sancsiynau: Tarfu, atal, dangos

Mae sancsiynau yn adnodd polisi tramor hollbwysig i helpu i fynd i’r afael â llygredigaeth. Ment yn cefnogi amrywiaeth eang o amcanion, gan gynnwys tarfu ar fynediad at asedau a gwasanaethau yn y DU, atal galluogwyr proffesiynol llygredigaeth, a dwyn gweithredwyr llwgr i gyfrif.[60] Ers y strategaeth flaenorol, mae’r DU wedi datblygu ei gallu ei hun i roi sancsiynau, gan gynnwys deddfu i sefydlu’r gyfundrefn Sancsiynau Atal Llygredigaeth Byd-eang thematig yn 2021. Mae hyn yn rhoi pwerau i ‘ddynodi’ unigolion ac endidau sy’n ymwneud â llygredigaeth ddifrifol, gan gynnwys rhewi asedau a gwaharddiadau ar deithio.

Yn ogystal â chynyddu maint ein sancsiyinau, rydym hefyd yn sicrhau eu bod mor effeithiol â phosibl drwy nodi gweithredwyr llwgr sydd â chysylltiad sylweddol yn y DU a thrwy dargedu eu rhwydweithiau ehangach, gan gynnwys y rhai sy’n symud ac yn celu enillion llygredigaeth. Drwy amlygu’r awdurdodaethau a’r dulliau a ddefnyddir (megis aur anghyfreithlon), mae ein sancsiyinau yn ddull atal pwerus ac yn sbardun i gamau gweithredu eraill, gan gynnwys gan sectorau y camfanteisir arnynt. Mae’r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu hefyd yn gweithio mewn partneriaeth agos â gwledydd y mae llygredigaeth yn effeithio arnynt, yn enwedig y rhai yn Ne’r Byd, i ddefnyddio sancsiynau i ategu eu camau gweithredu domestig eu hunain yn erbyn llygredigaeth a dangos cefnogaeth.

Dangoswyd y newid sylweddol hwn pan gyhoeddwyd sancsiynau y llynedd yn erbyn nifer o ‘gleptocratiaid’ drwgenwog a oedd wedi seiffno cyfoeth o Wcráin, Angola a Latfia er eu budd personol eu hunain, a phan rewyd eiddo yn Llundain gwerth £100 miliwn yn ôl yr amcangyfrif.

60 Caiff galluogwyr proffesiynol eu hatal naill ai’n uniongyrchol, drwy ei gwneud yn anghyfreithlon i alluogwyr proffesiynol gefnogi unigolion llwgr a ddynodwyd; drwy ddynodi’r galluogwyr eu hunain; neu, yn fwy cyffredinol, drwy ddangos y bydd galluogwyr proffesiynol yn cael eu dwyn yn atebol, a thrwy hynny gael gwared ar unrhyw gymhelliant i ymddwyn felly ymhlith galluogwyr eraill.

# 1.3: Arian llwgr

**Ni all gweithredwyr llwgr gelu arian anghyfreithlon yn hawdd yn y DU na thramor na chael budd ohono (Canlyniad 1.3)**

60. Mae rôl y DU fel canolfan ariannol fawr, ynghyd â'i sefydlogrwydd economaidd cymharol a'i heconomi agored, yn ei gwneud yn agored i gamfanteisio gan droseddwyr a gweithredwyr llwgr. Mae'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol yn asesu ei bod yn bosibilrwydd realistig y caiff dros £100 biliwn ei wyngalchu bob blwyddyn drwy'r DU neu drwy strwythurau corfforaethol y DU drwy ddefnyddio dulliau gwyngalchu arian soffistigedig.[61]

61. Gall y rhai sydd am wyngalchu arian llwgr hefyd gamfanteisio ar systemau ariannol a ddefnyddir i hwyluso masnach fyd-eang a gweithgarwch economaidd dilys, sy'n achosi risgiau uniongyrchol i ddiogelwch y DU ac sy'n niweidiol i'w henw da. Gall arian llwgr gael ei integreiddio â systemau ariannol a masnach ffurfiol ac anffurfiol gan unigolion, rhwydweithiau, a sefydliadau. Gellir gwneud hyn drwy weithredu ymwybodol a chamfanteisio ar unrhyw wendidau yn y system troseddau gwrtheconomaidd. Gall gwendidau tebyg hefyd gael eu defnyddio i integreiddio mathau eraill o arian parod troseddol â'r system ariannol gyfreithlon. Yn 2025, gwnaeth Ymgyrch Machinize yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol dargedu busnesau sy'n gwneud defnydd dwys o arian parod ledled Lloegr, megis siopau barbwr, siopai fapiau a siopau melysion, mewn ymgais i atal gwyngalchu arian sy'n seiliedig ar arian parod.[62]

61 Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, National Strategic Assessment of Serious and Organised Crime, 2021, sydd ar gael yn: https://www.nationalcrimeagency.gov.uk/who-we-are/publications/533-national-strategic-assessment-of-serious-and-organised-crime-2021/file

62 Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, 'Operation Machinize: Hundreds of barbershops targeted in NCA-coordinated crackdown', 2025, sydd ar gael yn: https://www.nationalcrimeagency.gov.uk/news/operation-machinize-hundreds-of-barbershops-targeted-in-nca-coordinated-crackdown

## Strategaeth Atal Gwyngalchu Arian ac Adennill Asedau newydd i'r DU yn 2026

Mae'r DU yn anelu at fynd i'r afael â gwyngalchu arian ac adennill asedau anghyfreithlon drwy ymrwymiadau yn yr ECP2.

Nod yr ymyriadau hyn yw gwella ein gallu i atal arian brwnt rhag dod yn rhan o'r system ariannol ac maent wedi cefnogi ymdrechion gorfodi'r gyfraith i olrhain ac adennill arian troseddol. Rydym hefyd wedi gwneud newidiadau deddfwriaethol pwysig ac wedi cyflwyno Ardoll Troseddau Economaidd sy'n codi dros £100 miliwn y flwyddyn i roi hwb i allu ac adnodddau ymateb system gyfan y DU i gyllid anghyfreithlon.[63]

Mae rhai mesurau yn ECP2 wedi'u targedu at fynd i'r afael ag arian llwgr. Rydym yn:

- **cyfyngu ar y camddefnydd o strwythurau corfforaethol**, drwy gyflwyno diwygiadau i Dŷ'r Cwmnïau a gwella tryloywder mewn perthynas â chwmnïau a phartneriaethau yn y DU
- cyflwyno **cynnydd o 475** o staff cyfwerth ag amser llawn ym maes arweinyddiaeth ar fygythiadau, cuddwybodaeth a gallu ymchwilio ac erlyn a fydd yn ymroi i fynd i'r afael â gwyngalchu arian ac adennill asedau.
- creu **Cell Gwrthsefyll Cleptocratiaeth** estynedig, a fydd yn defnyddio arbenigedd yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol i dargedu elitiau llwgr, eu harian a'u galluogwyr

Fodd bynnag, mae gwelliannau pellach y bydd angen eu gwneud i'r ffordd y mae'r DU yn mynd i'r afael â bygythiad dynamig a datblygol arian anghyfreithlon, a'i effaith ar fygythiadau megis llygredigaeth. Pan ddaw ECP2 i ben y flwyddyn nesaf, er mwyn sicrhau'r gwelliannau hyn, bydd y DU yn cyhoeddi Strategaeth Atal Gwyngalchu Arian ac Adennill Asedau newydd i'r DU yn 2026.

Gan gydnabod nad yw'r Strategaeth Atal Gwyngalchu ac Adennill Asedau wedi cael ei chyhoeddi eto, rydym wedi ymrwymo i gymryd cyfres o gamau gweithredu ar unwaith yn y strategaeth hon i fynd i'r afael yn benodol â gwyngalchu arian llwgr a sicrhau bod galluoedd gorfodi'r gyfraith hollbwysig yn fwy cynaliadwy.

62. Er mwyn sicrhau na all gweithredwyr llwgr gelu, symud na chael budd o arian anghyfreithlon yn y DU a thramor yn hawdd, byddwn yn canolbwyntio ar **dryloywder perchnogaeth, adenill asedau rhyngwladol**, a **galluogwyr proffesiynol**.

63 Deddf Troseddau Economaidd (Tryloywder a Gorfodi) 2022, a Deddf Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol 2023.

# Tryloywder perchenogaeth

**Mae cyfleoedd i gelu arian llwgr drwy strwythurau perchenogaeth cymhleth yn cael eu lleihau'n sylweddol (Canlyniad 1.3a)**

63. Er mwyn celu eu hunaniaethau a gwyngalchu arian anghyfreithlon, mae gweithredwyr llwgr yn sefydlu strwythurau corfforaethol cymhleth gan ddefnyddio cwmnïau coeg a ffrynt mewn sawl awdurdodaeth, sydd yn aml yn cynnwys ymddiriedolaethau neu drefniadau sy'n debyg i ymddiriedolaeth, y mae'n anodd canfod pwy sy'n berchen arnynt.[64] Mae natur drawsffiniol y gweithgareddau hyn yn ei gwneud yn anodd i awdurdodau gorfodi'r gyfraith ac awdurdodau cymwys i ymchwilio i achosion mawr o lygredigaeth a'u herlyn. Er mwyn tarfu ar strwythurau corfforaethol cymhleth a ddefnyddir at ddibenion anghyfreithlon, mae'n rhaid i awdurdodau gorfodi'r gyfraith ac awdurdodau cymwys gael mynediad amserol at ddata cywir a chynhwysfawr o ran gwybodaeth am berchenogaeth sylfaenol a llesiannol. Mae angen i gofrestrau'r DU ei hun o wybodaeth am berchenogaeth gyfreithiol a llesiannol fod yn rhan o rwydwaith o gofrestrau o ansawdd uchel a gynhelir yn fyd-eang i atal gweithredwyr llwgr rhag camfanteisio ar fylchau.

64. Er mwyn hwyluso hyn, byddwn yn parhau i ddadlau y dylai tryloywder cofrestrau cyhoeddus o berchenogaeth lesiannol ddod yn beth arferol ledled y byd, sy'n cydnabod eu rôl hollbwysig i wrthsefyll llygredigaeth, hyrwyddo amgylchedd busnes tryloyw a theg, ac atgyfnerthu ymddiriedaeth mewn llywodraethu.[65] Byddwn yn helpu awdurdodaethau eraill i gyrraedd y safon hon, gan gynnwys yn Nhiriogaethau Tramor y DU a Thiriogaethau Dibynnol y Goron. Ein huchelgais yw y bydd cyfleoedd i gelu arian llwgr drwy strwythurau perchenogaeth cymhleth yn cael eu lleihau'n sylweddol. Byddwn yn llunio gweithgareddau a'u rhoi ar waith dros y pum mlynedd nesaf er mwyn gwireddu'r uchelgais hon, ac rydym wedi cytuno ar yr ymrwymiadau canlynol i ddechrau.

   I. Parhau i **weithio gyda Thiriogaethau Dibynnol y Goron a'r Tiriogaethau Tramor i wella tryloywder perchenogaeth lesiannol**, gan gynnwys rhoi cofrestrau ar waith sy'n cynnwys mynediad buddiant dilys eang a chynhwysol yn unol â disgwyliadau'r DU, fel cam dros dro i gyflwyno cofrestrau cyhoeddus. Mae'r DU yn disgwyl y bydd hyn yn cael ei gyflawni yn unol â'r ymrwymiadau a wnaed yng Nghyd-gyngor y Gweinidogion ym mis Tachwedd 2024 ar gyfer y Tiriogaethau Tramor a Thiriogaethau Dibynnol y Goron, a bydd y broses weithredu yn cyd-fynd â therfyn amser yr UE, sef Gorffennaf 2026 (y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, JACU) (ymrwymiad â blaenoriaeth).

   II. Bydd yr Hyrwyddwr Gwrthlygredigaeth yn arwain **adolygiad cynhwysfawr seiliedig ar dystiolaeth o berchenogaeth asedau** yn y DU a ran y llywodraeth er mwyn nodi a oes unrhyw wendidau a bylchau, gan weithio gydag asiantaethau gorfodi'r gyfraith ac asiantaethau eraill i ystyried sut i wella'r gallu i ryngweithredu a defnyddio data (y Swyddfa Gartref) (ymrwymiad â blaenoriaeth).

   III. Datblygu **sylfaen dystiolaeth gadarn** ar y defnydd o ddata ar berchenogaeth lesiannol, y tu hwnt i atal gwyngalchu arian a chyllido gwrthderfysgaeth, ar y cyd â

64 Governance and Integrity Anti-Corruption Evidence, Corruption, Shell Companies, and Financial Secrecy: Providing an Evidence Base for Anti-Corruption Policy, 2024, sydd ar gael yn: https://giace.org/resources/corruption-shell-companies-and-financial-secrecy/

65 Tŷ'r Cwmnïau, 'New report estimates value of Companies House data at up to £3 billion per year', 2019, sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/news/new-report-estimates-value-of-companies-house-data-at-up-to-3-billion-per-year

sefydliadau sy’n cynrychioli busnesau, cymdeithas sifil a sefydliadau amlochrog, er mwyn meithrin amgylchedd busnes yr ymddiriedir ynddo, rhoi hwb i hyder buddsoddwyr a sbarduno twf economaidd cynaliadwy (y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, yr Adran Fusnes a Masnach) (ymrwymiad â blaenoriaeth)

IV. Gwella **mynediad asiantaethau gorfodi’r gyfraith ac awdurdodau cymwys perthnasol eraill yn y DU** at wybodaeth am berchenogaeth lesiannol endidau tramor drwy ddatblygu cytundebau ar gyfnewid gwybodaeth am berchenogaeth lesiannol yn amserol ac yn effeithiol rhwng y DU ac awdurdodaethau rhyngwladol allweddol (JACU) (ymrwymiad â blaenoriaeth)

V. Gweithio’n agosach gyda **phartneriaid rhyngwladol** er mwyn cefnogi mynediad ehangach at ddata ar berchenogaeth lesiannol, yn ddelfrydol drwy gofrestrau cyhoeddus o berchenogaeth cwmnïau a chofrestrau canolog o berchenogaeth ymddiriedolaethau, a gwell defnydd o ddata o ansawdd drwy gynyddu’r defnydd o’r Safon Data Perchenogaeth Lesiannol (y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu).

VI. Cynnig cymorth **technegol** sydd wedi’i deilwra ac wedi’i arwain gan arbenigwyr i helpu awdurdodaethau i adeiladau fframweithiau perchenogaeth lesiannol cryfach a lleihau gwendidau sy’n eu gwneud yn agored i arian anghyfreithlon a llygredigaeth (yr Adran Fusnes a Masnach, y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu).

## Tiriogaethau Dibynnol y Goron a Thiriogaethau Tramor – mynediad buddiant dilys

Awdurdodaethau ar wahân, sy’n hunanlywodraethol ar y cyfan, yw Tiriogaethau Dibynnol y Goron a’r Tiriogaethau Tramor. Mae ganddynt eu llywodraethau etholedig eu hunain sy’n gyfrifol am eu materion domestig, gan gynnwys yn y Tiriogaethau hynny sydd â darpariaethau ar gyfer gwasanaethau ariannol, ac am reoleiddio a chofrestru cwmnïau yn eu hawdurdodaethau.

Er bod camau pwysig wedi cael eu cymryd i wella tryloywder perchenogaeth lesiannol yn Nhiriogaethau Dibynnol y Goron a’r Tiriogaethau Tramor, bydd angen ymdrechu o hyd i weld cynnydd ystyrlon ar yr agenda hon. Yn 2023, cyhoeddodd Tiriogaethau Dibynnol y Goron gynlluniau i gyflwyno cofrestr a fyddai’n hygyrch i’r rhai â “buddiant dilys”. Yng Nghyd-gyngor y Gweinidogion rhwng y DU a Thiriogaethau Dibynnol y Goron yn 2024, ymrwymodd Tiriogaethau Dibynnol y Goron i roi mynediad i’w cofrestrau o berchenogaeth lesiannol i’r rhai â buddiant dilys fel gofyniad sylfaenol. Mae’r DU yn disgwyl o hyd y bydd pob un o Diriogaethau Dibynnol y Goron a’r Tiriogaethau Tramor yn cyflwyno cofrestrau sy’n hygyrch i’r cyhoedd yn y pen draw.

Mae’r DU yn disgwyl i Diriogaethau Dibynnol y Goron a’r Tiriogaethau Tramor roi cyfundrefn mynediad â buddiant dilys ar waith sy’n sicrhau mynediad eang at ddata ar berchenogaeth lesiannol. Dylai’r mynediad fod ar gael i amrywiaeth eang o ddefnyddwyr – gan gynnwys newyddiadurwyr, cymdeithas sifil ac academyddion – drwy broses gynhwysol a syml o ddangos buddiant dilys. Mae’n rhaid i fynediad fod yn amserol, cael ei roi am ddim neu am gost a chyfnod rhesymol, a chael ei gefnogi gan broses ddiduedd a thryloyw o wneud penderfyniadau. Dylai preifatrwydd y rhai sy’n gofyn am fynediad gael ei ddiogelu, ac ni ddylai testunau’r data gael eu hysbysu. Mae’n rhaid i wybodaeth ar y gofrestr fod yn gywir a chael ei diweddaru’n rheolaidd, a dylai ei gwneud yn bosibl i ymholi’r data yn effeithiol a chynnal ymchwiliadau rhagweithiol.

# Adennill asedau rhyngwladol

**Mae asedau'n cael eu hadennill a'u defnyddio i leihau niweidiau llygredigaeth dramor (Amcan 1.3b)**

65. Mae adennill asedau yn adnodd hollbwysig i dynnu budrelw oddi wrth weithredwyr llwgr. Rhwng mis Mawrth 2019 a mis Mawrth 2025, mae mwy na £389 miliwn wedi cael ei adennill mewn perthynas â llygredigaeth fawr gan ddefnyddio pwerau adennill asedau o dan Ddeddf Enillion Troseddau 2002.[66] Fodd bynnag, mae'r amgylchedd adennill asedau yn gymhleth. Er mwyn datblygu system fwy effeithlon ac effeithiol, mae angen i ni bennu cyfeiriad clir, yn seiliedig ar eglurder a chydweithio.

66. Ni all rhai gwledydd ymgymryd ag ymchwiliadau amlawdurdodaeth cymhleth sydd eu hangen i olrhain ac adennill asedau a ddygwyd. Drwy ddefnyddio'r IACCC, a sefydliadau eraill, gellir helpu'r gwladwriaethau dan sylw i ymgymryd â gwaith adennill asedau, meithrin gallu a rhoi fframweithiau cyfreithiol effeithiol ar waith.

67. Mae gan y DU hanes cryf o ddychwelyd asedau. Dychwelwyd £221.2 miliwn rhwng 2019 a 2020 a 2023 a 2025, ond rydym yn dal i ganolbwyntio ar wella ein perfformiad ymhellach.[67] Mae achosion o lwgrwobrwyo dramor yn gymhleth yn ôl eu natur, gan ei gwneud yn heriol i adnabod dioddefwyr llwgrwobrwyo dramor a chyfrifo maint eu colledion o ganlyniad i ymddygiad troseddol. Er nad yw'r her hon yn unigryw i'r DU, byddwn yn ceisio parhau i fod yn arweinydd byd-eang o ran mynd i'r afael â llygredigaeth a dychwelyd asedau i'r gwladwriaethau dan sylw.

66 Y Swyddfa Gartref, Ystadegau ar adennill asedau, 2025, sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/collections/asset-recovery-statistics

67 Y Swyddfa Gartref, Ystadegau ar adennill asedau, 2025, sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/collections/asset-recovery-statistics

## Astudiaeth achos: Dychwelyd enillion llygredigaeth i Foldofa




Yn 2021, dychwelodd y DU bron hanner miliwn o bunnau o arian llwgr i lywodraeth Moldofa er mwyn ariannu cymorth cymdeithasol i bobl sy'n agored i niwed.

Cyhuddwyd cyn-Brif Weinidog Moldofa, Vlad Fital, o fod yn rhan o ddwyn dros $1 biliwn (tua £646 miliwn) o system fancio Moldofa. Pan ddaeth y gweithrediadau fforffedu yn erbyn mab Vlad Filat, Luca Filat i ben, adenillodd yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol £466,000.

Dychwelwyd yr arian yn unol â Fframwaith Dychwelyd Asedau Tryloyw ac Atebol y DU.[68] Mae'r Fframwaith yn adeiladu ar yr egwyddorion y cytunwyd arnynt yn y Fforwm Byd-eang ar gyfer Adennill Asedau (GFAR), sy'n cydnabod y dylai'r broses o adennill asedau fod yn dryloyw, yn atebol ac er budd pennaf y wladwriaeth sy'n destun cais a'r wladwriaeth sy'n gwneud cais.[69]

Mae'r DU a Moldofa wedi gweithio mewn partneriaeth i gytuno ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth sy'n sicrhau y caiff yr asedau a ddychwelwyd eu defnyddio mewn prosiectau sydd o fudd i bobl Moldofa.[70] Gwnaeth y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hefyd ddarparu ar gyfer tryloywder ac atebolrwydd drwy benodi sefydliad monitro o gymdeithas sifil.

68. Ein huchelgais yw y bydd asedau yn cael eu hadennill a'u defnyddio i leihau niweidiau llygredigaeth dramor. Byddwn yn llunio gweithgareddau i wireddu ein huchelgais a'u rhoi ar waith dros y pum mlynedd nesaf, ac rydym wedi cytuno ar yr ymrwymiadau canlynol i ddechrau.

I. Rhoi cymorth ychwanegol i'r gwladwriaethau dan sylw o ran **olrhain ac adennill asedau** a ddygwyd (y Swyddfa Gartref, y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol).

II. Parhau i gefnogi gwaith meithrin gallu'r gwladwriaethau dan sylw, er mwyn gwella cynaliadwyedd galluoedd i adennill asedau (y Swyddfa Gartref, y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol).

68 Y Swyddfa Gartref, Framework for transparent and accountable asset return, 2022, sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/ government/publications/framework-for-transparent-and-accountable-asset-return
69 Y Fforwm Byd-eang ar Adennill Asedau, 'GFAR principles for disposition and transfer of confiscated stolen assets in corruption cases', sydd ar gael yn: https://star.worldbank.org/sites/star/files/the-gfar-principles.pdf
70 Y Swyddfa Gartref, y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y DU a Moldofa ar ddychwelyd arian a fforffedwyd gan yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol mewn perthynas â Luca Filat, 2021, sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/return-of-funds-forfeited-by-the-national-crime-agency-luca-filat-agreement-between-uk-and-moldova/mou-between-uk-and-moldova-on-the-return-of-funds-forfeited-by-the-national-crime-agency-in-relation-to-luca-filat#use-of-returned-funds

III. Ystyried sut y gallwn ddefnyddio'r **sector preifat a chymdeithas sifil** ymhellach er mwyn cynyddu'r gallu a'r adnoddau i adennill asedau (y Swyddfa Gartref).

IV. Ystyried polisïau a gweithdrefnau presennol y DU ar gyfer **digolledu dioddefwyr llwgrwobrwyo dramor** a gwneud argymhellion ar gyfer diwygiadau (y Swyddfa Gartref).

V. Cyhoeddi **canllawiau ar y llwybrau digolledu presennol**, a fydd yn esbonio terminoleg a chyfeirio dioddefwyr posibl at yr opsiynau mwyaf priodol (y Swyddfa Gartref).

# Galluogwyr proffesiynol

**Rydym yn tarfu ar alluogwyr proffesiynol sy'n cefnogi gweithredwyr llwgr ac yn eu dwyn i gyfrif (Canlyniad 1.3c)**

69. Mae gweithredwyr llwgr yn aml yn ceisio arbenigwyr i ddiwallu ystod o anghenion, gan gynnwys gwyngalchu arian, cyfreithloni cyfoeth a diogelu enw da. Er bod y mwyafrif llethol o gwmnïau yn gweithredu yn unol â'r gyfraith ac yn cymryd camau yn erbyn troseddoldeb, mae is-set leiafrifol o gwmnïau gwasanaethau ariannol a phroffesiynol, a elwir yn 'alluogwyr proffesiynol', yn chwarae rôl allweddol o ran helpu gweithredwyr llwgr a gweithredwyr milain eraill i ddefnyddio'r gwasanaethau hyn a'i gwneud yn bosibl iddynt gamymddwyn.[71] Mae'r gwasanaethau hyn yn gallu helpu gweithredwyr llwgr i symud cyfoeth yn ddirgel drwy'r system ariannol fyd-eang, creu proffiliau cyhoeddus dilys, ennyn hygrededd a dod yn rhan o gylchoedd elît. Mae gweithredoedd galluogwyr proffesiynol yn achos pryder i'r cyhoedd yn y DU, gyda 70% yn pryderu am y posibilrwydd bod gwasanaethau proffesiynol yn y DU megis cyfreithwyr a chyfrifwyr yn defnyddio strwythurau ariannol i gelu neu drosglwyddo cyfoeth ar ran gweithredwyr llwgr o dramor.[72]

70. Er mwyn ymateb i'r her hon, bydd angen dull gweithredu amlweddog, gan gynnwys goruchwylio proffesiynau sy'n wynebu risg yn gadarn, rhannu gwybodaeth rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat, gweithredoedd tarfu wedi'u targedu, a phwyslais ar foeseg broffesiynol mewn sectorau sy'n agored i risgiau llygredigaeth. Mae camau cadarnhaol wedi cael eu cymryd, ac mae NECC yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol wedi cyhoeddi Strategaeth Galluogwyr Proffesiynol ar gyfer 2024-2026. Mae'r NECC hefyd yn gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys y rhai sy'n goruchwylio ac yn plismona cyrff proffesiynol, i wella prosesau rhannu gwybodaeth a chreu canllaw cynhwysfawr ar alluogwyr proffesiynol, a hefyd adeiladu sylfaen dystiolaeth gadarnach ynglŷn â'u gweithgareddau.[73]

71 Diffinnir galluogwyr proffesiynol fel unigolion neu sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau proffesiynol sy'n galluogi troseddoldeb. Mae eu hymddygiad yn fwriadol, yn ddi-hid, yn amhriodol, yn anonest a/neu'n esgeulus drwy fethiant i gyflawni eu rhwymedigaethau proffesiynol a rheoleiddiol. Diffiniad Llywodraeth y DU, Economic Crime Plan 2, sydd ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/642561b02fa8480013ec0f97/6.8300_HO_Economic_Crime_Plan_2_v6_Web.pdf

72 Y Swyddfa Gartref, UK public's concerns, perceptions and understanding of corruption, 2025, sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/uk-publics-concerns-perceptions-and-understanding-of-corruption

73 Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, Cross-System Professional Enablers Strategy 2024 to 2026, sydd ar gael yn: https://www.nationalcrimeagency.gov.uk/who-we-are/publications/724-cross-system-professional-enablers-strategy/file

## Tasglu ar Foeseg Busnes a'r Proffesiwn Cyfreithiol

Er bod y rhan fwyaf o gwmnïau cyfreithwyr yn cydymffurfio â sancsiynau a gofynion o ran atal gwyngalchu arian, bu pryder cynyddol y gall rhai cwmnïau yn y proffesiwn cyfreithiol gynrychioli cleientiaid sy'n fuddiolwyr cleptocratiaeth, er eu bod yn dal i gydymffurfio'n dechnegol â'r fframweithiau cyfreithiol presennol.

Rhwng 2023 a 2025, sefydlwyd Tasglu ar Foeseg Busnes a'r Proffesiwn Cyfreithiol i adolygu'r rheolau, yr arferion a'r dulliau gweithredu a ddefnyddir gan gyfreithwyr yn y DU ar hyn o bryd i benderfynu pa gleientiaid i'w cynrychioli, yn benodol mewn perthynas â hwyluso llifau ariannol o gleptocratiaeth a llygredigaeth fawr.[74]

Roedd y Tasglu yn cynnwys cyn-uwch-bartneriaid o gwmnïau cyfreithwyr mawr yn Llundain, aelodau o'r Bar, ac ysgolheigion cyfreithiol ochr yn ochr ag academyddion a chymdeithas sifil. Cyhoeddodd y Tasglu ei argymhellion ym mis Ebrill 2025, a oedd yn canolbwyntio ar fesurau y gallai'r proffesiwn cyfreithiol eu rhoi ar waith i ddiogelu ei enw da a dangos ymhellach ymrwymiad i weithredu er budd y cyhoedd. Roedd yr argymhellion yn cynnwys "Prawf Tarddiad Dilys Cyfoeth", sy'n ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau cyfreithwyr arfer eu barn a gofyn am esboniad credadwy am gyfoeth cleient, a gweithdrefnau cadarnach o ran derbyn cleientiaid gyda'r nod o liniaru risgiau o lygredigaeth.

Mae gan foeseg broffesiynol ran allweddol i'w chwarae o ran ymateb i'r her gymhleth sy'n gysylltiedig â galluogwyr proffesiynol llygredigaeth. Yn y dyfodol, bydd angen dulliau gweithredu arloesol o ymdrin â'r broblem hon, fel y rhai a gynigiwyd gan y Tasglu, er mwyn ategu'r rheoliadau.

71. Ein huchelgais yw y byddwn yn sicrhau bod galluogwyr proffesiynol sy'n helpu gweithredwyr llwgr i wyngalchu arian, cyfreithloni cyfoeth a gwarchod eu henw da yn cael eu dwyn i gyfrif. Byddwn yn llunio gweithgareddau a'u rhoi ar waith dros y pum mlynedd nesaf er mwyn gwireddu'r uchelgais hon, ac rydym wedi cytuno ar yr ymrwymiadau canlynol i ddechrau.

    I. Ariannu cydgysylltydd penodol ar gyfer galluogwyr proffesiynol er mwyn cynnig cydgysylltydd ychwanegol ar gyfer ymateb PURSE a hefyd ystyried opsiynau eraill i feithrin y gallu i wella'r **ymateb gweithredol i alluogwyr proffesiynol** (NECC, JACU) (ymrwymiad â blaenoriaeth).

    II. **Cymryd camau i liniaru risgiau yn y sectorau risg uchel a nodir yn yr Asesiad Risg Cenedlaethol.** Bydd hyn yn cynnwys ymgynghori ar ychwanegu gweithgareddau rheoleiddiedig newydd at y rheoliadau gwyngalchu arian dros oes y strategaeth (Trysorlys EF, y Swyddfa Gartref) (ymrwymiad â blaenoriaeth)

74 Ffocws y Tasglu oedd cyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr.

III. Gwella **dealltwriaeth Llywodraeth EF o'r bygythiad** oddi wrth alluogwyr proffesiynol rhyngwladol o ran sbarduno llygredigaeth a chyllido anghyfreithlon, drwy fentrau cydweithredol dadansoddol newydd rhwng Llywodraeth EF a phartneriaid allanol (NECC, y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, OPBAS).

IV. Ehangu'r defnydd o **sancsiynau**, ochr yn ochr â'r adnoddau presennol i orfodi'r gyfraith, er mwyn targedu rhwydweithiau galluogwyr proffesiynol. Cryfhau system sancsiynau'r DU i gyfyngu ymhellach ar allu galluogwyr proffesiynol i symud enillion llygredigaeth (y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, Trysorlys EF).

V. Dwysáu **partneriaeth Llywodraeth EF ag awdurdodaethau** sydd hefyd yn agored i risgiau oddi wrth alluogwyr proffesiynol, gan ganolbwyntio ar annog a chefnogi rhannu gwybodaeth, cryfhau goruchwyliaeth a chefnogi cydweithredu gweithredol (y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, NECC, OPBAS).

VI. Cryfhau **cydweithrediad ac ymwybyddiaeth yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat** ynglŷn â'r bygythiad a'r risgiau a achosir gan alluogwyr proffesiynol llygredigaeth drwy fodel Tasglu Cuddwybodaeth Gwyngalchu Arian ar y cyd NECC a fforymau eraill, yn enwedig drwy'r ffordd y caiff gweithgarwch galluogi ei nodi ac y rhoddir gwybod amdano (y Swyddfa Gartref, Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, NECC, OPBAS).

## Diwygio prosesu goruchwylio atal gwyngalchu arian a chyllido gwrthderfysgaeth

Mae gwaith effeithiol ar oruchwylio prosesau atal gwyngalchu arian a chyllido gwrthderfysgaeth (AML/CTF) cwmnïau rheoleiddiedig yn hanfodol er mwyn diogelu economi a diogelwch gwladol y DU, chwarae rôl allweddol i fynd i'r afael â chyllido anghyfreithlon a chefnogi twf cynaliadwy.

Mae gwasanaethau proffesiynol a gwasanaethau busnes yn un o lwyddiannau'r DU, ac maent yn gallu sbarduno twf, arloesedd a buddsoddiad ar gyfer yr economi ddomestig a'r economi fyd-eang. Ond gall rôl y DU fel canolfan gwasanaethau ariannol o'r radd flaenaf ac enw da gwasanaethau proffesiynol y DU yn rhyngwladol hefyd ddenu gweithgarwch risg uwch a'n gadael yn agored i weithredwyr drwg sydd am gamddefnyddio'r system. Taflodd goresgyniad cyflawn anghyfreithlon Rwsia yn erbyn Wcráin oleuni ar gyrhaeddiad arian brwnt a'r perygl y mae cleptocratiaeth yn ei achosi i ddiogelwch gwladol y DU. Mae ymgais i wahardd llygredigaeth fyd-eang a chadw economi ac enw da'r DU yn rhydd o gyllido anghyfreithlon cyn bwysiced ag erioed.

Er gwaethaf y gwelliannau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys creu'r Swyddfa Goruchwylio Atal Gwyngalchu ar gyfer Cyrff Proffesiynol (OPBAS) yn 2017, mae'r system bresennol o oruchwylio cydymffurfio ag AML/CTF yn ddarniog o hyd, gyda sawl corff proffesiynol yn cymhwyso safonau a dulliau gweithredu gwahanol at y gwaith o oruchwylio AML/CTF gwasanaethau proffesiynol. Mae cymhlethdod ac anghysondeb o'r fath yn creu ansicrwydd i gwmnïau ac yn gwanhau amddiffynfeydd y DU.

Er mwyn ymdrin â hyn, ar 21 Hydref 2025 cyhoeddodd y Llywodraeth y bydd yn rhoi’r cyfrifoldeb am oruchwylio AML/CTF cyfreithwyr, cyfrifwyr, a darparwyr ymddiriedolaethau a gwasanaethau cwmnïau i’r Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Mae’r mwyafrif llethol o gwmnïau gwasanaethau proffesiynol yn cydymffurfio â’r rheoliadau gwyngalchu arian. Fodd bynnag, bydd cydgrynhoi goruchwylio AML/CTF gwasanaethau proffesiynol yn creu cyfundrefn symlach a mwy effeithiol. Bydd yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol yn cael y pwerau a’r adnoddau sydd eu hangen arno i gymryd camau mwy penderfynol yn erbyn methiant i gydymffurfio pan fydd yn codi, a bydd y diwygiad hefyd yn gwella tryloywder a sicrhau bod cyfundrefn y DU yn cyd-fynd yn well â disgwyliadau rhyngwladol. Bydd y gwaith o oruchwylio sectorau eraill sy’n ddarostyngedig i’r rheoliadau gwyngalchu arian yn parhau i gael ei wneud gan y Comisiwn Gamblo, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a CThEF.

Bydd y diwygiad hwn yn disodli’r clytwaith presennol ac yn cyflwyno yn ei le un goruchwyliwr a fydd yn atebol am gwmnïau gwasanaethau proffesiynol, ac a fydd yn cymhwyso safonau cyson, yn cryfhau camau gorfodi, ac yn gwneud penderfyniadau sy’n fwy seiliedig ar risg ac sy’n gymesur. Bydd profiad yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol o oruchwylio cwmnïau gwasanaethau proffesiynol a blaenoriaethu gweithredu ar sail data yn ei waith yn helpu i sicrhau llwyddiant y diwygiad hwn ac yn gwarantu y caiff cwmnïau gwasanaethau proffesiynol ac ariannol eu dwyn i’r un safonau. Bydd yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol hefyd yn gallu cydgysylltu’n agosach ag asiantaethau gorfodi’r gyfraith a bydd prosesau rhannu gwybodaeth ychwanegol yn cynyddu faint o gynlluniau gwyngalchu arian soffistigedig y bydd yn eu canfod ac yn tarfu arnynt.

Bydd y newid hwn yn ddiwygiad strwythurol sylweddol ac, felly, o reidrwydd, bydd yn cymryd nifer o flynyddoedd i’w roi ar waith. Bydd bodloni disgwyliadau goruchwylio clir ar gyfer cwmnïau gwasanaethau proffesiynol yn ystod y cyfnod interim hwn o’r pwys mwyaf a bydd Trysorlys EF ac OPBAS yn parhau i weithio’n agos gyda’r goruchwylwyr presennol wrth iddynt fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth. Bydd cwmnïau yn pontio oddi wrth eu goruchwylwyr presennol i’r Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn camau, gan sicrhau parhad. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd OPBAS yn parhau i weithredu gyda’i phwerau presennol llawn, gan barhau i oruchwylio’r goruchwylwyr presennol ac ymyrryd yn uniongyrchol yn ôl yr angen os tybir bod eu goruchwyliaeth yn annigonol.

Ceir rhagor o fanylion yn yr ymateb i ymgynghoriad 2023 Trysorlys EF, a gyhoeddwyd ar 21 Hydref 2025, ac ymgynghoriad newydd, a gyhoeddwyd ar 6 Tachwedd 2025, sy’n ceisio barn ar y pwerau y bydd eu hangen ar yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol er mwyn iddo fod yn effeithiol yn ei rôl estynedig.[75,76]

75 Trysorlys EF, Reforming anti-money laundering and counter-terrorism financing supervision, 2025, sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/consultations/reforming-anti-money-laundering-and-counter-terrorism-financing-supervision

76 Trysorlys EF, Anti-money laundering and counter-terrorism financing supervision reform: duties, powers and accountability consultation, 2025, sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/consultations/ anti-money-laundering-and-counter-terrorist-financing-supervision-reform-duties-powers-and-accountability-consultation

# Piler 2:

# Mynd i'r afael â gwendidau'r DU



# Piler 2: Mynd i'r afael â gwendidau'r DU

**Mynd i'r afael â gwendidau yn y DU sy'n ei gwneud yn agored i lygredigaeth (Amcan 2)**

72. Nod ail biler y strategaeth yw ceisio mynd i'r afael â gwendidau yn y DU sy'n ei gwneud yn agored i lygredigaeth a chamfanteisio gan weithredwyr llwgr. Er mwyn gwneud hyn, byddwn ein hymateb yn canolbwyntio ar **wleidyddiaeth a llywodraeth**, **swyddogion cyhoeddus**, ac **uniondeb busnesau**.

# 2.1 : Gwleidyddiaeth a llywodraeth

**Ailennyn ymdddiriedaeth drwy safonau uchel a diogelu rhag camfanteisio gan weithredwyr llwgr (Canlyniad 2.1)**

73. Fel y nododd y Prif Weinidog yng Nghod y Gweinidogion, ailennyn ymddiriedaeth mewn gwleidyddiaeth yw prawf mawr ein hoes. Mae'r ymddiriedaeth honno wedi cael ei gwanhau yn ystod y blynyddoedd diwethaf oherwydd sgandalau sydd wedi erydu'r safonau uchel rydym yn eu disgwyl gan y rhai mewn bywyd cyhoeddus, a hynny'n gwbl gyfiawn.

74. Er mwyn ailennyn ymddiriedaeth rhwng y cyhoedd a gwleidyddiaeth, mae'r llywodraeth yn ymrwymedig i atgyfnerthu'r safonau a'r systemau sy'n eu cefnogi, drwy roi moeseg ac uniondeb wrth wraidd y ffordd y mae'n ymdrin â gwasanaeth cyhoeddus. Mae llywodraeth y mae'r cyhoedd yn ymddiried ynddi mewn gwell sefyllfa i gyflawni'r hyn sy'n bwysig: gwasanaethau cyhoeddus effeithiol, a chreu sylfaen sefydlog ar gyfer twf, sy'n rhoi'r sicrwydd i fusnesau yn y sector preifat sydd ei angen arnynt i fuddsoddi a thyfu yn y DU.

75. Er mwyn ailennyn ymdddiriedaeth yn llwyddiannus drwy safonau uchel a diogelu rhag camfanteisio gan weithredwyr llwgr, byddwn yn canolbwyntio ar **safonau mewn bywyd cyhoeddus a rhoddion gwleidyddol**, gan gwmpasu sut y gellir ailgadarnhau'r gyfres bresennol o fframweithiau a safonau atal llygredigaeth, a'u cryfhau lle y bo angen.

## Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus[77]

Mae Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus yn amlinellu'r safonau moesegol y disgwylir i'r rhai sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus eu dilyn.  Fe'u sefydlwyd yn gyntaf 30 mlynedd yn ôl gan yr Arglwydd Nolan yn 1995 ac maent wedi'u cynnwys mewn nifer o godau ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus.

Y saith egwyddor yw: anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth.

77 Llywodraeth EF, The Seven Principles of Public Life, 1995, sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/ the-7-principles-of-public-life/the-7-principles-of-public-life--2

# Safonau mewn bywyd cyhoeddus

**Mae safonau uchel mewn bywyd cyhoeddus yn cael eu hadfer (Canlyniad 2.1a)**

76. Mae’n rhaid bod y cyhoedd yn gallu ymddiried yn y rhai mewn bywyd cyhoeddus i ddangos safonau uchel o ran uniondeb. Mae hyn yn arbennig o wir am lywodraeth ganolog, oherwydd y Prif Weinidog sy’n gyfrifol am safonau, gyda chymorth Swyddfa’r Cabinet ond gydag ymwneud y llywodraeth gyfan. Mae sylfaen greiddiol y fframweithiau sy’n bodoli i gynnal y safonau hyn yn cwmpasu amrywiaeth o gyfreithiau, rheoliadau, codau ymddygiad proffesiynol cyfrwymol, canllawiau a chonfensiynau cyfansoddiadol. Yr hyn sy’n gyffredin i bob un ohonynt yw’r un egwyddorion craidd, yn enwedig Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus. Mae’r llywodraeth hon o’r farn bod y Saith Egwyddor yn hanfodol i bopeth a wnawn, wrth i ni ddychwelyd Prydain i wasanaethu pobl weithiol.

77. Mae’r system hon o fframweithiau ar wahân i’r rhai sy’n bodoli i wrthsefyll llygredigaeth droseddol, ond mae safonau uniondeb yn aml yn dylanwadu ar ganfyddiadau’r cyhoedd ynglŷn â lefelau llygredigaeth. Os na chaiff safonau eu dillyn, gall y canfyddiad bod llygredigaeth yn beth cyffredin gynyddu, gan erydu ymddiriedaeth y cyhoedd, p’un a yw llygredigaeth yn digwydd ai peidio. Mae llawer o’r fframweithiau presennol yn effeithiol ac yn sylfaenol i’n cyfansoddiad sy’n seiliedig ar gynsail. Mae’r llywodraeth yn ceisio ailgadarnhau’r fframweithiau hyn mewn ffordd bragmatig yn hytrach na’u hail-greu, fel rhan o ymgais ehangach i ail-lunio’r wladwriaeth, sy’n rhoi budd y cyhoedd wrth wraidd popeth a wnawn. Mae hynny’n cynnwys sicrhau bod y wladwriaeth yn canolbwyntio ar gyflawni’r Cynllun Newid yn effeithiol.

## Safonau mewn bywyd cyhoeddus: Newidiadau ers Gorffennaf 2024



Ers dod i rym, mae'r llywodraeth bresennol wedi cyflwyno'r mesurau canlynol i wella safonau mewn bywyd cyhoeddus.

- Wedi cyhoeddi Cod cryfach, newydd i Weinidogion er mwyn ystyried Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus yn llawn.
- Wedi galluogi'r Cynghorydd Annibynnol ar Safonau Gweinidogol i roi cychwyn ar ymchwiliadau heb fod angen cydsyniad Prif Weinidog y DU.
- Wedi cryfhau arweiniad i weinidogion ar roddion a lletygarwch, gan gynnwys cyflwyno cofrestr ganolog newydd o Roddion a Lletygarwch Gweinidogion, a gyhoeddir bob mis er mwyn rhoi mwy o dryloywder.
- Wedi cyhoeddi Cod Llywodraethu newydd ar Benodiadau Cyhoeddus.

Mae'r llywodraeth hefyd wedi ceisio gwella safonau yn Senedd y DU. Yn Nhŷ'r Cyffredin, derbyniodd y Tŷ gynnig y llywodraeth i ddileu esemptiadau penodol ar ddarparu cyngor seneddol â thâl, ac mae Pwyllgor Safonau Tŷ'r Cyffredin yn cynnal ymchwiliad i gryfhau'r rheolau ynglŷn â buddiannau allanol ASau ymhellach.[78]

78. Mae'r llywodraeth hefyd wedi ystyried yn ofalus gyfres o ddiwygiadau pellach i gryfhau safonau ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus. Wedyn, cyhoeddodd y llywodraeth ym mis Gorffennaf 2025 y byddai'n sefydlu Comisiwn Moeseg ac Uniondeb i gryfhau gonestrwydd mewn bywyd cyhoeddus, gan gyflawni ymrwymiad allweddol yn ei maniffestro, drwy gryfhau a diwygio'r Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus.[79] Cyhoeddodd y llywodraeth hefyd y byddai'n gwneud newidiadau i sicrhau bod taliadau diswyddo i weinidogion yn gymesur ac yn deg, ac yn cryfhau'r system Penodiadau Busnes drwy gau'r Pwyllgor Cynghori ar Benodiadau Busnes a throsglwyddo ei swyddogaethau i gyrff eraill, a chyflwyno sancsiynau newydd am dorri'r rheolau.

79. Ein huchelgais yw y bydd safonau uchel mewn bywyd cyhoeddus yn cael eu hadfer. Byddwn yn llunio camau gweithredu i wireddu'r uchelgais hon ac yn eu cymryd dros y pum mlynedd nesaf, ac rydym wedi cytuno ar yr ymrwymiadau canlynol i ddechrau. Mae'r llywodraeth wedi dechrau gwaith i gyflawni'r ymrwymiadau hyn yn ddiweddar.[80]

    I. **Sefydlu Comisiwn Moeseg ac Uniondeb** i gryfhau gonestrwydd mewn bywyd cyhoeddus drwy gryfhau a diwygio'r Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus,

78 Senedd y DU, Transparency and Accountability, 2024, sydd ar gael yn: https://questions-statements.parliament.uk/written-statements/detail/2024-11-06/hcws198

79 Swyddfa'r Cabinet, Ethics and Integrity Commission to drive up standards across the public sector, 2025, https://www.gov.uk/government/news/ethics-and-integrity-commission-to-drive-up-standards-across-the-public-sector

80 Llywodraeth y DU, Government of service, 2025, https://questions-statements.parliament.uk/written-statements/detail/2025-07-21/hcws870

gan greu corff awdurdodol sydd â mandad i wella safonau moesegol ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus (Swyddfa'r Cabinet) (ymrwymiad â blaenoriaeth – a gyflawnwyd ym mis Hydref 2025).

II. **Rhoi'r Bil Swydd Gyhoeddus (Atebolrwydd) ar waith** er mwyn sicrhau tryloywder a bod yn agored ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus, gan gynnwys ei rwymedigaeth arfaethedig y dylai pob corff cyhoeddus lunio cod ymddygiad moesegol, a gefnogir gan y Comisiwn Moeseg ac Uniondeb fel Canolfan Ragoriaeth ar godau ymddygiad y sector cyhoeddus (Swyddfa'r Cabinet) (ymrwymiad â blaenoriaeth).

III. **Cryfhau'r system Penodiadau Busnes** drwy gau'r Pwyllgor Cynghori ar Benodiadau Busnes a symud ei swyddogaethau i gyrff eraill, gan symleiddio'r system a gwella cydymffurfiaeth drwy gyflwyno sancsiynau newydd am dorri'r rheolau (Swyddfa'r Cabinet) (ymrwymiad â blaenoriaeth – a gyflawnwyd ym mis Hydref 2025).

IV. **Diwygio taliadau diswyddo i weinidogion** drwy gyflwyno gofyniad gwasanaeth sylfaenol newydd o chwe mis i weinidogion cyn eu bod yn cael taliadau diswyddo, gyda'r eithriad y bydd gweinidogion yn ymatal â derbyn taliadau os byddant yn gadael eu swydd ar ôl achos difrifol o dorri Cod y Gweinidogion (Swyddfa'r Cabinet) (a gyflawnwyd ym mis Hydref 2025).

V. Ystyried argymhellion adroddiad y Pwyllgor Safonau ar fuddiannau allanol ASau (Swyddfa'r Cabinet).

VI. **Parhau i adolygu tryloywder lobïo**, gan ystyried argymhellion adroddiad y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol wrth i unrhyw ddiwygiadau polisi gael eu hystyried (Swyddfa'r Cabinet).

# Rhoddion gwleidyddol

**Mae mesurau yn diogelu rhag gweithredwyr llwgr ac yn eu hatal rhag camfanteisio ar fframwaith cyllido gwleidyddol y DU (Canlyniad 2.1b)**

80. Mae diffyg tryloywder ynglŷn â ffynonellau o gyllid ar gyfer rhoddion gwleidyddol yn risg allweddol y gall gweithredwyr llwgr gamfanteisio arni. Mae peryglu iechyd ein democratiaeth a'n diogelwch gwladol wrth i weithredwyr llwgr o wladwriaethau tramor geisio dylanwadu ar bolisïau'r DU er eu budd eu hunain ac i danseilio buddiannau'r DU. Yn benodol, gall rhoddion anghyfreithlon o dramor gael ei sianelu drwy roddwyr cyfreithlon, megis unigolion, cwmnïau a chymdeithasau anghorfforedig y gellir eu defnyddio fel rhoddwyr procsi.

81. Mae'r gwendidau hyn a'r cynigion ar gyfer diwygiadau wedi cael eu nodi gan amrywiaeth eang o gyrff a sefydliadau, gan gynnwys y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus a'r Comisiwn Etholiadol.[81,82] Mae'r llywodraeth yn cydnabod bod risgiau y mae angen ymdrin â nhw a thrwy Strategaeth y Llywodraeth ar gyfer Etholiadau, bydd y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn cyflwyno cynigion deddfwriaethol i gynnig mesurau

81 Y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, Regulating Election Finance – A Review by the Committee on Standards in Public Life, 2021, sydd ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/999636/CSPL_Regulating_Election_Finance_Review_Final_Web.pdf

82 Y Comisiwn Etholiadol, Tystysgrif Ysgrifenedig gan y Comisiwn Etholiadol, sydd ar gael yn: https://committees.parliament.uk/writtenevidence/128808/pdf/

ychwanegol i ddiogelu rhag rhoddion anghyfreithlon o dramor a'u hatal rhag dod yn rhan o wleidyddiaeth y DU.

82. Ein huchelgais yw y bydd mesurau yn diogelu rhag gweithredwyr llwgr a'u hatal rhag camfanteisio ar fframwaith cyllido gwleidyddol y DU. Byddwn yn llunio camau gweithredu i wireddu'r uchelgais hon ac yn eu cymryd dros y pum mlynedd nesaf, ac rydym wedi cytuno ar yr ymrwymiadau canlynol i ddechrau.

I. Cryfhau'r rheolau ynglŷn â **rhoddion gwleidyddol** gan gwmnïau (y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (ymrwymiad â blaenoriaeth).

II. Bydd yn rhaid i bob rhoddwr wneud datganiad ynghylch unrhyw ffynonellau cysylltiedig o arian er mwyn **atal rhoddion procsi** (y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol) (ymrwymiad â blaenoriaeth).

III. Cyflwyno gofynion newydd ar y rhai sy'n cael rhoddion gwleidyddol i gynnal asesiadau risg, a bydd y Comisiwn Etholiadol yn paratoi canllawiau ar ddiwydrwydd dyladwy **ychwanegol** (y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol).

IV. Cynyddu gofynion adrodd i **gymdeithasau anghorfforedig** er mwyn gwella tryloywder ynglŷn â'u cyllid (y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol).

V. Rhoi'r cyfrifoldeb am orfodi **troseddau cyllid etholiadol** gan ymgeiswyr a thrydydd partïon lleol i'r Comisiwn Etholiadol yn hytrach na swyddogion yr heddlu nad ydynt yn arbenigwyr (y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol).

VI. Cynyddu pwerau'r Comisiwn Etholiadol i roi'r dirwyon mwyaf a ganiateir (y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol).

# 2.2 : Y sector cyhoeddus

**Mae cyrff y sector cyhoeddus yn y DU yn atal llygredigaeth yn effeithiol (Canlyniad 2.2)**

83. Mae'r sector cyhoeddus yn agored i gamfanteisio gan weithredwyr llwgr o ystyried ei faint sylweddol a'i gyrhaeddiad yn y DU. Mae chwe miliwn o gyflogeion yn rheoli dros £1 triliwn o arian cyhoeddus, gan ddarparu gwasanaethau hanfodol sy'n allweddol i ddiogelwch, twf a llesiant y wlad.[83,84] Ymhlith y cyhoedd ym Mhrydain, mae 86% yn pryderu am y posibilrwydd o lygredigaeth mewn o leiaf un categori o swyddogion cyhoeddus, gyda phryder arbennig am swyddogion yr heddlu, swyddogion carchardai, a chyflogeion llywodraeth leol.[85]

84. Mae'r mwyafrif llethol o swyddogion sector cyhoeddus y DU yn gweithio er budd y cyhoedd. Fodd bynnag, gall gweithredwyr llwgr gamfanteisio ar wendidau mewn meysydd fel rheoli ffiniau, cadw mudwyr dan orchymyn, gorfodi'r gyfraith, a charchardai. Gall hyn fod yn niweidiol i uniondeb y sefydliadau ac i unigolion a gall fod yn fanteisiol i droseddwyr cyfundrefnol, terfysgwyr, a gwladwriaethau tramor. Mae penderfyniadau ynglŷn â sut y caiff arian cyhoeddus ei wario, neu sut y caiff gwasanaethau eu darparu, hefyd yn agored i unigolion llwgr. Os gwelir bod swyddogion cyhoeddus yn gweithredu mewn ffordd lwgr, gall hyn beri i'r cyhoedd golli ymddiriedaeth mewn sefydliadau lleol a chenedlaethol.[86,87] Gall llygredigaeth yn y sector amddiffyn a diogelwch wanhau diogelwch gwladol, gan leihau gallu'r llywodraeth i ymateb i fygythiadau domestig a rhyngwladol. Rydym am gymryd camau pellach i gryfhau ein gallu i wrthsefyll llygredigaeth yn y sector cyhoeddus.

85. Er mwyn llwyddo i atal llygredigaeth yn fwy effeithiol o fewn cyrff sector cyhoeddus y DU, byddwn yn canolbwyntio ar **lywodraeth leol, unigolion llwgr o'r tu mewn, caffael a galluogrwydd a gwybodaeth**.

83 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Public sector employment, UK: June 2024, sydd ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/publicsectorpersonnel/bulletins/publicsectoremployment/june2024

84 Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidol, A brief guide to the public finances, sydd ar gael yn: https://obr.uk/forecasts-in-depth/brief-guides-and-explainers/public-finances/

85 Y Swyddfa Gartref, UK public's concerns, perceptions and understanding of corruption, 2025, sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/uk-publics-concerns-perceptions-and-understanding-of-corruption

86 Y Sefydliad er Llywodraeth, 'Rebuilding trust in public life', 2024, sydd ar gael yn: https://obr.uk/forecasts-in-depth/ brief-guides-and-explainers/public-finances/

87 Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, Trust in government, 2024, sydd ar gael yn: https://www.oecd.org/en/topics/sub-issues/trust-in-government.html#:~:text=For%20a%20thriving%20democracy%20and,trust%20in%20our%20public%20institutions

# Llywodraeth leol

**Mae risgiau o lygredigaeth mewn llywodraeth leol yn cael eu nodi ac ymdrinnir â nhw (Canlyniad 2.2a)**

86. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn rhyngweithio â'r sector cyhoeddus drwy lywodraeth leol a llywodraeth ranbarthol, sy'n cyflogi dros filiwn o bobl yn Lloegr yn darparu mwy nag 800 o wasanaethau.88 Mae cynghorwyr a swyddogion llywodraeth leol yn cyflawni rôl hollbwysig, ac mae'r mwyafrif llethol o bobl yn gweithio'n galed ac maent yn ymrwymedig i les y cyhoedd. Disgwylir i swyddogion a chynghorwyr llywodraeth leol gyrraedd safonau o ran uniondeb, atebolrwydd, ac ymddygiad mewn swydd gyhoeddus eisoes, er mwyn atal camymddwyn a lleihau'r risg o lygredigaeth. Er bod achosion yn brin, gall unrhyw achos o lygredigaeth erydu ymddiriedaeth y cyhoedd.

87. Os ymdrinnir ag achosion o wrthdaro buddiannau, rhoddion, a phenodiadau busnes mewn ffordd anghyson, ynghyd ag erydu archwiliadau awdurdodau lleol, gall hyn greu amgylchedd sy'n cynyddu'r risg o lygredigaeth.[89,90,91]Mae'r DU yn ymrwymedig i gynnal safonau cadarn o ran uniondeb a goruchwyliaeth mewn llywodraeth genedlaethol a lleol.[92] Mae'r strategaeth hon yn gyfle i ailgadarnhau'r ymrwymiadau hyn a blaenoriaethu'r camau effeithiol i liniaru risgiau lleol o lygredigaeth yn ymateb gwrthlygredigaeth y DU yn y dyfodol.

88 Y Gymdeithas Llywodraeth Leol, Local government workforce summary data, 2025, sydd ar gael: https://www.local.gov.uk/our-support/workforce-and-hr-support/local-government-workforce-data/local-government-workforce a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol, The local government workforce, sydd ar gael yn: https://www.local.gov.uk/our-support/online-and-hybrid-meetings/councillor-hub/introduction-local-government/local

89 Y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, Local Government Ethical Standards, 2019, sydd ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5c5c3f68e5274a3184bac66f/6.4896_CO_CSPL_Command_Paper_on_Local_Government_Standards_v4_WEB.PDF and Committee of Public Accounts, Tackling fraud and corruption against government, 2023, sydd ar gael yn: https://publications.parliament.uk/pa/cm5803/cmselect/cmpubacc/1230/report.html

90 Yn 2023, dim ond 1% o archwiliadau lleol a gwblhawyd yn brydlon. Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, Significant measures to tackle worsening backlog in local audit, 2024, sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/news/significant-measures-to-tackle-worsening-backlog-in-local-audit#:~:text=It%20comes%20after%20only%201,undermine%20local%20accountability%20and%20governance

91 Transparency International UK, Ensuring integrity in local planning across London, sydd ar gael: https://www.transparency.org.uk/publications/ensuring-integrity-local-planning-across-london a'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, Review into the risks of fraud and corruption in local government procurement, 2020, sydd ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/ media/5ede321ce90e073a07056d08/Fraud_and_corruption_risks_in_local_government_procurement_FINAL.pdf

92 Mae'r DU yn barti gwladwriaethol yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Llygredigaeth (UNCAC) ac yn aelod o Grŵp y Gwladwriaethau yn erbyn Llygredigaeth (GRECO), y mae'r naill a'r llall yn anelu at gynnal safonau uchel o ran uniondeb mewn bywyd cyhoeddus ac atal llygredigaeth ar bobl lefel o'r llywodraeth.

## Astudiaeth achos: Llwgrwobrwyo a llygredigaeth yng Nghyngor Dinas Caerdydd



Ym mis Tachwedd 2023, dedfrydwyd pum dyn am eu hymwneud â llwgrwobrwyo a llygredigaeth mewn perthynas â chontractau gwaredu gwastraff, a olygai fod Cyngor Dinas Caerdydd wedi colli dros £400,000.

Talodd Warren Roberts lwgrwobrwyon i staff Cyngor Caerdydd i newid cofnodion gwaredu gwastraff. Datgelwyd y llygredigaeth hon ar ôl i chwythwr chwiban roi gwybod am y gweithgareddau, a arweiniodd at ymchwiliad gan Heddlu De Cymru. Collodd Cyngor Caerdydd tua £417,000 mewn ffioedd tipio oherwydd llwgrwobrwyo. Talwyd tua £175,000 o lwgrwobrwyon i staff y cyngor. Cafodd y dynion eu dedfrydu i'r carchar am gyfnodau a oedd yn amrywio o 18 i 28 mis.[93]

88. Ein huchelgais yw y bydd y risgiau o lygredigaeth mewn llywodraeth leol yn cael eu nodi ac yr ymdrinnir â nhw. Byddwn yn llunio gweithgareddau a'u rhoi ar waith dros y pum mlynedd nesaf er mwyn gwireddu'r uchelgais hon, ac rydym wedi cytuno ar yr ymrwymiadau canlynol i ddechrau.

I. Sefydlu **Swyddfa Archwilio Leol annibynnol** a statudol newydd yn Lloegr i wella tryloywder a phrosesau rheoli ansawdd yn y system archwilio, gan gyfrannu at fwy o atebolrwydd a chryfhau trefniadau craffu mewn perthynas â chamddefnyddio arian cyhoeddus (Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol) (ymrwymiad â blaenoriaeth).

II. Yn ddarostyngedig i gytundeb ar wahân, yn Lloegr cyflwyno **Cod Ymddygiad gorfodol newydd** i swyddogion llywodraeth leol etholedig drwy ddeddfwriaeth, gan gynnwys sancsiynau cadarn am dorri rheolau ac ystyried pwerau ychwanegol i gryfhau'r Cod er mwyn cynnal safonau o ran uniondeb mewn llywodraeth leol (y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol) (ymrwymiad â blaenoriaeth).

III. Yn ddarostyngedig i gytundeb ar wahân, ystyried sefydlu **trefniadau goruchwylio annibynnol** i Loegr ar safonau llywodraeth leol er mwyn rhoi sicrwydd ynglŷn â phrosesau apelio (y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol).

# Bygythiad gan unigolion o'r tu mewn

**Mae unigolion llwgr o'r tu mewn yn cael eu hadnabod yn effeithiol a'u hatal rhag gweithio mewn cyrff risg uchel yn y sector cyhoeddus (Canlyniad 2.2b)**

89. Gall unigolion o'r tu mewn yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat ei gwneud yn bosibl i grwpiau troseddau cyfundrefnol gyflawni troseddau. Er mai ychydig ohonynt sydd, gall eu

93 Heddlu De Cymru, 'Pum dyn wedi eu cyhuddo o lwgrwobrwyo wedi cael gorchymyn i ad-dalu mwy na £365,000 i Gyngor Caerdydd', 2024, sydd ar gael yn: https://www.south-wales.police.uk/cy-GB/news/south-wales/newyddion/2024/hydref/pum-dyn-wedi-eu-cyhuddo-o-lwgrwobrwyo-wedi-cael-gorchymyn-i-ad-dalu-mwy-na-365000-i-gyngor-caerdydd/

heffaith fod yn sylweddol, gan danseilio ymddiriedaeth y cyhoedd yn uniondeb gwasanaethau rheng flaen.[94] Mae gwasanaethau sy'n allweddol i ddiogelwch gwladol fel ffiniau, cadw mudwyr dan orchymyn, carchardai, treth, yr heddlu a'r sector amddiffyn wedi datblygu strategaethau i fynd i'r afael â llygredigaeth, ond mae angen i ni fynd ymhellach a gwella prosesau fetio a rhannu gwybodaeth i atal unigolion llwgr o'r tu mewn rhag symud rhwng sectorau heb eu canfod.

## Astudiaeth achos: Unigolyn llwgr y tu mewn i lu ffiniau'r DU



Ym mis Mehefin 2024, cafodd Keven Smith, swyddog yn Llu'r Ffiniau, ei garcharu am ddwy flynedd am ganiatáu i gar a oedd cludo 15kg o ectasi drwy ei fan archwilio ym Mhorthladd Portsmouth ym mis Awst 2023.

Roedd yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol wedi rhoi Smith o dan wyliadwriaeth ar ôl amau rhywun o'r tu mewn. Dangosodd fideo teledu cylch cyfyng Smith yn cyfarfod ag arweinydd gang cyffuriau David Johnson yn Portsmouth cyn yr ymgais i smyglo. Cafodd y cyffuriau, gwerth £400,000 eu rhyngipio gan yr heddlu ar y ffordd i Lundain. Gwnaeth Keven Smith ddatblygu perthynas â David Johnson pan oedd wedi'i gyflogi'n Swyddog Carchar, pan oedd Johnson yn bwrw dedfryd am fewnforio cyffuriau. Parhaodd y berthynas lwgr pan drosglwyddodd Smith o'r Gwasanaeth Carchardai i Lu'r Ffiniau.

Pwysleisiodd yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol pa mor brin oedd llygredigaeth o'r fath ond ei fod yn fygythiad sylweddol, gan nodi bod unigolion fel Smith yn amhrisiadwy i grwpiau troseddau cyfundrefnol oherwydd eu mynediad a'u gwybodaeth.[95]

90. Ein huchelgais yw y bydd unigolion llwgr o'r tu mewn yn cael eu hadnabod yn effeithiol a'u hatal rhag gweithio mewn cyrff risg uchel yn y sector cyhoeddus. Byddwn yn llunio gweithgareddau a'u rhoi ar waith dros y pum mlynedd nesaf er mwyn gwireddu'r uchelgais hon, ac rydym wedi cytuno ar yr ymrwymiadau canlynol i ddechrau.

    I. Cefnogi **sefydlu adnodd sgrinio uniondeb cenedlaethol** ar gyfer yr heddlu er mwyn gwella ymddiriedaeth y cyhoedd a hyder, a lleihau niwed i'n cymunedau, a hefyd ystyried ei botensial i gryfhau sicrwydd y gweithlu yn y sector cyhoeddus ehangach (y Swyddfa Gartref, Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu) (ymrwymiad â blaenoriaeth).

94 POST, Public trust and confidence in the police, 2024, sydd ar gael yn: https://post.parliament.uk/public-trust-and-confidence-in-the-police

95 BBC News, 'Corrupt Portsmouth border officer jailed for aiding drugs gang', 2024, sydd ar gael yn: https://www.bbc.co.uk/news/articles/ck77vzz2lxxo#:~:text=A%20corrupt%20Border%20Force%20officer,Hampshire%20on%2026%20August%202023

II. Treialu dichonoldeb defnyddio data yng **Nghronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu** mewn Fetio Diogelwch Gwladol (Swyddfa'r Cabinet, Fetio Diogelwch y DU) (ymrwymiad â blaenoriaeth).

III. Sicrhau y gall **heddluoedd gael gafael ar wybodaeth berthnasol** am ymgeiswyr neu drosglwyddiadau o'r lluoedd arfog ac asiantaethau eraill y llywodraeth yn hawdd a'i rhannu, fel y bydd ganddynt ddarlun llawn o gefndir pob person (y Swyddfa Gartref, y Coleg Plismona, Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu) (ymrwymiad â blaenoriaeth).[96]

IV. Cyhoeddi **Canllawiau Llywodraeth y DU ar Risg Unigolion o'r Tu Mewn** sy'n amlinellu'r strategaethau a'r dull gweithredu gorau o ymdrin â risg unigolion o'r tu mewn a gweithgareddau a gweithdrefnau cyffredin i gyrff cyhoeddus y DU (Swyddfa'r Cabinet).

V. **Esemptio staff Llu'r Ffiniau a Gorfodi Mewnfudo** rhag y Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr er mwyn sicrhau bod euogfarnau wedi'u disbyddu yn cael eu datgelu (Llu'r Ffiniau, Gorfodi Mewnfudo).[97]

VI. Rhoi **gwiriadau uniondeb ychwanegol** ar waith mewn perthynas â staff newydd yn Llu'r Ffiniau neu'r rhai sy'n adnewyddu cliriad diogelwch, ac estyn gwiriadau uniondeb i'r staff presennol (Llu'r Ffiniau).

VII. Ym maes **carchardai a phrawf**, datblygu Strategaeth Atal Llygredigaeth ychwanegol, adnewyddu'r Strategaeth Rheoli Llygrwyr, ac adnewyddu'r broses gwrthdaro buddiannau (Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi).

VIII. Ym maes **gorfodi'r gyfraith**, creu rhestrau gwahardd a chynghorol i'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, y Gwnstabliaeth Niwclear Sifil, yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn a sicrhau nad yw cyrff plismona yn cyflogi nac yn penodi unrhyw un ar y rhestrau hynny. Yr Adran Diogelwch Ynni a Sero NetHefyd ystyried defnyddio pwerau deddfwriaethol pellach i greu rhestrau gwahardd a chynghorol i asiantaethau gorfodi'r gyfraith eraill (y Swyddfa Gartref, yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net, yr Adran Drafnidiaeth, y Weinyddiaeth Amddiffyn).

IX. Ym maes **amddiffyn**, gwella'r prosesau a'r safonau fetio, rhoi canolfan fetio ar y cyd ar waith, a gwella galluogrwydd data i fonitro, canfod a rhagweld risg unigolion o'r tu mewn (y Weinyddiaeth Amddiffyn).

X. Yn y **Gwasanaeth Sifil**, ehangu'r Hwb Twyll Mewnol (y Gronfa Ddata Twyll Mewnol gynt) y tu hwnt i dwyll a budrelw er mwyn cofnodi unigolion sy'n cael eu diswyddo am droseddau sy'n debyg i lygredigaeth (Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus).

96 Y Weinyddiaeth Amddiffyn (gan gynnwys y Fyddin, yr Awyrlu Brenhinol a'r Llynges Frenhinol, yn ogystal â'u lluoedd wrth gefn); gwasanaethau tân ac achub; Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF; a heddluoed eraill; ac asiantaethau perthnasol y llywodraeth, megis Llu'r Ffiniau a Gorfodi Mewnfudo.

97 O dan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974, nid oes angen datgelu euogfarnau wedi'u disbyddu i gyflogwyr fel arfer, oni bai bod y swydd yn esempt. Mae troseddau difrifol neu droseddau lluosog bob amser yn cael eu datgelu.

# Caffael

**Mae risgiau o lygredigaeth ym maes caffael yn y sector cyhoeddus yn cael eu lliniaru ac ymdrinnir â nhw (Canlyniad 2.2c)**

91. Mae caffael cyhoeddus yn cyfrif am tua thraean o holl wariant cyhoeddus y DU bob blwyddyn.[98] Er nad oes unrhyw dystiolaeth o lygredigaeth systemig ym maes caffael cyhoeddus, mae'r lefel hon o wariant, ynghyd â'r lefelau o ryngweithio rhwng swyddogion, busnesau a rhanddeiliaid eraill, yn creu risg gynyddol o lygredigaeth a thwyll.

92. Bydd Deddf Caffael 2023 yn fodd arall i atal llygredigaeth a sicrhau bod goblygiadau i gamymddwyn sy'n ymwneud â llygredigaeth a thwyll. Cyflwynodd y Ddeddf lwyfan digidol canolog sy'n ei gwneud yn bosibl i'r cyhoedd weld gwybodaeth caffael. Mae'r rheolau ynglŷn â gwahardd cyflenwyr hefyd wedi cael eu cryfhau i atal cyflenwyr diegwyddor rhag cael contractau cyhoeddus, ac mae rhestr rhagwaharddiadau wedi cael ei chyflwyno sy'n nodi'r cyflenwyr y mae'n rhaid eu gwahardd neu y gellir eu gwahardd o ymarferion caffael yn y sector cyhoeddus. Mae'r Uned Adolygu Caffael (PRU) newydd ei chryfhau yn Swyddfa'r Cabinet yn rheoli'r rhestr rhagwaharddiadau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheolau newydd ynglŷn â chaffael a diogelu arian cyhoeddus rhag cyflenwyr sy'n achosi'r risgiau mwyaf.

93. Ar ddechrau 2025, cyhoeddodd y Prif Weinidog y cynnydd estynedig mwyaf mewn gwariant ar amddiffyn ers y Rhyfel Oer. Er bod yr addewid hwn yn allweddol i ddiogelu cyhoedd y DU mewn oes newydd o ddiogelwch gwladol, mae hefyd yn achosi mwy o risg o lygredigaeth ym maes caffael amddiffyn. Wrth roi Adolygiad Amddiffyn Strategol 2025 ar waith, bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn cyflwyno diwygiadau radical i'r system caffael amddiffyn sydd 'wedi torri' yn ôl y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r Pwyllgor Dethol Amddiffyn.[99,100] O dan Ddiwygiadau Amddiffyn, drwy greu Cyfarwyddiaeth Arfau Gendlaethol bydd hyn yn gwella effeithiolrwydd caffael amddiffyn yn sylweddol a'i gwneud yn haws i'r Weinyddiaeth Amddiffyn liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â llygredigaeth.

98 Gwariant caffael mewn Dadansoddiadau Ystadegol o Wariant Cyhoeddus yw swm 'caffael presennol grosprocurement' a 'caffael cyfalaf gros'. Trysorlys EF, 'Public Expenditure Statistical Analyses 2023', sydd ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/64b69e320ea2cb001315e4f6/E02929310_HMT_PESA_2023_Accessible.pdf

99 y Weinyddiaeth Amddiffyn, The Strategic Defence Review 2025 – Making Britain Safer: secure at home, strong abroad, 2025, sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/the-strategic-defence-review-2025-making-britain-safer-secure-at-home-strong-abroad

100 Senedd y DU, 'MOD defence equipment systems "broken and repeatedly wasting billions of taxpayers' money"', 2021, sydd ar gael yn: https://committees.parliament.uk/committee/127/public-accounts-committee/news/158463/mod-defence-equipment-systems-broken-and-repeatedly-wasting-billions-of-taxpayers-money/ and UK Parliament, 'It is broke – and it's time to fix it: The UK's defence procurement system, 2023, sydd ar gael yn: https://publications.parliament.uk/pa/cm5803/cmselect/cmdfence/1099/summary.html

## Gwahardd cwmnïau anaddas rhag ymgynnig am goontractau cyhoeddus

Bydd mesurau yn Neddf Caffael 2023 yn codi safonau caffael drwy gymryd camau llymach ar dwyll a llygredigaeth. Mae'r Ddeddf wedi cryfhau ein gallu i wardd cyflenwyr y tybir nad ydynt yn addas i ymgynnig am goontractau cyhoeddus. Mae'n rhaid i awdurdodau contractio ystyried ymddygiad blaenorol diweddar cyflenwr a'i amgylchiadau er mwyn penderfynu a ddylid caniatáu iddo gystadlu am gontract cyhoeddus neu gael contract cyhoeddus.

Mae'r Ddeddf Caffael hefyd yn gosod rhwymedigaethau llymach o ran gwrthdaro buddiannau. Mae'n rhaid i awdurdodau contractio nodi achosion o wrthdaro buddiannu, eu lliniaru a'u hadolygu'n barhaus. Os bydd gwrthdaro yn rhoi mantais annheg i gyflenwr ac na ellir ei liniaru, mae'n rhaid i'r cyflenwr gael ei wahardd o'r ymarfer caffael hwnnw.

Ar y cyfan, mae darpariaethau ychwanegol y Ddeddf yn atgyfnerthu'r cyfreithiau presennol ynglŷn â thwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth ac yn sicrhau na ellir dyfarnu contractau cyhoeddus i gyflenwyr diegwyddor sydd â hanes o dwyll neu lygredigaeth, oni bai eu bod yn gallu dangos bod yw'r amgylchiadau a achosodd gamymddwyn yn parhau neu nad ydynt yn debygol o godi eto.

94. Ein huchelgais yw y bydd risgiau o lygredigaeth ym maes caffael y sector cyhoeddus yn cael eu lliniaru ac yr ymdrinnir â nhw, gan adeiladu ar ddeddfwriaeth ddiweddar ynglŷn â chaffael. Byddwn yn llunio gweithgareddau a'u rhoi ar waith dros y pum mlynedd nesaf er mwyn gwireddu'r uchelgais hon, ac rydym wedi cytuno ar yr ymrwymiadau canlynol i ddechrau.

I. Monitro cyfraddau cymryd rhan mewn **hyfforddiant ar gaffael** a gwerthuso effeithiolrwydd cynhyrchion dysgu a datblygu (Swyddfa'r Cabinet) (ymrwymiad â blaenoriaeth).

II. Sicrhau **cydymffurfiaeth** â'r gyfundrefn dryloywder o dan Ddeddf Caffael 2023 a monitro ansawdd data (Swyddfa'r Cabinet).

III. Gwella mynediad at **ddata ar gaffael** at ddibenion adrodd cyhoeddus a'r defnydd a wneir o'r data hynny, a gweithio gyda rhanddeiliaid yn y llywodraeth i ffurfio dadansoddeg tryloywder, a'i darparu'n gyhoeddus os yw hynny'n briodol (Swyddfa'r Cabinet).

IV. Cynllunio i **adolygu a gwerthuso** effeithiolrwydd y gyfundrefn ragwahardd, sy'n caniatáu i weinidogion restru cyflenwyr y mae eu hymddygiad neu eu hamgylchiadau blaenorol yn eu hanghymhwyso rhag cymryd rhan mewn ymarferion caffael cyhoeddus (Swyddfa'r Cabinet).

V. Monitro **tirwedd awdurdodau contractio** drwy atgyfeiriadau ac adroddiadau mewnol i'r PRU, gan ganiatáu ar gyfer goruchwyliaeth a, lle y bo'n briodol, argymell camau gweithredu i wella cydymffurfiaeth, gan gynnwys mesurau atal llygredigaeth, â'r Ddeddf Caffael (Swyddfa'r Cabinet).

VI. **Dadansoddi'r** data masnachol sydd ar gael ac sy'n cael eu dal ar y llwyfan digidol canolog i **gynhyrchu gwybodaeth** am berfformiad marchnadoedd, gan ei gwneud yn bosibl i risgiau posibl o lygredigaeth gael eu hasesu (Swyddfa'r Cabinet).

# Galluogrwydd a gwybodaeth

**Mae arweinwyr a swyddogion yn y sector cyhoeddus yn mynd ati'n rhagweithiol i nodi risgiau o lygredigaeth a gweithredu arnynt (Canlyniad 2.2d)**

95. Amddiffynfa orau'r sector cyhoeddus yn y DU rhag llygredigaeth a thwyll yw uniondeb ac ymddygiad ei gyrff cyhoeddus a'i swyddogion. Er enghraifft, mae cod y Gwasanaeth Sifil yn nodi'r gwerthoedd craidd uniondeb, gonestrwydd, gwrthrychedd a didueddrwydd, ac mae'n gwahardd defnyddio gwybodaeth swyddogol neu swydd er budd personol.[101] Er mwyn cefnogi hyn ymhellach, mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi canllawiau sy'n nodi safonau proffesiynol ar gyfer asesu risgiau o dwyll mewn llywodraeth ganolog. Mae hyn yn cynnwys Asesiadau Effaith Twyll Cychwynnol ar gyfer cynlluniau portffolio prosiectau mawr gan y llywodraeth (gan gynnwys caffaeliadau), ynghyd ag adnoddau ymarferol megis templedi, nodyn ymarfer, a chanllawiau cam wrth gam ar gyfer cynllunio. Mae arbenigwyr gwrthdwyll o Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus yn cymryd camau rhagweithiol i wrthsefyll twyll a diogelu pwrs y wlad, a chynnal ymarferion sicrwydd ar Asesiadau Effaith Twyll Cychwynnol er mwyn ymgorffori mesurau atal twyll mewn prosiectau mawr a rhoi adborth ar yr holl asesiadau.[102,103]

96. Mae nifer y gweision sifil sy'n ymgymryd â hyfforddiant ar dwyll a llygredigaeth yn isel.[104] Mae hyn yn gyson â chanfyddiadau'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, sy'n nodi nad oes gan y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus ddealltwriaeth glir o'r risgiau o dwyll a llygredigaeth a wynebant, na allant ddangos adnoddau priodol i atal twyll a llygredigaeth a, heblaw am dreth a lles, mai cyfyngedig yw eu gallu i atal twyll.[105] Dylai ymdrechion i fynd i'r afael â llygredigaeth yn y sector cyhoeddus, sydd yn aml yn gysylltiedig â thwyll a llwgrwobrwyo, gyd-fynd â gwaith Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus sy'n arwain ymdrechion i feithrin gallu a lleihau'r risgiau o dwyll a llygredigaeth a'u heffaith yn y sector cyhoeddus.

101 Cod y Gwasanaeth Sifil, 2015, sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/civil-service-code/the-civil-service-code

102 Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus, Initial Fraud Impact Assessment (IFIA) Practice Note, 2024, sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/initial-fraud-impact-assessment-practice-note/initial-fraud-impact-assessment-ifia-practice-note-html

103 Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus, Professional standards and guidance for fraud risk assessment in government, 2025, sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/professional-standards-and-guidance-for-fraud-risk-assessment-in-government/professional-standards-and-guidance-for-fraud-risk-assessment-in-government-html

104 Yn 2024/25, mae data Sgiliau'r Llywodraeth yn dangos bod bron 120,000 o weision sifil wedi cwblhau'r cwrs canolog ar Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth. Fodd bynnag, dewisodd CThEF, yr Adran Gwaith a Phensiynau, y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Amddiffyn, sy'n cyfrif am fwy na 50% o weithlu'r gwasanaeth sifil, beidio â gwneud y cwrs yn orfodol. Mae'n bosibl iddynt wneud hyn am eu bod yn meithrin ymwybyddiaeth o atal twyll drwy eu cwrs/cyrsiau eu hunain neu mewn ffyrdd eraill, ac nad oes angen arlwy canolog o adran Dysgu'r Gwasanaeth Sifil arnynt.

105 Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Tackling fraud and corruption against government, 2023, sydd ar gael yn: https://www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2023/03/tackling-fraud-and-corruption-against-government.pdf

## Y Proffesiwn Atal Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth

Ym mis Mai 2023, cyhoeddodd Proffesiwn Gwrthdwyll y Llywodraeth (GCFP) Safon ar ei newydd wedd ar gyfer y Proffesiwn Atal Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth.[106] Yna, cyhoeddwyd nodyn ymarfer ynglŷn â sut i atal llwgrwobrwyo a llygredigaeth.[107] Nod Safonau a Chanllawiau Proffesiynol Gwrthdwyll yw cynnig dull unffurf, trawslywodraethol o wrthsefyll twyll, llwgrwobrwyo, a llygredigaeth, sy'n ychwanegu at alluoedd unigol ac yn gwella ymdrechion sefydliadol i atal twyll a llygredigaeth.

Mae'r safonau yn cynnwys y safonau a'r canllawiau proffesiynol ar gyfer lefel yr unigolyn o wybodaeth, sgiliau a phrofiad sydd ei hangen i atal achosion o lwgrwobrwyo a llygredigaeth, eu canfod ac ymateb iddynt. Maent yn cynnwys canllawiau sy'n nodi: sut beth yw cynhyrchion atal llwgrwobrwyo a llygredigaeth o ansawdd da; y prosesau a argymhellir i sefydliadau er mwyn iddynt roi dulliau effeithiol o atal llwgrwobrwyo a llygredigaeth ar waith; a sut i ddatblygu gweithgarwch atal llwgrwobrwyo a llygredigath mewn sefydliad a'i roi ar waith er mwyn ymdrin â'r rhai sy'n cyflawni twyll.

97. Ein huchelgais yw y bydd arweinwyr a swyddogion yn y sector cyhoeddus yn mynd ati'n rhagweithiol i nodi'r risg o lygredigaeth a gweithredu arni. Byddwn yn llunio gweithgareddau a'u rhoi ar waith dros y pum mlynedd nesaf er mwyn gwireddu'r uchelgais hon, ac rydym wedi cytuno ar yr ymrwymiadau canlynol i ddechrau.

I. Cyflwyno rhaglen wedi'i diweddaru o e-ddysgu ar lygredigaeth a thwyll i holl swyddogion cenedlaethol a lleol y sector cyhoeddus sy'n wynebu risg o ymarfer twyllodrus neu lwgr, a'i gwneud yn orfodol i bob gwas sifil (JACU, GCFP) (ymrwymiad â blaenoriaeth).

II. Codi ymwybyddiaeth o'r risgiau o dwyll a llygredigaeth mewn llywodraeth ar lefel genedlaethol drwy gynnal ymgyrch gyfathrebu fewnol ar gyfer pob gwas sifil (Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus, GCFP).

III. Meithrin **diwylliant effeithiol** i fynd i'r afael â llygredigaeth, llwgrwobrwyo a thwyll yn y sector cyhoeddus drwy ddatblygu'r Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Gwrthdwyll, gan ddatblygu'r Brentisiaeth Rheoli Twyll Lefel 4 a chymhwyster rheoli twyll ar wahân (Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus, GCFP).

IV. Gwella gallu cyrff cyhoeddus i reoli risgiau o dwyll a llygredigaeth drwy gynyddu **asesiadau effaith a risg o ansawdd da**, datblygu adnoddau asesu risg, a hyfforddi mwy o aseswyr risg twyll cymwysedig (Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus).

106 Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus, A Standard for the Counter Bribery and Corruption Professional, 2023, sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/a-standard-for-the-counter-bribery-and-corruption-professional/a-standard-for-the-counter-bribery-and-corruption-professional-html

107 Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus, How to Counter Bribery and Corruption Practice Note, 2024, sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/how-to-counter-bribery-and-corruption-practice-note

# 2.3: Uniondeb busnesau

**Mae busnesau o Brydain yn gweithredu gydag uniondeb ym marchnadoedd y DU a thramor (Canlyniad 2.3)**

98. Mae llwgrwobrwyo a llygredigaeth yn rhwystro twf drwy chwyddo costau, lleihau cyfleoedd i allforwyr a thanseilio sefydliadau sylfaenol marchnadoedd cystadleuol iach.[108,109,110,111] Er bod y DU wedi gwneud cynnydd sylweddol ers i Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010 ddod i rym, rydym yn cydnabod y gellir gwneud rhagor i helpu busnesau ar lefel ymarferol i nodi risgiau o lygredigaeth a'u lleihau a chryfhau gweithgarwch ataliol.

99. Dim ond un rhan o'r bygythiad a wynebir gan y sector preifat o ganlyniad i droseddau economaidd yw llygredigaeth, ond mae'n ffactor cyffredin sy'n galluogi neu'n rhagarwain gweithgareddau troseddol eraill ac yn ffynhonnell allweddol o gyfoeth anghyfreithlon. Mae'r mesurau a nodir yn y maes hwn yn ategu'r rhai mewn rhannau eraill o'r strategaeth; yn benodol, y camau gweithredu o dan biler 1 sy'n mynd i'r afael ag arian llwgr ac sy'n cefnogi ymdrechion i orfodi'r gyfraith. Byddwn yn gweithio gyda'r sector preifat i lywio a chyflawni ymrwymiadau yn y meysydd hyn.

100. Er mwyn llwyddo i sicrhau bod busnesau o Brydain yn gweithredu gydag uniondeb ym marchnadoedd y DU a thramor, byddwn yn canolbwyntio ar **atal** a **marchnadoedd tramor**.

## Atal

**Mae busnesau o Brydain yn gallu nodi risgiau o lwgrwobrwyo a llygredigaeth yn y DU a thramor a gweithredu arnynt (Canlyniad 2.3a)**

---

108 Mewn adolygiad o 427 o achosion o lwgrwobrwyo dramor, canfu'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd fod llwgrwobrwyon yn cyfrif am 10.9% o gyfanswm gwerth trafodiadau ar gyfartaledd. Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, Foreign Bribery Report: An Analysis of the Crime of Bribery of Foreign Public Officials, 2014, sydd ar gael yn: https://www.oecd.org/en/publications/oecd-foreign-bribery-report_9789264226616-en.html

109 Y Swyddfa Gartref, Economic Crime Survey 2024, sydd ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications/ economic-crime-survey-2024. O blith cwmnïau o Brydain sy'n gweithredu'n rhyngwladol, roedd 7% yn credu eu bod wedi colli cyfle busnes dramor yn y 12 mis diwethaf i gystadleuwr a dalodd lwgrwobr. Roedd yr ymatebion yn uwch ar gyfer rhai rhanbarthau â blaenoriaeth uchel.

110 Yr Adran Masnach Ryngwladol , DIT National Survey of Registered Businesses' Exporting Behaviours, Attitudes and Needs, 2017, sydd ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5b1a9a6aed915d2cc0270cd4/ DIT_National_Survey_main_report 08062018.pdf. Gofynnwyd i gwmnïau a oedd wedi penderfynu peidio ag allforio i wlad benodol nodi'r ffactor a fu'n sail i'w penderfyniad. Nododd 6% dwyll a llygredigaeth.

111 Mae adolygiadau llenyddiaeth o astudiaethau academaidd sy'n cadarnhau hyn yn cynnwys y canlynol. Jenkins, M., 'The relationship between business integrity and commercial success', 2017, sydd ar gael yn: https://www.u4.no/api/publications/ the-relationship-between-business-integrity-and-commercial-success/pdf. Nichols, P. M., 'The business case for complying with bribery laws', American Business Law Journal, 2012, 49, tudalennau 325-368, sydd ar gael yn: https://doi.org/10.1111/j.1744-1714.2012.01134.x. Yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol, 'Why corruption matters: understanding causes, effects and how to address them', 2015, sydd ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/ file/406346/corruption-evidence-paper-why-corruption-matters.pdf.

101. Mae'r DU wedi datblygu adnoddau a chanllawiau i helpu cwmnïau i ddeall risgiau o lwgrwobrwyo a llygredigaeth a rhoi mesurau ataliol ar waith, ond gall yr arlwy hwngael ei wella. Mae Tŷ'r Arglwyddi a'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd wedi galw am fwy o gymorth i fusnesau bach a chanolig (BBaChau), a all fod heb adnoddau digonol i ddeall risgiau, rhoi gweithdrefnau atal llwgrwobrwyo ar waith ac ymwrthod pan fydd swyddogion cyhoeddus yn gofyn am lwgrwobrwyon.[112] Adlewyrchir y canfyddiadau hyn yn Arolwg o Droseddau Economaidd 2024, sy'n awgrymu bod perthynas rhwng maint cwmni a'r mesurau atal llygredigaeth sydd ar waith.[113]

102. Yn ogystal â rhoi cymorth i BBaChau, gall y wybodaeth sydd ar gael i asiantaethau gorfodi'r gyfraith roi gwersi gwerthfawr i gwmnïau sy'n ystyried cryfhau eu mesurau atal llygredigaeth. O dan y strategaeth hon, bydd y Swyddfa Twyll Difrifol yn profi ac yn ehangu ar ei gallu i helpu cwmnïau i fireinio eu hamddiffynfeydd rhag llygredigaeth a chael mwy o bartneriaeth â'r sector preifat.

## Ymddygiad busnes cyfrifol

Mae mynd i'r afael â llwgrwobrwyo a llygredigaeth yn un o gonglfeini'r ffordd y mae'r llywodraeth yn mynd ati i sicrhau ymddygiad cyfrifol ymhlith busnesau. Mae hawliau dynol, hawliau llafur, a niweidiau amgylcheddol yn aml yn codi mewn cyd-destunau lle mae llygredigaeth yn digwydd. Roedd Strategaeth Fasnach y DU, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2025, yn cydnabod hyn a lansiodd adolygiad o'r ffordd y mae'r DU yn yn ymdrin ag ymddygiad cyfrifol ymhlith busnesau er mwyn sicrhau bod busnesau yn gweithredu gydag uniondeb ym mhob un o feysydd eu cyfrifoldeb corfforaethol drwy eu cadwyni cyflenwi cyfan. Mae ei gwmpas yn cynnwys llwgrwobrwyo a llygredigaeth.[114]

Mae'r adolygiad yn cael ei arwain gan y Swyddfa Ymddygiad Busnes Cyfrifol, sydd hefyd wedi cael y dasg o hyrwyddo Canllawiau'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ar Fusnes Cyfrifol.[115] Mae'r canllawiau yn annog cwmnïau i gynnal diwydrwydd dyladwy sy'n seiliedig ar risg er mwyn gwrthsefyll llygredigaeth a phroblemau eraill. Mae'r Swyddfa yn cynnig system gwyno anfarnwriaethol i ymdrin â niweidiau corfforaethol, gan gynnwys llygredigaeth a llwgrwobrwyo.

103. Ein huchelgais yw y bydd busnesau o Brydain wedi cael eu paratoi'n well i nodi risgiau o lwgrwobrwyo a llygredigaeth a gweithredu arnynt. Byddwn yn llunio gweithgareddau a'u rhoi ar waith dros y pum mlynedd nesaf er mwyn gwireddu'r uchelgais hon, ac rydym wedi cytuno ar yr ymrwymiadau canlynol i ddechrau.

I. Lansio **casgliad newydd o adnoddau gwrthlygredigaeth** ar GOV.UK i fusnesau a sefydliadau eraill yn y DU a fydd yn cynnig adnoddau am ddim i'w helpu i ddeall sut y

---

112 Tŷ'r Arglwyddi, The Bribery Act 2010: post-legislative scrutiny, Pennod 8, sydd ar gael yn: https://publications.parliament.uk/pa/ld201719/ldselect/ldbribact/303/303.pdf and OECD, Corporate Anti-Corruption Compliance Drivers, Mechanisms, and Ideas for Change, tt.67, sydd ar gael yn: https://www.oecd.org/en/publications/corporate-anti-corruption-compliance-drivers-mechanisms-and-ideas-for-change_4245d0fc-en.html
113 Y Swyddfa Gartref, Arolwg Troseddau Economaidd 2024, sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/ economic-crime-survey-2024
114 Llywodraeth EF, The UK's Trade Strategy, 2025, sydd ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/68838f4ebe2291b14d11af2e/uk-trade-strategy-print.pdf
115 Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, Guidelines for Multinational Enterprises on Responsible Business Conduct, 2023, sydd ar gael yn: https://www.oecd.org/en/publications/oecd-guidelines-for-multinational-enterprises-on-responsible-business-conduct_81f92357-en.html

maent wedi'u hamlygu i risgiau o lwgrwobrwyo a lygredigaeth ac i roi mesurau ar waith i'w lleihau, a gweithio gyda'r sector preifat, y byd academaidd a chymdeithas sifil i sicrhau bod y canllawiau hyn a chanllawiau eraill ar atal llygredigaeth yn dal i fod yn gyson ag arferion gorau byd-eang (JACU, yr Adran Fusnes a Masnach, y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu) (ymrwymiad â blaenoriaeth).

II. Ehangu ar **allu'r Swyddfa Twyll Difrifol i atal troseddau** er mwyn helpu cwmnïau i gryfhau eu mesurau diogelu rhag llwgrwobrwyo a llygredigaeth (y Swyddfa Twyll Difrifol) (ymrwymiad â blaenoriaeth).

III. Bydd yr **adolygiad o'r ffordd y mae'r DU yn ymdrin ag ymddygiad busnes cyfrifol yn cynnwys llwgrwobrwyo a llygredigaeth**, ochr yn ochr ag arferion niweidiol eraill sy'n ymwneud â'r amgylchedd, hawliau dynol a hawliau llafur (yr Adran Fusnes a Masnach).

IV. Yn seiliedig ar ganlyniad yr adolygiad o ymddygiad busnes cyfrifol, asesu ymhellach yr opsiynau i Lywodraeth y DU **roi cymhellion** i gwmnïau roi mesurau atal llwgrwobrwyo ar waith, gan gynnwys drwy fynediad at fanteision cyhoeddus. (JACU).[116]

V. Egluro a chryfhau cymhellion i gorfforaethau **hunangofnodi** drwy roi Canllawiau Allanol y Swyddfa Twyll Difrifol ar Gydweithredu a Gorfodi Corfforaethol ar waith (y Swyddfa Twyll Difrifol).

# Marchnadoedd tramor

**Mae'r risgiau o lwgrwobrwyo a llygredigaeth a wynebir gan fusnesau o Brydain mewn marchnadoedd tramor risg uchel yn cael eu lliniaru (Canlyniad 2.3b)**

104. Mae Strategaeth Fasnach y DU yn cydnabod bod llygredigaeth yn niweidiol i fusnesau'r DU ac yn eu hatal rhag sicrhau cyfleoedd masnachol dramor.[117] Rydym am hyrwyddo amgylcheddau busnes glân i gwmnïau o'r DU weithredu ynddynt, yn enwedig am fod egwyddorion sefydledig ynglŷn â phwysigrwydd hyrwyddo cystadleuaeth deg drwy fynd i'r afael â llwgrwobrwyo a llygredigaeth yn cael eu herio'n rhyngwladol.

105. Mae'r DU eisoes wedi cymryd rhai camau arwyddocaol ochr yn ochr â gwledydd eraill i leihau risgiau o lwgrwobrwyo a llygredigaeth, megis sicrhau mesurau cadarn i atal llygredigaeth yn ei chytundebau masnach ag India, Awstralia, a Seland Newydd a hefyd drwy ymuno â'r Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel.[118,119,120] Byddwn yn adeiladu ar y cynnydd hwn yn y strategaeth hon, nid yn unig drwy barhau â'r bartneriaeth â llywodraethau eraill, ond hefyd drwy wella'r cymorth

116 Am enghreifftiau, gweler Adran XXIII.D. o Recommendation of the Council for Further Combating Bribery of Foreign Public Officials in International Business Transactions y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, 2021, sydd ar gael yn: https://legalinstruments.oecd.org/en/instruments/OECD-LEGAL-0378

117 Gweler Pennod 6: Accountable trade, yn UK's Trade Strategy, 2025, Llywodraeth EF, sydd ar gael: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/68838f4ebe2291b14d11af2e/uk-trade-strategy-print.pdf

118 Yr Adran Busnes a Masnach, UK-India CETA Chapter 26: Anti-Corruption, 2025, sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/uk-india-ceta-chapter-26-anti-corruption

119 Yr Adran Busnes a Masnach, UK-Australia FTA Chapter 28: Transparency and Anti-Corruption, 2021, sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/uk-australia-fta-chapter-28-transparency-and-anti-corruption

120 Yr Adran Busnes a Masnach, UK-New Zealand FTA Chapter 28: Anti-Corruption, 2022, sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/uk-new-zealand-fta-chapter-28-anti-corruption

ymarferol y gall ein rhwydwaith diplomyddol a masnach ei ddarparu i fusnesau yn y DU sy’n gweithredu dramor.

## Astudiaeth achos: Darpariaethau gwrthlygredigaeth mewn cytundebau masnach

Mae darpariaethau gwrthlygredigaeth yng nghytundebau masnach rydd y DU yn atgyfnerthu rhwymedigaethau rhyngwladol ar lwgrwobrwyo a llygredigaeth yn y Cenhedloedd Unedig ac yn cefnogi cydweithrediad i fynd i’r afael â’r materion byd-eang hyn mewn cyd-destun masnach a buddsoddi.




Er enghraifft, mae’r cytundeb masnach rydd diweddar rhwng y DU ac India yn cynnwys rhwymedigaethau i gymryd nifer o gamau i atal a gwrthsefyll llwgrwobrwyo a llygredigaeth, gan gynnwys troseddoli llwgrwobrwyo a gwahardd arferion cadw cyfrifon twyllodrus, a mesurau i wrthsefyll achosion o ddwyn a gwyngalchu arian. Dyma’r tro cyntaf erioed i India gynnwys pennod ar wrthlygredigaeth mewn cytundeb masnach rydd.

Yn yr Arolwg o Droseddau Economaidd 2024, roedd rhwng 7% ac 20% o fusnesau â chyflogeion a oedd yn masnachu’n rhyngwladol yn credu ei bod yn debygol iawn neu’n eithaf tebygol eu bod wedi colli cyfle busnes y tu allan i’r DU i gystadleuwr a gynigiodd lwgrwobr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn dibynnu ar ba ranbarth roeddent yn masnachu ynddo.[121]

106. Ein huchelgais yw y bydd y risgiau a wynebir gan fusnesau mewn marchnadoedd risg uchel yn cael eu lliniaru. Byddwn yn llunio gweithgareddau a’u rhoi ar waith dros y pum mlynedd nesaf er mwyn gwireddu’r uchelgais hon, ac rydym wedi cytuno ar yr ymrwymiadau canlynol i ddechrau.

I. Datblygu **pecyn cymorrth ar gyfer rhwydwaith diplomyddol a masnach y DU**, gan ddefnyddio profiad y sector cyhoeddus a’r sector preifat, paratoi swyddogion i roi arweiniad i fusnesau ac ymgysylltu â gwledydd perthnasol ynglŷn â materion gwrthlygredigaeth sy’n effeithio ar gwmnïau o Brydain (JACU, yr Adran Fusnes a Masnach, y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu) (ymrwymiad â blaenoriaeth).

II. Parhau i geisio darpariaethau gwrthlygredigaeth cadarn yn ein **cytundebau masnach**, lle y bo’n briodol. Darparu ar gyfer monitro’r darpariaethau hyn a’u rhoi ar waith ar ôl i gytundebau ddod i rym (yr Adran Fusnes a Masnach, JACU) (ymrwymiad â blaenoriaeth).

III. Bydd UK Export Finance (UKEF) yn gweithio mewn partneriaeth ag Asiantaethau Credyd Allforio o’r un anian i **hyrwyddo safonau uwch o ddiwydrwydd dyladwy mewn perthynas â throseddau ariannol i’r asiantaethau hyn**, gan gynnwys drwy gymryd rhan yng nghyfarfodydd ymarferwyr arbenigol ar droseddau ariannol Grŵp Credyd Allforio’r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd a fforymau rhyngwladol eraill megis Undeb Berne (UKEF).

121 Y Swyddfa Gartref, Arolwg Troseddau Economaidd 2024, sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/ economic-crime-survey-2024

IV. **Adolygu hysbysiadau cydymffurfio a gwybodaeth gyhoeddus UKEF mewn perthynas â throseddau ariannol** er mwyn hyrwyddo lefelau uwch o ymwybyddiaeth o ddiwydrwydd dyladwy UKEF mewn perthynas â throseddau ariannol a'i ofynion ymhlith cwsmeriaid, rhanddeiliaid a phartïon eraill â buddiant, gyda'r nod yn y pen draw o atal troseddau ariannol (UKEF).

V. Treialu rhaglen i gryfhau **cyfreithiau llwgrwobrwyo tramor a'u gorfodi** dramor i leihau cystadleuaeth annheg i fusnesau o Brydain pan fyddant yn gweithredu'n rhyngwladol (JACU).

VI. Gwella'r llif o **wybodaeth** am achosion o lwgrwobrwyo a llygredigaeth o rwydwaith diplomyddol a masnach y DU i gyrff gorfodi'r gyfraith (JACU, yr Adran Fusnes a Masnach, y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol).

# Piler 3:

# Gallu’r byd i wrthsefyll llygredigaeth

# Piler 3: Gallu'r byd i wrthsefyll llygredigaeth

**Meithrin gallu'r byd i wrthsefyll llygredigaeth (Amcan 3)**

107. Nod trydydd piler y strategaeth yw ceisio meithrin gallu'r byd i wrthsefyll llygredigaeth. Er mwyn gwneud hyn, bydd ein hymateb yn canolbwyntio ar **bartneriaethau rhyngwladol** a **safonau rhyngwladol**.

# 3.1 : Partneriaethau rhyngwladol

**Mae partneriaethau rhyngwladol yn sbarduno dull rhwydweithiol effeithiol o ymdrin â llygredigaeth (Canlyniad 3.1)**

108. Mae llygredigaeth yn fygythiad trawswladol sy'n tanseilio amrywiaeth eang o fuddiannau rhyngwladol y DU. Mae'n peryglu diogelwch rhyngwladol, yn gwneud gwledydd bregus yn fwy agored i wrthdaro, ac yn dwyn refeniw hollbwysig oddi wrth wledydd incwm isel. Mae'n grymuso cleptocratiaeth a mathau eraill o lywodraethu awdurdodaidd sy'n peryglu rheolaeth y gyfraith. Mae erydu cyfundrefnau llywodraethu yn y fath fodd yn tanseilio hyder busnesau ac yn gwrthannog buddsoddiadau cynhyrchiol, sy'n cael effaith negyddol ar sefydlogrwydd ariannol a thwf cynhwysol ledled y byd. Ar yr un pryd, mae llawer o'r bygythiadau i'r DU o ganlyniad i lygredigaeth yn deillio o dramor neu y mae ganddynt gysylltiad cryf rhyngwladol. Mae hyn yn arbennig o wir am lygredigaeth fawr, sef math hynod niweidiol o lygredigaeth sy'n cynnwys camddefnyddio pŵer ymddiriedig lefel uchel a sefydliadau er budd preifat.[122] Mae enillion llygredigaeth fawr yn aml yn cael eu gwyngalchu drwy'r system ariannol fyd-eang lle maent yn dod yn rhan o weoedd ehangach o gyllid anghyfreithlon a chyfreithlon, sy'n ei gwneud yn fwy anodd i'w holrhain. O ganlyniad, mae'r croestoriad rhwng llygredigaeth a chyllid anghyfreithlon ehangach yn hollbwysig, ac yn gofyn am ddull gweithredu integredig.

109. Ni all y DU weithredu ar ei phen ei hun i fynd i'r afael â'r bygythiad a achosir gan lygredigaeth a chyllid anghyfreithlon i'r DU a'n buddiannau rhyngwladol. Er mwyn gwneud cynnydd mewn llawer o'r meysydd a amlinellir yn y strategaeth hon bydd angen sylfaen gadarn o bartneriaethau rhyngwladol amrywiol â gwledydd a phartneriaid eraill, gan gynnwys y sector preifat a chymdeithas sifil, er mwyn cryfhau amddiffynfeydd rhag risgiau a rennir sy'n galluogi llygredigaeth a chyllid anghyfreithlon a lleihau'r niweidiau a achosir ganddynt.

110. Er mwyn llwyddo i sicrhau bod partneriaethau rhyngwladol yn sbarduno dull rhwydweithiol effeithiol o ymdrin â llygredigaeth, byddwn yn canolbwyntio ar **bartneriaethau rhyngwladol, lleihau niweidiau i ddatblygu,** a chefnogi **cymdeithas sifil, newyddiaduraeth ymchwiliol a sefydliadau democrataidd**.

122 Gweler Barrington, R., David-Barrett, E., Dobson Phillips, R. a Garrod, G., 'Grand Corruption' yn Dictionary of Corruption, 2024.

### Astudiaeth achos: Llygredigaeth a'r sector amddiffyn

Mae sylfaen dystiolaeth gynyddol yn awgrymu, wrth i wariant amddiffyn gynyddu, y bydd hyn yn peri i lygredigaeth gynyddu yn y sector amddiffyn yn anuniongyrchol.[123] Mae'r cysylltiadau hyn yn arbennig o wir mewn gwledydd lle mae'r wladwriaeth wedi cael ei chipio, gan mai rheolaeth dros y sector diogelwch yw un o'r prif dargedau i elitiau. Mae llygredigaeth yn y sector amddiffyn hefyd yn creu gwrthdaro drwy wanhau gallu'r wladwriaeth i ymdrin â bygythiadau diogelwch. Mae'r methiannau hyn yn gwneud achosion o dorri hawliau dynol yn bosibl, ac yn sbardun i drais a chwynion. Mae'r DU yn ymrwymedig i hyrwyddo tryloywder ac atebolrwydd, mewn gweithgarwch o'r fath, yn enwedig o ystyried y gwariant cynyddol ar wariant a diogelwch yn Ewrop mewn ymateb i ymddygiad ymosodol Rwsia.

Gallwn ddylanwadu ar hyn mewn sawl ffordd, gan gynnwys drwy Raglen Meithrin Uniondeb y DU, sef rhaglen meithrin gallu o eiddo'r Weinyddiaeth Amddiffyn sy'n cael ei hariannu ganddi, cyflwyno mentrau codi ymwybyddiaeth o atal llygredigaeth i lywodraethau tramor, adrannau llywodraeth y DU, a sefydliadau NATO, fel rhan o ymgysylltu/diplomyddiaeth ym maes amddiffyn.

Byddwn yn parhau i gyflwyno nifer o ymyriadau drwy Raglen Meithrin Uniondeb y DU sydd â'r nod o leihau'r risg o lygredigaeth o fewn sector amddiffyn a sector diogelwch ein partneriaid rhyngwladol, drwy gefnogi'r gwaith o roi egwyddorion ynglŷn ag uniondeb, tryloywder, ac atebolrwydd ar waith. Mae hyn yn rhan o ymrwymiadau ehangach y DU i wella ymdrechion rhyngwladol i hyrwyddo gwell trefniadau llywodraethu mewn sectorau diogelwch ledled y byd.

## Partneriaethau rhyngwladol y DU

**Mae cynghreiriau rhyngwladol i wrthsefyll llygredigaeth a chyllid anghyfreithlon yn cael eu cryfhau gyda chymorth y DU (Canlyniad 3.1a)**

111. Nid yw llygredigaeth na chyllid anghyfreithlon yn parchu ffiniau rhyngwladol nac arferion sefydledig. Maent yn ffynnu drwy gamfanteisio ar un o gryfderau craidd yr economi fyd-eang: pa mor hawdd ydyw i drosglwyddo arian, a symud nwyddau a gwasanaethau dros y byd i gyd.Mae cyfrifoldeb penodol ar ganolfannau ariannol, gan gynnwys y DU, i weithredu o ystyried eu rôl i gynnig llwybrau diogel i symud cyfoeth. Defnyddir amrywiol ffyrdd o symud arian llwgr ac anghyfreithlon, sy'n cynnwys amrywiaeth eang o wledydd, gweithredwyr, a dosbarthiadau o asedau, er enghraifft aur anghyfreithlon. Wrth i wledydd ledled y byd, gan gynnwys y DU a chanolfannau ariannol eraill, ddatblygu eu heconomïau i fanteisio ar ddatblygiadau technegol, o ran arian cyfred digidol i ddeallusrwydd artiffisial, bydd risgiau newydd mewn perthynas â

123 Transparency International Defence and Security, Trojan Horse Tactics: Corruption Risk in Defence Spending, 2024, sydd ar gael yn: https://ti-defence.org/wp-content/uploads/2024/04/Trojan-Horse-Tactics-corruption-risk-in-defence-spending.pdf

llygredigaeth a chyllid anghyfreithlon yn dod i'r golwg, a fydd yn gofyn ymhellach am gydweithio.

112. Mae angen cymryd camau cydgysylltiedig a strategol cadarn rhwng gwledydd, y sector preifat a chymdeithas sifil i ymateb i'r her rwydweithiol hon. Mae'n rhaid i'r camau hyn rychwantu gwledydd tarddiad, tramwy a chyrchfan ar gyfer arian llwgr a chyllid anghyfreithlon. Mae gweithredwyr llwgr a throseddol yn ffynnu drwy gamfanteisio ar wahaniaethau mewn systemau cyfreithiol a rheoleiddiol rhwng gwledydd i gelu, cyfreithloni, a defnyddio cyfoeth anghyfreithlon er mantais bersonol, wleidyddol, neu strategol. Mae partneriaethau rhyngwladol cadarn a hirdymor sy'n canolbwyntio ar ddealltwriaeth a mynd i'r afael â risgiau a rennir yn hanfodol o ran cyfyngu ar y lle i'r gweithredwyr hyn weithredu a ffynnu. Mae hon yn her wleidyddol yn ogystal â her dechnegol. Mae llawer o'r datrysiadau i fynd i'r afael â'r risgiau hyn yn bodoli eisoes, ond nid yw prosesau gweithredu na gorfodi mor gryf ag y dylent fod.

113. Ein huchelgais yw y bydd pŵer y DU i gynnull eraill a'i phartneriaethau yn cefnogi cynghreiriau rhyngwladol cryfach i wrthsefyll llygredigaeth a chyllid anghyfreithlon yn unol â safonau rhyngwladol. Byddwn yn llunio gweithgareddau a'u rhoi ar waith dros y pum mlynedd nesaf er mwyn gwireddu'r uchelgais hon, ac rydym wedi cytuno ar yr ymrwymiadau canlynol i ddechrau.

I. Cynnal **Uwchgynhadledd yn erbyn Cyllid Anghyfreithlon** yn y DU a fydd yn dwyn ynghyd gynghrair eang o lywodraethau, sefydliadau amlochrog, cymdeithas sifil a'r sector preifat i weithredu ar y gwendidau cyffredin sy'n ei gwneud yn bosibl i lygredigaeth a chyllid anghyfreithlon ffynnu (y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu) (ymrwymiad â blaenoriaeth).

II. Dyrchafu llygredigaeth a chyllid anghyfreithlon yn **flaenoriaeth polisi tramor a datblygu i'r DU** drwy ymgorffori'r materion hyn yn strategaethau ymgysylltu'r DU mewn gwledydd allweddol, a defnyddio Penaethiaid Cenadaethau i hyrwyddo cydweithio rhwng swyddi ar risgiau a rennir o ran llygredigaeth a chyllid anghyfreithlon (y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu) (ymrwymiad â blaenoriaeth).

III. Ehangu ein rhwydwaith o **arbenigwyr ar gyllid anghyfreithlon** sy'n gweithio dramor a datblygu partneriaethau dynamig newydd â chanolfannau ariannol byd-eang a rhai sy'n datblygu gyda ffocws ar risgiau a rennir a mynd i'r afael â methodolegau newydd a datblygol o symud arian llwgr a chyllid anghyfreithlon ehangach (y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu).

IV. Cynyddu graddfa gwaith **Canolfan Ryngwladol Arbenigedd ar Gyllid Anghyfreithlon** y DU i ddeall cyllid anghyfreithlon rhyngwladol a'r bygythiad y mae'n ei achosi i ddiogelwch y DU, ynghyd â datblygiad a thwf rhyngwladol a datblygu ymatebion gwleidyddol a thechnegol gadarn iddo (y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu).

V. Bydd swyddogaeth **Partneriaeth Cyhoeddus-Preifat** y DU yn yr NECC yn parhau i ddatblygu ei gweithgarwch ymgysylltu â Phartneriaethau Cyhoeddus-Preifat rhyngwladol er mwyn rhannu ymhellach wybodaeth bygythiad am droseddau economaidd, gan gynnwys llygredigaeth, a pharhau i hyrwyddo arferion gorau wrth ddefnyddio partneriaethau i ymateb i'r bygythiad (NECC, y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu).

## Astudiaeth achos: Cyllid anghyfreithlon a llygredigaeth yn y sector aur



Mae aur, fel nwydd gwerthfawr, cryno y gellir ei anonymeiddio'n hawdd, yn agored iawn i lygredigaeth a gwyngalchu arian, sy'n amlygu sector aur cyfreithlon y DU i risgiau ac sy'n tanseilio rôl y DU fel canolfan y fasnach gyfreithlon mewn aur. Ers i Rwsia oresgyn Wcráin, mae'r defnydd o aur i efadu sancsiynau wedi cynyddu. Mae llygredigaeth yn y sector aur yn hwyluso mwynngloddio anghyfreithlon, gwrthdaro, achosion o dorri hawliau dynol, niweidiau i ddatblygu, diraddio amgylcheddol a throseddau cyfundrefnol.[124]

Yn gyffredinol, mae aur anghyfreithlon yn sbardun i fygythiadau i ddiogelwch gwladol y DU ac yn niweidio ein hamcanion rhyngwladol, er enghraifft o ran cynnydd datblygu, ynghyd ag ymwela ar adnoddau naturiol er budd yr ychydig rai elitaidd a llwgr. Mae dull gweithredu amlweddog llywodraeth gyfan wedi cael ei fabwysiadu i ymdrin â gwendidau yn y gadwyn cyflenwi aur. Mae hyn yn cynnwys cefnogi ymgais gynaliadwy ac ymwybodol i ffurfioli mwyngloddio crefftwrol, hyrwyddo gwell cydymffurfiaeth â chanllawiau diwydrwydd dyladwy'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ar gyrchu cyfrifol, a chydweithio'n rhyngwladol, gan gynnwys drwy orfodi'r gyfraith, ar nodi gweithredwyr milain a tharfu ar eu gweithgareddau.

# Lleihau niweidiau i ddatblygu

**Mae niweidiau i ddatblygu o ganlyniad i lygredigaeth a chyllid anghyfreithlon yn cael eu lleihau drwy gymorth technegol, eiriolaeth ac ymgysylltu'r DU (Canlyniad 3.1b)**

114. Mae llygredigaeth a chyllid anghyfreithlon, yn eu hanfod, yn system o ddatblygu o chwith.[125] Maent yn tanseilio sefydlogrwydd a diogelwch drwy sbarduno gwrthdaro, yn arwain at golledion sylweddol, a gallant newid y ffyrdd y caiff cymdeithasau eu llywodraethu yn sylfaenol, gan gynnwys pan fydd gwladwriaethau yn cael eu cipio gan elît llwgr neu droseddol. Mae'r gwaith o leihau'r niweidiau a achosir gan

124 RAND, Corruption and Russia's Illicit Gold Trade, 2024, sydd ar gael yn: https://www.rand.org/pubs/commentary/2024/12/corruption-and-russias-illicit-gold-trade.html

125 Er enghraifft, gall llygredigaeth a chyllid anghyfreithlon gyfrannu at ofid dyled ac ansefydlogrwydd macro-economaidd, atal buddsoddiadau o ansawdd uchel a chynhyrchiant cwmnïau, gwaethygu bregusrwydd a gwrthdaro, a thanseilio gallu sefydliadau i ddarparu gwasanaethau i ddinasyddion. Gall llygredigaeth gynyddu nifer y marwolaethau o ganlyniad i drychinebau naturiol, gan gynnwys y rhai sy'n deillio o newid yn yr hinsawdd.

lygredigaeth a chyllid anghyfreithlon mewn gwledydd incwm isel a chanolig mor bwysig ag erioed, yn enwedig mewn cyd-destun lle mae'r DU a'r gymuned ryngwladol yn gweithio i sicrhau bod cyllid cyhoeddus a phreifat ychwanegol yn cael ei ddefnyddio i roi terfyn ar dlodi eithafol, ac ymateb i'r argyfwng hinsawdd mewn cyd-destun cyllidol tynn.

115. Yr hyn sydd o bwys arbennig yw'r angen am gydweithio hirdymor â De'r Byd, er mwyn cryfhaur gallu sefydliadol i fynd i'r afael â risgiau i ganlyniadau datblygu o ganlyniad i lygredigaeth a chyllid anghyfreithlon. Mae gan gymorth wedi'i deilwra i roi safonau rhyngwladol perthnasol ar waith, gan gynnwys y rhai sy'n canolbwyntio ar ymdrin â gwendidau mewn fframweithiau AML/CTF, rôl bwysig i'w chwarae. Mae systemau tryloywder ac atebolrwydd cryfach, ynghyd â dulliau gweithredu arloesol eraill, hefyd yn chwarae rôl hollbwysig o ran lleihau cyfleoedd ar gyfer llygredigaeth a chyllid anghyfreithlon.[126] Mae hyn yn cynnwys systemau rheoli arian cyhoeddus cryfach, sefydliadau goruchwylio mwy effeithiol ac annibynnol, a gwell craffu cyhoeddus ar brosesau cyllidebol, yn enwedig mewn sectorau sy'n hollbwysig i sicrhau twf a datblygiad, megis caffael cyhoeddus, seilwaith, diwydiannau cloddiol, a chyllid hinsawdd. Gall y mesurau hyn helpu i reoli'r risgiau o lygredigaeth, denu buddsodddiadau cyfrifol a meithrin ymddiriedaeth rhwng dinasyddion a'r wladwriaeth.

116. Bydd ymrwymiadau a amlinellir mewn adrannau eraill o'r strategaeth hon yn chwarae rôl bwysig o ran lleihau niweidiau i ganlyniadau datblygu, gan gynnwys gwaith i helpu i roi safonau rhyngwladol ar waith mewn canolfannau ariannol byd-eang, hyrwyddo tryloywder ynglŷn â pherchenogaeth lesiannol ac adennill asedau, a chefnogi asiantaethau gorfodi'r gyfraith i ymchwilio i achosion o lygredigaeth fawr.

117. Ein huchelgais yw lleihau niweidiau i ganlyniadau datblygu o ganlyniad i lygredigaeth a chyllid anghyfreithlon drwy gymorth technegol, eiriolaeth, ac ymgysylltu'r DU. Byddwn yn llunio gweithgareddau a'u rhoi ar waith dros y pum mlynedd nesaf er mwyn gwireddu'r uchelgais hon, ac rydym wedi cytuno ar yr ymrwymiadau canlynol i ddechrau.

I. Gweithio gyda gwledydd De'r Byd i **feithrin gallu hirdymor i fynd i'r afael â risgiau mewn perthynas â llygredigaeth a chyllid anghyfreithlon**. Bydd hyn yn cynnwys gwaith gan Uned Cymorth Technegol Trysorlys EF i helpu gwledydd datblygol i roi Safonau'r Tasglu Gweithredu Ariannol (FATF) ar waith, a mwy o gydweithio rhwng Llywodraeth y DU a sefydliadau ariannol rhyngwladol a banciau datblygu rhanbarthol (Trysorlys EF, y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu) (ymrwymiad â blaenoriaeth).

II. Gwneud defnydd llawn o'r **Ganolfan Arbenigedd Cyllid Cyhoeddus**, er mwyn helpu gwledydd partner i adeiladu systemau rheoli arian cyhoeddus cryfach, cryfhau goruchwyliaeth annibynnol dros y ffordd y caiff arian cyhoeddus ei wario a dwysáu atebolrwydd cyllidol (y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu).

III. Cyflwyno cymorth polisi a rhaglenni i fynd i'r afael â llygredigaeth mewn **sectorau sydd wedi'u hamlygu ar raddfa fawr** i risgiau o lygredigaeth, gan gynnwys seilwaith a diwydiannau cloddiol (gan gynnwys mwynau allweddol) (y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu).[127]

126 ACE, A New Approach to Anti-Corruption – When Rule-Breakers rule, 2022, sydd ar gael yn: https://ace.soas.ac.uk/ publication/a-new-approach-to-anti-corruption-when-rule-breakers-rule/

127 ACE, Improving energy access for SMEs in Abuja through horizontal checks and cooperative ownership: a scoping survey, 2025, sydd ar gael yn: https://ace.soas.ac.uk/publication/improving-energy-access-for-smes-in-abuja-through-horizontal-checks-and-cooperative-ownership-and-a-scoping-survey/

IV. Lleihau risgiau o lygredigaeth mewn **cyllid hinsawdd** drwy helpu i roi mesurau atal llygredigaeth ar waith drwy'r rhai y mae British Investment International a'r Grŵp Datblygu Seilwaith Preifat yn buddsoddi ynddynt, ac integreiddio'r cymorth i gryfhau systemau rheoli arian cyhoeddus â'r Tasglu Mynediad at Gyllid Hinsawdd (y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu).

V. Parhau i chwarae rôl flaenllaw ym maes gwrthlygredigaeth ac amddiffyn yn rhyngwladol ac yn NATO **drwy fuddsoddi yn Rhaglen Meithrin Uniondeb y DU** (y Weinyddiaeth Amddiffyn).

### Astudiaeth achos: Meithrin y gallu i wrthsefyll llygredigaeth yn Wcráin

Mae'r DU wedi chwarae rôl hirdymor, strategol i gefnogi pensaernïaeth wrthlygredigaeth Wcráin, gan helpu i sefydlu a chryfhau Swyddfa Wrthlygredigaeth Genedlaethol Wcráin, Swyddfa'r Erlynydd Arbenigol ar Wrthlygredigaeth, yr Asiantaeth Genedlaethol er Atal Llygredigaeth, a'r Ganolfan Meithrin Uniondeb, Hyfforddiant ac Addysg. Mae'r ymdrech llywodraeth gyfan hon wedi sicrhau canlyniadau gweladwy, megis ymchwiliadau proffil uchel a mwy o ymddiriedaeth ymhlith y cyhoedd, a hefyd wedi ymgorffori diwylliant o uniondeb o fewn sefydliadau cyhoeddus Wcráin. Mae'r diwygiadau hyn wedi bod yn allweddol i gynnal hyder a chymorth rhyngwladol yn ystod y rhyfel, ac maent yn cyd-fynd yn uniongyrchol ag uchelgeisiau Wcráin i fodloni meini prawf derbyn yr UE a safonau NATO.

Ar y cyd â diwygiadau sefydliadol, gwnaeth Rhagen TAPAS y DU a'r UD gefnogi creu system e-gaffael ProZorro a'i chorff gwarchod mewn cymdeithas sifil, DoZorro, a ddatgelodd achosion o dor rheol mewn mwy na 33,000 o dendrau, gan arbed y swm amcangyfrifedig o $4.5 biliwn. Mae'r DU hefyd yn ariannu'r Ecosystem Adfer Ddigidol ar gyfer Rheoli Atebol (DREAM), sef llwyfan rheoli buddsoddiadau cyhoeddus o'r radd flaenaf a oedd, erbyn mis Mawrth 2025, wedi tracio mwy nag 11,200 o brosiectau gwerth £16.7 biliwn, gan sicrhau tryloywder ac atebolrwydd yng ngwaith ailadeiladu Wcráin.

## Cymdeithas sifil, newyddiaduraeth ymchwiliol a sefydliadau democrataidd

**Mae cymdeithas sifil, newyddiaduraeth ymchwiliol a sefydliadau democrataidd yn cael eu cefnogi a'u cryfhau i amlygu llygredigaeth a dwyn gweithredwyr llwgr i gyfrif (Canlyniad 3.1c)**

118. Mae cymdeithas sifil, y cyfryngau annibynnol a newyddiaduraeth ymchwiliol, a sefydliadau democrataidd yn chwarae rolau hollbwysig a chyflenwol o ran gwrthsefyll llygredigaeth. Mae partneriaethau dynamig rhwng rhwydweithiau trawsffiniol o newyddiadurwyr ymchwiliol, cymdeithas sifil, ac academyddion wedi helpu i ddatgelu rhwydweithiau llwgr

a'u harferion mewn ffyrdd nad oedd modd eu dychmygu ddegawd yn ôl.[128,129,130] Mae sefydliadau ariannol a'r sector preifat yn dibynnu ar wybodaeth gan y grwpiau hyn er mwyn deall i ba raddau y maent wedi'u hamlygu i risg ac a ddylent ymgysylltu â chleientiaid penodol, a sut. Mae asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn defnyddio'r gwaith hwn ar gyfer ymchwiliadau. Mae sefydliadau democrataidd yn cynnig llwybr pwerus i sicrhau atebolrwydd, ac mae seneddwyr yn helpu i amlygu achosion o lygredigaeth a thynnu sylw atynt. Mae etholiadau yn rhoi cyfle i'r cyhoedd fynegi eu barn ar berfformiad llywodraethau o ran mynd i'r afael â llygredigaeth.

119. Mae llawer o'r grwpiau a'r sefydliadau hyn yn wynebu ymosodiadau estynedig gan weithredwyr llwgr a chleptocrataidd. Yn rhyngwladol, mae'r rhai sy'n gweithio i amlygu llygredigaeth yn wynebu aflonyddu, bygythiadau a sensoriaeth yn gynyddol, sy'n peryglu newyddiadurwyr a grwpiau cymdeithas sifil yn uniongyrchol. Mae'r Pwyllgor Diogelu Newyddiadurwyr (CPF) yn nodi bod 116 o newyddiadurwyr a oedd yn rhoi sylw i lygredigaeth ymhlith pethau eraill wedi cael eu carcharu yn 2024.[131] Mewn cyd-destunau eraill, mae rhai llywodraethau wedi camddefnyddio cyfreithiau a rheoliadau AML/CTF i dargedu grwpiau cymdeithas sifil a thanseilio rhyddidau dinesig yn enw rhoi Safonau'r FATF ar waith yn effeithiol.[132] Gwnaeth y DU yn y FATF gydarwain prosiect yn 2023 a eglurodd y safonau a'r canllawiau perthnasol yn y maes hwn. Mae sefydliadau democrataidd ledled y byd wedi cael eu gwanhau ers o leiaf 25 mlynedd, sy'n tanseilio ymdrechion i ddwyn gweithredwyr llwgr i gyfrif.[133]

120. Ein huchelgais yw y bydd cymdeithas sifil, newyddiaduraeth ymchwiliol a sefydliadau democrataidd yn cael eu cefnogi a'u cryfhau i amlygu llygredigaeth a dwyn gweithredwyr llwgr i gyfrif, hyd yn oed yn yr amgylcheddau mwyaf bregus lle ceir anghydfodau. Byddwn yn llunio gweithgareddau a'u rhoi ar waith dros y pum mlynedd nesaf er mwyn gwireddu'r uchelgais hon, ac rydym wedi cytuno ar yr ymrwymiadau canlynol i ddechrau.

I. Rhoi **cyllid i gymdeithas sifil a newyddiadurwyr ymchwiliol**, gan ganolbwyntio ar feithrin cydweithrediad rhwng gohebwyr lleol a grwpiau rhyngwladol ehangach gyda chymorth arloesedd mewn data er mwyn amlygu risgiau o lygredigaeth a chyllid anghyfreithlon sy'n achosi lefel uchel o niwed (y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu) (ymrwymiad â blaenoriaeth)

II. Cyflwyno cyfres o **ddeialogau strategol** â chymdeithas sifil a newyddiadurwyr ymchwiliol i lywio a chryfhau ymateb rhyngwladol Llywodraeth EF i lygredigaeth a chyllid anghyfreithlon (y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu).

III. Ehangu gwaith **Canolfan Arbenigedd ar Wleidyddiaeth, Llywodraethu a Hawliau'r** DU er mwyn helpu Llywodraeth EF a'n partneriaid i ddeall bygythiadau i sefydliadau democrataidd o ganlyniad i lygredigaeth a rhwystrau a gwrthbwysau yn well ac ymateb iddynt (y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu).

128 Gweler y Consortiwm Gwrthlygredigaeth Byd-eang, yn: https://gacc.occrp.org
129 Y Sefydliad Gwasanaethau Unedig Brenhinol, 'RUSI and OCCRP partner to tackle sanctions evasion', 2024, sydd ar gael yn: https://www.rusi.org/news-and-comment/rusi-news/rusi-and-occrp-partner-tackle-sanctions-evasion
130 OCCRP, OCCRP Partners with Leading U.K. Universities to Analyze the Professional Enablers of Corruption, 2024, sydd ar gael yn: https://www.occrp.org/en/announcement/occrp-partners-with-leading-uk-universities-to-analyze-the-professional-enablers-of-corruption
131 Gellir archwilio cronfa ddata'r CPF o ymosodiadau ar y wasg yn: https://cpj.org/data/ imprisoned/2024/?status=Imprisoned&coverage%5B%5D=Corruption&start_year=2024&end_year=2024&group_by=location
132 FATF, Unintended Consequences of the FATF Standards, 2021, sydd ar gael yn: https://www.fatf-gafi.org/content/dam/fatf-gafi/reports/Unintended-Consequences.pdf.coredownload.inline.pdf
133 Yn ôl adroddiad diweddaraf VDEM, mae mwy o awtocratiaethau na democratiaethau bellach, am y tro cyntaf ers o leiaf 20 mlynedd.

IV. Parhau i chwarae rôl ryngwladol flaenllaw o ran **hyrwyddo rhyddid y cyfryngau, diogelu amddiffynwyr hawliau dynol** a gofod dinesig. Bydd hyn yn cynnwys chwarae rôl flaenllaw yng Nghyngrair Rhyddid y Cyfryngau, diweddaru canllawiau Llywodraeth EF ar gefnogi amddiffynwyr hawliau dynol, gan gynnwys newyddiadurwyr a'r rhai sy'n hyrwyddo rheolaeth y gyfraith ac integreiddio'r blaenoriaethau hyn â strategaethau Llywodraeth EF (y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu).

## Astudiaeth achos: Sgandal Banc Danske

Ar 13 Rhagfyr 2022, cyhoeddodd yr awdurdodau yn UDA fod Banc Danske wedi pledio'n euog i gyhuddiadau o dwyll ac y byddai'n fforffedu $2 biliwn. Rhwng 2008 a 2016, prosesodd cangen Estonia o Fanc Danske $160 biliwn drwy fanciau UDA ar ran 'cwsmeriaid amhreswyl', gan eu helpu i guddio pwy oeddent drwy sefydlu cwmnïau cragen, ac anwybyddu rheolaethau atal gwyngalchu arian.




Chwaraeodd y Prosiect Adrodd Troseddau Cyfundrefnol a Llygredigaeth a'i bartneriaid rôl allweddol i ddatgelu'r ymgyrch gwyngalchu arian hon ac amlygu pa mor fawr a difrifol ydoedd. Gall newyddiadurwyr weithredu mewn ffordd wahanol i asiantaethau gorfodi'r gyfraith a llywodraethau, gan eu gwneud yn hollbwysig o ran amlygu gweithgarwch anghyfreithlon. Drwy gyfuno gwaith dadansoddi data â gohebu gan dîm trawsffiniol ar lawr gwlad, gwelodd y newyddiadurwyr yr arwyddion a gollwyd gan reoleiddwyr.

# 3.2: Safonau rhyngwladol

**Mae safonau gwrthlygredigaeth rhyngwladol allweddol yn cael eu diogelu, eu rhoi ar waith a'u gorfodi'n effeithiol (Canlyniad 3.2)**

121. Mae safonau rhyngwladol yn chwarae rôl hollbwysig o ran meithrin mwy o allu'n fyd-eang i wrthsefyll llygredigaeth a chyllid anghyfreithlon a diogelu'r DU rhag y niweidiau y maent yn eu hachosi. Mae'r safonau hyn, a'r cyrff amlochrog sy'n eu gwarchod, yn hollbwysig i greu consensws ar y diwygiadau technegol sydd eu hangen i sbarduno newid.

122. Mae cryn dipyn o gynnydd wedi cael ei wneud dros y ddau ddegawd diwethaf i ddatblygu safonau gwrthlygredigaeth ac atal gwyngalchu arian rhyngwladol mwy cynhwysfawr, ochr yn ochr â phensaernïaeth amlochrog gadarnach. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae hyn wedi dod o dan bwysau cynyddol. Bu ymdrechion cynyddol i ddadwneud a gwanhau'r broses hon, yn enwedig pan fydd safonau yn fygythiad i bŵer y rhai sy'n ymgymryd â gweithgarwch llwgr neu anghyfreithlon neu sy'n cael budd o weithgarwch o'r fath. I eraill, bu canfyddiad nad yw'r safonau hyn er budd y wladwriaeth, er bod tystiolaeth gref ynglŷn â'r rôl y mae diwygiadau i atal llygredigaeth yn ei chwaraee i gefnogi twf, diogelwch, a rhyddidau democrataidd.

123. Mae rhai gwledydd eraill, gan gynnwys rhai o Dde'r Byd, wedi beirniadu'r ffordd y caiff y safonau hyn eu rhoi ar waith, a hynny ar sail canfyddiad mai nhw sy'n cael eu beirniadu a'u cosbi am ddiffyg cynnydd er bod methiant o hyd i ymdrin â gwendidau mewn canolfannau ariannol byd-eang. Mae'r pwysau hyn wedi cael eu gweld mewn cyrff amlochrog, gan gynnwys y rhai sy'n gwarchod y safonau eu hunain.

124. Fel y'i hamlinellir yn y strategaeth hon, bydd y DU yn rhoi ffocws penodol ar hyrwyddo'r broses o roi safonau ar waith mewn perthynas â'r pedwar maes canlynol.

- **Llwgrwobrwyo:** oherwydd ei ddylanwad amhriodol ar brosesau gwneud penderfyniadau, sydd yn aml yn sbarduno llygredigaeth bellach, ac yn achosi niwed uniongyrchol i fuddiannau masnachol a strategol y DU.
- **Tryloywder perchenogaeth lesiannol:** oherwydd y rôl y mae diffyg tryloywder ynglŷn â pherchnogion cwmnïau a strwythurau corfforaethol eraill yn ei chwarae o ran celu a gwyngalchu enillion llygredigaeth.
- **Adennill a dychwelyd asedau:** oherwydd y rôl bwysig y gall hyn ei chwarae o ran lleihau'r cymhelliant am lygredigaeth a lleihau'r niweidiau a achosir gan lygredigaeth.
- **Rheoleiddio sectorau gwasanaethau proffesiynol** i atal gwyngalchu arian: oherwydd y rôl y gall y sectorau hyn ei chwarae i helpu gweithredwyr llwgr i wyngalchu arian a diogelu enw da unigolion.[134]

134 FATF, FATF Recommendations, sydd ar gael yn: https://www.fatf-gafi.org/en/topics/fatf-recommendations.html

## Cyrff safonau rhyngwladol allweddol

Ceir amrywiaeth eang o safonau rhyngwladol sydd â'r nod o wrthsefyll llygredigaeth a gwyngalchu arian. O bwys penodol i'r strategaeth hon y mae safonau sy'n canolbwyntio ar atal mathau trawswladol o lygredigaeth a chyfyngu arnynt. Mae'r safonau rhyngwladol canlynol yn allweddol.

- **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Llygredigaeth (UNCAC),** sef yr unig offeryn gwrthlygredigaeth cyffredinol sy'n gyfreithiol gyfrwymol.[135] Mae'r Confensiwn yn cwmpasu pum prif faes: mesurau ataliol, troseddoli a gorfodi'r gyfraith, cydweithrediad rhyngwladol, adennill asedau, cymorth technegol a chyfnewid gwybodaeth.
- **Confensiwn Gwrthlygredigaeth y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd** sy'n gofyn i wledydd ymrwymo i droseddoli llwgrwobrwyo swyddogion cyhoeddus ttramor a chyflwyno mesurau eraill i ddwyn unigolion a chwmnïau i gyfrif yn effeithiol am lwgrwobrwyo tramor.[136]
- **Safonau'r Tasglu Gweithredu Ariannol (FATF)**, sy'n gofyn i wledydd roi mesurau AML/CT ar waith, gan gynnwys gofyn i sectorau ariannol ac anariannol o dan amgylchiadau penodol gynnal ymarfer diwydrwydd dyladwy ar gwsmeriaid a rhoi gwybod i'r awdurdodau am drafodiadau amheus.[137]

125. Er mwyn llwyddo i sicrhau bod safonau rhyngwladol allweddol yn cael eu diogelu, eu rhoi ar waith a'u gorfodi, byddwn yn canolbwyntio ar gryfhau **llais y byd ar y cyd**, **cyrff sy'n pennu safonau** a **phrosesau rhoi ar waith a gorfodi.**

# Llais ar y cyd

**Mae llais llywodraethau, cymdeithas sifil a'r rhai sy'n ymrwymedig i amddiffyn safonau gwrthlygredigaeth rhyngwladol ar y cyd yn cael ei gryfhau (Canlyniad 3.2a)**

126. Mae safonau rhyngwladol sydd â'r nod o wrthsefyll llygredigaeth a chyllid anghyfreithlon yn dod o dan bwysau cynyddol. Fodd bynnag, nid yw llais y gymuned ryngwladol yn y fforymau amlochrog hynny wedi bod yn ddigon unedig bob amser i amddiffyn a hyrwyddo'r gwaith o roi safonau gwrthlygredigaeth rhyngwladol ar waith yn ddigonol. Nid yw natur ddatblygol y bygythiad o lygredigaeth na'i berthnasedd i flaenoriaethau geowleidyddol dybryd wedi cael eu cydnabod yn llawn mewn fforymau rhyngwladol allweddol.

135 Swyddfa'r Cenhedloedd Unedig ar Gyffuriau a Throseddu, United Nations Convention Against Corruption, 2004, sydd ar gael yn: https://www.unodc.org/documents/brussels/UN_Convention_Against_Corruption.pdf
136 Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, Convention on Combating Bribery of Foreign Public Officials in International Business Transactions, sydd ar gael yn: https://www.oecd.org/content/dam/oecd/en/publications/reports/2011/03/convention-on-combating-bribery-of-foreign-public-officials-in-international-business-transactions_037f7856/2bfa620e-en.pdf/_jcr_content/renditions/original./2bfa620e-en.pdf
137 FATF, FATF Recommendations, sydd ar gael yn: https://www.fatf-gafi.org/en/topics/fatf-recommendations.html

127. Yn 2023, ymrwymodd arweinwyr y G7 i fabwysiadu dull cryfach a mwy unedig o orfodi rhwymedigaethau a safonau gwrthlygredigaeth rhyngwladol yn drylwyr.[138] Roedd hyn yn adeiladu ar ymrwymiad tebyg yn ystod Llywyddiaeth y DU ar y G7 yn 2021, a'r rhai a wnaed fel rhan o aelodaeth y DU o'r Bartneriaeth Llywodraeth Agored (OGP) i hyrwyddo tryloywder, atebolrwydd a chyfranogiad mewn llywodraeth. Mae'r DU yn cyd-gadeirio Tasglu Fframwaith Gweithredu'r OGP i wella rheolau a chanllawiau'r OGP a'r ffordd y mae'n cyfathrebu ynglŷn â hyblygrwydd Cynlluniau Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Llywodraeth Agored, gyda'r nod o wneud fframwaith gweithredu'r OGP yn haws i'w ddefnyddio ac yn haws i'w addasu i gyd-destunau cenedlaethol amrywiol.

128. Yn y blynyddoedd nesaf, bydd angen ymrwymiad pellach i wireddu'r uchelgais hon. Bydd angen i hyn gynnwys ymdrech ar y cyd gan y G7 i ddeall safbwyntiau gwledydd De'r Byd ac ymateb iddynt. Pan fydd y DU yn cynnal grwpiau amlochrog yn y dyfodol, bydd hyn yn cynnig cyfleoedd pwysig i ddatblygu safbwynt cryfach ar y cyd ynglŷn â safonau gwrthlygredigaeth ac i ddangos yr effaith go iawn pan fydd y safonau hynny yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol.

129. Ein huchelgais yw y bydd llais llywodraethau partner, cymdeithas sifil, ac eraill sy'n ymrwymedig i amddiffyn safonau gwrthlygredigaeth rhyngwladol ar y cyd, yn cael ei gryfhau. Byddwn yn llunio gweithgareddau a'u rhoi ar waith dros y pum mlynedd nesaf er mwyn gwireddu'r uchelgais hon, ac rydym wedi cytuno ar yr ymrwymiadau canlynol i ddechrau.

I. Cefnogi rôl y **Cenhedloedd Unedig** o ran mynd i'r afael â llygredigaeth drwy roi'r UNCAC ar waith yn effeithiol, gan weithio gyda nifer o bartneriaid i hyrwyddo ymdrechion i sicrhau mwy o dryloywder, atebolrwydd, a chynhwysiant yn y System Adolygu Gweithredu (JACU, y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu) (ymrwymiad â blaenoriaeth).

II. Cefnogi ymdrechion i ehangu a **chynyddu cyfranogiad mewn cyrff sy'n pennu safonau** megis y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, GRECO a FATF (Trysorlys EF, JACU, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu).

III. Defnyddio rôl y DU mewn cyrff anrhanbarthol megis y **G7, G20 a'r Bartneriaeth Llywodraeth Agored** i ddadlau dros ddiogelu a gorfodi safonau gwrthlygredigaeth byd-eang, a rhannu arferion da a phrofiad go iawn rhwng gwledydd (y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, JACU, Swyddfa'r Cabinet).

IV. Ymrwymo o'r newydd i amddiffyn a **hyrwyddo rôl rhanddeiliaid anllywodraethol**, gan gynnwys cymdeithas sifil, y sector busnes a'r byd academaidd i lunio dadleuon a pholisïau rhyngwladol (y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, JACU).

138 Datganiad Arweinwyr G7 Hiroshima, Mai 2023, sydd ar gael yn: https://www.mofa.go.jp/policy/economy/summit/hiroshima23/documents/pdf/Leaders_Communique_01_en.pdf

## Cyrff sy’n pennu safonau

**Mae cyrff sy’n pennu safonau rhyngwladol yn cael eu diogelu a’u grymuso i ddwyn gwledydd i gyfrif am gyflawni eu rhwymedigaethau (Canlyniad 3.2b)**

130. Nid yw safonau rhyngwladol i wrthsefyll llygredigaeth ac enillion llygredigaeth ond mor gadarn â’r cyrff sydd wedi cael mandad i oruchwylio’r broses o’u rhoi ar waith a’u gorfodi’n effeithiol. Mae’n hollbwysig sicrhau bod y cyrff perthnasol yn cael y cymorth, yr adnoddau, a’r gallu i gyflawni eu mandadau mewn ffordd gyson sy’n seiliedig ar risg, ochr yn ochr â gallu i ddatblygu eu fframweithiau yn unol â thystiolaeth a natur newidiol bygythiadau. Mae hyn yn gymwys yn benodol i Gonfensiwn Gwrthlygredigaeth y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, FATF a Grŵp y Gwladwriaethau yn erbyn Llygredigaeth (GRECO) fel y cyrff allweddol sydd â’r gallu i ddwyn gwledydd yn atebol yn gyhoeddus i safonau byd-eang allweddol. Mae hefyd yn cynnwys yr UNCAC fel yr unig offeryn gwrthlygredigaeth cyffredinol sy’n gyfreithiol gyfrwymol.

131. Ein huchelgais yw diogelu a grymuso cyrff sy’n pennu safonau rhyngwladol i gyflawni eu mandadau a dwyn llywodraethau i gyfrif am gyflawni eu rhwymedigaethau. Byddwn yn llunio gweithgareddau a’u rhoi ar waith dros y pum mlynedd nesaf er mwyn gwireddu’r uchelgais hon, ac rydym wedi cytuno ar yr ymrwymiadau canlynol i ddechrau.

    I. Sicrhau bod systemau atebolrwydd wedi’u cryfhau **FATF** i gyrraedd safonau FATF yn cael eu rhoi ar waith yn llawn ac yn gyson, a helpu gwledydd incwm isel a chanolig i roi safonau FATF ar waith (Trysorlys EF) (ymrwymiad â blaenoriaeth).

    II. Helpu **Gweithgor y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ar Lwgrwobrwyo** i gynyddu ei aelodaeth a hefyd gynnal ei effeithiolrwydd a’i hygrededd ar yr un pryd, a chryfhau systemau atal llwgrwobrwyo drwy chwarae rhan weithredol yng ngwerthusiadau, cenadaethau technegol, a chenadaethau gwlad y gweithgor (JACU, y Swyddfa Twyll Difrifol, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu) (ymrwymiad â blaenoriaeth).

    III. Gweithio gyda gwledydd yn **UNCAC** i hyrwyddo safonau allweddol, datblygu cynghreiriau amrywiol, a rhannu arferion gorau sy’n cael effeithiau go iawn, gan gynnwys drwy gynnal yr egwyddorion a nodwyd yn y datganiad ar y cyd a arweiniwyd gan y DU am y System Adolygu Gweithredu yn 2023 (JACU, y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu).

    IV. Rhoi cefnogaeth weithredol i **GRECO** er mwyn gwella safonau gwrthlygredigaeth ledled Ewrop a thu hwnt, gan gefnogi’r cylch gwerthuso ar lygredigaeth leol a chynyddu ei weithgarwch ymgysylltu y tu hwnt i Ewrop ac â gyda chymdeithas sifil, gan gyhoeddi argymhellion (y Weinyddiaeth Gyfiawnder).

## Mentrau a arweinir gan y DU

**Mae safonau rhyngwladol penodol yn cael eu hestyn neu eu gorfodi’n fwy effeithiol drwy fentrau wedi’u targedu dramor a arweinir gan y DU (Canlyniad 3.2c)**

132. Er mwyn gwneud cynnydd i estyn neu orfodi safonau rhyngwladol â blaenoriaeth, bydd angen cydweithredu â phartneriaid o'r un anian, er mwyn helpu i nodi a goresgyn rhwystrau neu dagfeydd sy'n eu hatal rhag cael eu rhoi ar waith. Bydd yn gofyn i system y DU fabwysiadu dull cydlynol a chydgysylltiedig o ymgysylltu ym mhob corff amlochrog, yn ogystal â sicrhau bod rhaglenni dwyochrog ac amlochrog dramor yn cyd-fynd â'i gilydd er mwyn mynd i'r afael â llygredigaeth a chyllid anghyfreithlon ar sail set o themâu y cytunir arnynt.

133. Bwriadwn wneud hyn drwy lunio a chyflwyno hyd at dair menter gan y DU ar unrhyw adeg benodol a fydd yn canolbwyntio ar roi elfennau penodol o'r pedair safon ryngwladol â blaenoriaeth a amlinellir yn y strategaeth hon ar waith neu eu gorfodi (gweler paragraff 124). Bydd terfynau amser penodol i bob un o'r mentrau hyn a byddant yn canolbwyntio ar amcanion mesuradwy. Byddant yn defnyddio holl weithgarwch ymgysylltu'r DU mewn cyrff amlochrog a chyrff sy'n pennu safonau, ynghyd â'r defnydd tactegol o gyllido rhaglenni pan fydd eu hangen a phan fyddant ar gael.

134. Disgwyliwn weithio'n agos gyda phartneriaid mewn cymdeithas sifil a lleisiau dylanwadol eraill dramor wrth lunio a chyflwyno'r mentrau hyn a arweinir gan y DU.

## Astudiaeth achos: Rhwydwaith Tryloywder Perchenogaeth Lesiannol Affrica (AfBOTN)



Mae AfBOTN yn dwyn ynghyd wledydd Affrica a phartneriaid rhyngwladol i gyflymu'r broses o roi cofrestrau o berchenogaeth lesiannol ar waith a'r defnydd effeithiol o'u data ledled Affrica.

Sefydlwyd y rhwydwaith gan y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu yn 2023, gan weithio mewn partneriaeth â Banc Datblygu Affrica ac mewn ymateb i ymrwymiad gan y G7 i hyrwyddo tryloywder o ran perchenogaeth lesiannol ledled Affrica. Mae AfBOTN yn rhwydwaith sy'n cael ei arwain gan yr aelodau, a'i gydgadeirio gan Lywodraeth y DU a Banc Datblygu Affrica, ac mae Open Ownership yn gweithredu fel ysgrifenyddiaeth. Mae gan AfBOTN 13 o aelodau, gan gynnwys Nigeria, Kenya a De Affrica, a 11 o sefydliadau partner rhyngwladol, gan gynnwys Undeb Affrica, Banc y Byd, y Gronfa Ariannol Ryngwladol a'r Bartneriaeth Llywodraeth Agored.

Fel menter sy'n cynnwys nifer o randdeiliaid ac sy'n cael ei harwain gan gymheiriaid mae AfBOTN yn enghraifft o sut i ymdrin â datblygu rhyngwladol yn seiliedig ar bartneriaeth. Drwy gysylltu ag awdurdodaethau cymheiriol a chymdogion rhanbarthol o'r un anian, mae'n caniatáu ar gyfer ffordd o ddiwygio er tryloywder sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr ac sy'n seiliedig ar anghenion ac amgylchiadau lleol. Mae rhwydweithiau rhanbarthol fel AfBOTN hefyd yn cynnig y posibilrwydd o fwy o gyfnewid data yn y rhanbarth, a thrwy egin bartneriaeth ag Undeb Affrica, mae'n helpu i roi lle canolog i bwysigrwydd tryloywder perchenogaeth lesiannol ar agenda bolisi ehangach ynglŷn â mynd i'r afael â llifau ariannol anghyfreithlon ledled Affrica.

135. Ein huchelgais yw y bydd safonau rhyngwladol penodol yn cael eu hestyn neu eu gorfodi'n fwy effeithiol drwy fentrau wedi'u targedu dramor a arweinir gan y DU. Er mwyn gwneud hynny, rydym wedi cytuno ar yr ymrwymiad canlynol.

   I. Llunio a chyflwyno **rhaglen dreigl o hyd at dair menter a arweinir gan y DU sy'n canolbwyntio ar safonau rhyngwladol penodol**, a ddatblygir ar y cyd â gwledydd o'r un anian a phartneriaid mewn cymdeithas sifil, ac a gyflwynir drwy weithgarwch ymgysylltu amlochrog a rhaglenni tramor y DU (y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, JACU, y Weinyddiaeth Gyfiawnder) (ymrwymiad â blaenoriaeth).

# Rhoi ar waith

# 4.1 : yn drawsbynciol

136. Bydd rhoi mentrau ar waith yn effeithiol yn hollbwysig er mwyn cael yr effaith yr hoffem ei chael drwy'r strategaeth hon. Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn canolbwyntio ar **dystiolaeth**, a **goruchwyliaeth a thryloywder**.

## Tystiolaeth

**Mae tystiolaeth ynglŷn â'r broblem ac ymateb y DU yn llywio prosesau gwneud penderfyniadau polisi a gweithredol (Canlyniad 4.1a)**

137. Mae heriau hirsefydlog i ddeall faint o lygredigaeth sydd a'i niweidiau, a hefyd asesu effeithiolrwydd ymateb y system, ac mae'r rhain yn effeithio ar bob un o bileri'r strategaeth hon.[139] Gan gydnabod hyn, mae'r DU wedi gwneud buddsoddiadau sylweddol i gryfhau'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer ei gwaith rhyngwladol a llunio'r agenda fyd-eang ar lygredigaeth. Mae hyn yn cynnwys buddsoddiadau yn y rhaglen Tystiolaeth Atal Llygredigaeth (ACE) o'r radd flaenaf a Chanolfan Adnoddau Atal Llygredigaeth U4.

138. O safbwynt domestig, mae cynnydd hefyd wedi cael ei wneud o ran deall maint a natur y llygredigaeth a wynebwyd yn yr amgylchedd busnes yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae potensial i dreialu dulliau gweithredu tebyg er mwyn deall llygredigaeth yn y sector cyhoeddus.[140] Fodd bynnag, er bod gwell dealltwriaeth o'r gwendidau posibl sy'n ein gwneud yn agored i lygredigaeth mewn cyd-destunau gwahanol, mae bylchau amlwg yn y dystiolaeth ynglŷn â'r graddau y camfanteisir ar y gwendidau domestig hyn. Yn yr un modd, nid yw dealltwriaeth o droseddwyr, yn enwedig yr hyn sy'n eu cymell y tu hwnt i fudd ariannol, yn ddatblygedig. Bydd yn allweddol gwella ein gwybodaeth am y llwybrau y mae'r rhai sy'n dal pŵer ymddiriedig yn eu dilyn i gamfanteisio arbi er mwyn nodi sut y camfanteisir ar wendidau yn ymarferol a llywio mesurau ataliol yn well.[141]

139. Mae heriau o ran data ar lygredigaeth a'n hymateb iddi yn gwneud y cyfyngiadau ehangach ynglŷn â thystiolaeth yn waeth. Gall llygredigaeth fod yn fodd i gyflawni troseddau difrifol eraill neu, yn aml, mae'n rhan o droseddau difrifol eraill. Ni roddir gwybod amdani bob tro neu rhoddir gwybod amdani fel math arall o drosedd (e.e. twyll), ac nid oes trosedd yn y DU sy'n ymwneud â llygredigaeth yn unig nac amcangyfrif ar wahân o lygredigaeth ym mhob rhan o'r llywodraeth. Mae'r materion hyn wedi atal y llywodraeth rhag monitro llygredigaeth yn effeithiol, fel y'i nodwyd gan y Swyddfa Archwilio

139 Prifysgol Sussex, Y Ganolfan er Astudio Llygredigaeth International approaches to recording corruption and monitoring intervention outcomes at the national level, sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/international-approaches-to-recording-and-monitoring-corruption

140 Y Swyddfa Gartref, Arolwg Troseddau Economaidd 2020, sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/ economic-crime-survey-2020/economic-crime-survey-2020 and Home Office, Economic Crime Survey 2024, available at https://www.gov.uk/government/publications/economic-crime-survey-2024

141 Gweler y Swyddfa Gartref a NECC, Economic Crime Areas of Research Interest, 2025, sydd ar gael yn: https://www.nationalcrimeagency.gov.uk/who-we-are/publications/755-economic-crime-areas-of-research-interest-ari-report-july-2025/file

Genedlaethol.[142] At hynny, mae data perthnasol ar orfodi wedi'u gwasgaru rhwng nifer o sefydliadau, yn cael eu storio mewn gwahanol fformatau, ac yn aml yn cael eu cofnodi mewn ffyrdd sy'n rhwystr i rannu a dadansoddi data yn effeithlon. Hyd yn oed pan fydd data yn bodoli, nid ydynt yn cael eu rhannu na'u dadansoddi'n gyson mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth drwy'r system gyfan. Er mwyn ymdrin â'r materion hyn bydd angen dull gweithredu hirdymor wedi'i dargedu, sy'n cyd-fynd â'r mesurau a nodir yn y Strategaeth arfaethedig ar Ddata Troseddau Economaidd, sydd i'w chyhoeddi yn 2026.

140. O ystyried yr heriau sy'n gysylltiedig â thystiolaeth a data ynglŷn â llygredigaeth, mae'n anodd asesu perfformiad yn gadarn. Byddwn yn mabwysiadu dull cymesur ac iteraidd o olrhain cynnydd drwy gydol cyfnod gweithredu'r strategaeth hon. Mae ein fframwaith canlyniadau ar lefel strategaeth (yn Atodiad B) yn amlinellu'r newid cyffredinol rydym yn anelu at ei sicrhau. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu hyn ymhellach ar lefel piler a maes drwy ddull gweithredu damcaniaeth newid, a byddwn yn defnyddio hyn i gytuno ar gynllun mesur â phartneriaid. Yn ogystal â gwella'r ffordd y cesglir data, byddwn yn defnyddio dangosyddion procsi, barn broffesiynol strwythuredig, a mesurau allbwn/gweithgarwch i asesu cynnydd. Bydd y dull gweithredu hwn hefyd yn helpu i nodi meysydd sy'n addas ar gyfer gwaith gwerthuso wedi'i dargedu'n well a bydd yn cyd-fynd â gwaith sydd eisoes wedi cael ei wneud ar gyfer ECP2.

141. Ein huchelgais yw y bydd tystiolaeth a gwybodaeth am y broblem ac ymateb y DU yn llywio prosesau gwneud penderfyniadau polisi a gweithredol. Byddwn yn defnyddio'r strategaeth hon i wella'r sylfaen dystiolaeth mewn ffyrdd diriaethol dros y pum mlynedd nesaf, gan olrhain y bygythiad o lygredigaeth mewn ffordd fwy strwythuredig i nodi bylchau mewn tystiolaeth a'u llenwi. Mae diffiniad polisi'r DU o lygredigaeth yn rhoi eglurder ynglŷn â chwmpas, a bydd yr ymrwymiadau yn yr adran hon yn helpu i nodi'r bylchau allweddol mewn tystiolaeth a chydgysylltu'r ymateb iddynt.[143] Byddwn yn llunio gweithgareddau i wireddu ein huchelgais a'u rhoi ar waith dros y pum mlynedd nesaf, ac rydym wedi cytuno ar yr ymrwymiadau canlynol i ddechrau.

I. Treialu **Hwb Ymchwil a Thystiolaeth Llygredigaeth** newydd (Hwb) i wella dealltwriaeth y system o broblem llygredigaeth a'n hymateb (JACU) (ymrwymiad â blaenoriaeth).

II. Canolbwyntio ymchwil i'r system ddadansoddol gyfan ar set o **fylchau mewn tystiolaeth â blaenoriaeth** y cytunir arnynt, a fydd yn cael eu hadolygu o leiaf unwaith y flwyddyn, gan ddefnyddio tystiolaeth berthnasol gan dimau dadansoddi, academyddion, a chymdeithas sifil (yr Hwb, y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, NECC).

III. **Nodi a mapio'r data presennol** sy'n ymwneud â blaenoriaethau o ran tystiolaeth a nodwyd drwy gydweithio rhwng yr Hwb a phartneriaid allweddol (yr Hwb, y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, y Swyddfa Twyll Difrifol, Heddlu Dinas Llundain ac Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus).

IV. Gwella dealltwriaeth o **effaith** llygredigaeth ar y DU drwy ymchwil wedi'i thargedu, gan gynnwys dadansoddiad niwed manwl o achosion o lygredigaeth yr ymchwiliwyd iddynt (yr Hwb, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, Heddlu Dinas Llundain, y Swyddfa Twyll Difrifol).

142 Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Tackling fraud and corruption against government, 2023, sydd ar gael yn: https://www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2023/03/tackling-fraud-and-corruption-against-government.pdf

143 Camfanteisio ar bŵer ymddiriedig er budd preifat sydd fel arfer yn torri cyfreithiau, rheoliadau, safonau uniondeb a/neu safonau ymddygiad proffesiynol. Gweler Atodiad A: Diffiniad polisi'r DU o lygredigaeth.

V. **Cydgrynhoi gwybodaeth systemau** yn gynnyrch unedig sy’n llywio’r broses o roi’r strategaeth hon ar waith, ac olrhain y broblem o ran llygredigaeth ar lefel maes a strategaeth, drwy ddatblygu a monitro dangosyddion allweddol (yr Hwb, y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu).

VI. Deall effeithiau ein **hymateb**, gyda fframwaith mesur cychwynnol y cytunir arno â phartneriaid o fewn chwe mis i gyhoeddi’r strategaeth hon, ac asesiadau annibynnol o gynnydd gan dimau cyflawni, gyda gwaith gwerthuso wedi’i dargedu lle y bo’n briodol (yr Hwb, JACU, y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu).

## Y Rhaglen Tystiolaeth Llygredigaeth (ACE)

Mae’r rhaglen ACE yn fuddsoddiad sylweddol gan y DU mewn ymchwil er budd y cyhoedd. Mae ACE yn cyflwyno ymchwil ymarferol ac yn llywio strategaethau, polisïau, gweithrediadau, a rhaglenni’n uniongyrchol i Lywodraeth y DU a thu hwnt.

Mae i’r rhaglen ACE dair elfen:

- Mae GI-ACE yn ymchwilio i gyllid anghyfreithlon, galluogwyr, llygredigaeth mewn mesurau brys, masnach ac achosion lle mae’r wladwriaeth wedi’i chipio[144]
- Mae SOAS-ACE yn ymchwilio i wrthlygredigaeth mewn seilwaith, pŵer, iechyd, addysg, buddsoddiadau o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, darparu gwasanaeth llywodraeth ddigidol a llygredigaeth wleidyddol.[145]
- Mae SOC-ACE yn ymchwilio i droseddau cyfundrefnol, cyllid anghyfreithlon, cleptocratiaeth a bygythiadau trawswladol[146]

Mae’r ymchwil hon yn cael effaith wirioneddol a byd-eang. Defnyddiodd ymchwil ACE ddata mawr i nodi arwyddion o lygredigaeth bosibl ym maes caffael ac fe’i mabwysiadwyd gan Uganda a Jamaica, ochr yn ochr â Banc y Byd, fel offeryn rheoli risg mewnol.[147] Mae hyn yn helpu i ddiogelu buddsoddiadau’r DU dramor. Mae manteision defnyddio data mewn ymdrechion i atal llygredigaeth yn cael eu hatgyfnerthu ymhellach gan waith GI-ACE lle y defnyddiwyd sawl set ddata i fapio llifau ariannol anghyfreithlon a thrwy hynny nodi lle y dylid targedu ymyriadau llygredigaeth.[148]

# Goruchwyliaeth a thryloywder


**Mae’r strategaeth yn cael ei rhoi ar waith mewn ffordd dryloyw ac effeithiol ym mhob rhan o’r llywodraeth (Canlyniad 4.1b)**

144 Gweler GI-ACE, https://giace.org
145 Gweler SOAS-ACE, https://ace.soas.ac.uk
146 Gweler SOC-ACE, https://www.socace-research.org.uk
147 Tystiolaeth Atal Llygredigaeth GI-ACE ynglŷn â Llywodraethu ac Uniondeb, Curbing corruption in procurement using ‘red flags’ risk indicators, sydd ar gael yn: https://giace.org/projects/procurement/
148 Tystiolaeth Atal Llygredigaeth GI-ACE ynglŷn â Llywodraethu ac Uniondeb, From Secrecy to Scrutiny: A New Map of Illicit Global Financial Networks and Regulation, 2024, sydd ar gael yn: https://giace.org/resources/from-secrecy-to-scrutiny-a-new-map-of-illicit-global-financial-networks-and-regulation/

142. Mae'r strategaeth yn eiddo i'r Swyddfa Gartref, y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu a Thrysorlys EF ar y cyd, a bydd JACU yn y Swyddfa Gartref yn cydgysylltu'r gwaith o'i rhoi ar waith. Y Gweinidog Diogelwch yw'r gweinidog arweiniol a fydd yn atebol am gyflawni'r strategaeth gyffredinol i Senedd y DU, gan weithio'n agos gyda chyd-weinidogion yn y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu a Thrysorlys EF. Bydd bwrdd llywio gweinidogol yn cyfarfod i bennu cyfeiriad a bod yn atebol am gyflawni. Caiff gweinidigion eu cynorthwyo gan yr Hyrwyddwr Gwrthlygredigaeth.

143. Mae'r strategaeth hon yn cynnwys nifer o dimau yn y llywodraeth ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn y dasg o'i chyflawni. Er mwyn sicrhau y caiff ei chyflawni mewn ffordd gydlynol, bydd bwrdd cyflawni ar lefel cyfarwyddwr yn cyfarfod yn rheolaidd, a bydd gweithgorau thematig yn goruchwylio'r broses gyflawni yn ôl yr angen. Bydd llywodraethu a arweinir gan swyddogion yn rhoi atebolrwydd i weinidogion, yn goruchwylio cynnydd a pherfformiad, yn ymdrin â risgiau cyflawni ac yn ymateb i'r bygythiad newidiol. Bydd y llywodraeth yn gweithredu'n gyson â'r broses gyfredol o roi ECP2 ar waith a threfniadau llywodraethu yn y dyfodol ar gyfer troseddau economaidd.

**Ffigur 4:**



144. Byddwn yn ceisio bod yn dryloyw ynglŷn â'r cynnydd rydym yn ei wneud i gyflawni'r ymrwymiadau, a'r newid cyffredinol rydym yn ei geisio drwy'r strategaeth hon. Mae egwyddorion tryloywder a goruchwyliaeth annibynnol yn rhedeg drwy'r ymrwymiadau mewn llawer o feysydd y strategaeth hon. Bwriadwn gyflawni'r strategaeth hon ar y cyd â phartneriaid allanol, ac rydym o'r farn bod cydweithio agos yn allweddol i'w rhoi ar waith yn llwyddiannus. Byddwn yn sefydlu grŵp cynghori allanol, a gadeirir gan yr Hyrwyddwr, er mwyn rhoi diweddariadau rheolaidd i bartneriaid mewn cymdeithas sifil, y byd academaidd a'r sector preifat, ynghyd â seneddwyr o'r Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Atal Llygredigaeth a Threthi Cyfrifol (APPG).

145. Ein huchelgais yw y bydd y strategaeth hon yn cael ei rhoi ar waith mewn ffordd dryloyw ac effeithiol ym mhob rhan o'r llywodraeth. Er mwyn gwneud hyn, rydym wedi cytuno ar yr ymrwymiadau canlynol.

I. **Rhoi diweddariadau rheolaidd i bartneriaid allanol** drwy'r Grŵp Ymgysylltu Allanol a arweinir gan yr Hyrwyddwr, gan gynnwys cymdeithas sifil, y byd academaidd, y sector preifat, a'r APPG (JACU) (ymrwymiad â blaenoriaeth).

II. Cyhoeddi **diweddariad blynyddol ar gynnydd** ar GOV.UK gyda chrynodeb lefel uchel o gynnydd a wnaed yn erbyn yr ymrwymiadau yn y strategaeth hon a rhoi datganiad gweinidogol ysgrifenedig i Senedd y DU (JACU) (ymrwymiad â blaenoriaeth).[149]

III. Cyhoeddi **dau asesiad manwl o gynnydd** ar ddiwedd blwyddyn tri (y canolbwynt) a blwyddyn pump (diwedd) o'r strategaeth hon, a'u cylchoedd gorchwyl y cytunir arnynt, ar GOV.UK (JACU) (ymrwymiad â blaenoriaeth).

IV. Rhoi **arweinyddiaeth ym mhob rhan o Lywodraeth EF** i sicrhau y caiff ymrwymiadau'r strategaeth eu cyflawni'n llwyddiannus a sicrhau goruchwyliaeth effeithiol gan weinidogion ar gynnydd yn erbyn y canlyniadau y cytunwyd arnynt, gan gynnwys drwy drefniadau llywodraethu traws-system effeithiol (JACU).

## Hyrwyddwr Gwrthlygredigaeth y Prif Weinidog

Ers 2006, mae Prif Weinidogion wedi penodi Hyrwyddwr Gwrthlygredigaeth i ddadlau dros gamau gweithredu gan y llywodraeth i fynd i'r afael â llygredigaeth.

Penododd y Prif Weinidog y Fanwres Margaret Hodge yn Hyrwyddwr Gwrthlygredigaeth am dymor y Senedd hon.[150]

Bydd yr Hyrwyddwr yn helpu gweinidogion i roi'r strategaeth ar waith, yn arwain gweithgarwch ymgysylltu â phartneriaid allanol a seneddwyr, a rhoi cymorth i weinidogion ar feysydd polisi penodol, gan gynnwys cefnogi'r broses o gyflawni gwaith rhyngwladol.

149 Gweler Atodiad C: Dangosfwrdd o ymrwymiadau.

150 Llywodraeth EF, New Anti-Corruption Champion and NCA funding as campaign against corruption steps up, 2024, sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/news/new-anti-corruption-champion-and-nca-funding-as-campaign-against-corruption-steps-up and Home Office, Prime Minister's Anti-Corruption Champion: terms of reference, 2024, sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/prime-ministers-anti-corruption-champion-terms-of-reference-and-letter-of-appointment/prime-ministers-anti-corruption-champion-terms-of-reference

# Atodiad A: Diffiniad polisi'r DU o lygredigaeth

## Diffiniad y DU o lygredigaeth

Llygredigaeth yw camddefnyddio pŵer ymddiriedig er budd preifat sydd fel arfer yn torri cyfreithiau, rheoliadau, safonau uniondeb a/neu safonau ymddygiad.

# Nodiadau esboniadol

At ddibenion y diffiniad hwn:

'Pŵer ymddiriedig' yw:

- y pŵer neu'r ddyletswydd a freinir mewn rôl ymddiriedig, sy'n cynnwys swydd gyhoeddus neu rolau yn y sector preifat a'r sector nid er elw (ond nad yw'n cynnwys lleoliadau domstig)
- mae'n cael ei ddal gan unigolyn neu sefydliad sy'n arfer pŵer disgresiwn mewn perthynas â pherson neu endid arall, neu lle y byddai camddefnyddio eu rôl yn tanseilio system o uniondeb

'Camfanteisio':

- yw arfer pŵer mewn ffordd amhriodol neu dorri dyletswyddau sy'n gysylltiedig â rôl ymddiriedig, naill ai drwy weithredu neu ddiffyg gweithredu
- nid oes rhaid iddo fod yn anghyfreithlon o reidrwydd i fod yn llygredigaeth a gall gynnwys torri rheoliadau, safonau uniondeb a/neu safonau ymddygiad proffesiynol
- gall hefyd gynnwys patrwm neu gydgrynhoad o weithgareddau sy'n gyfystyr â chamfanteisio ar y cyd

Mae 'budd preifat' yn cynnwys:

- enillion personol (ariannol ac anariannol) sy'n cronni i unigolyn/unigolion neu gydnabod personol.
- enillion pleidiol sy'n fuddiol i sefydliad, grŵp a ffefrir neu unigolyn
- osgoi colledion
- boddhad a geir drwy achosi niwed i eraill

Nid yw llygredigaeth:

- yn weithgareddwch nac yn benderfyniadau y tybir eu bod yn annoeth dim ond o edrych yn ôl
- yn weithgarwch sy'n torri'r gyfraith, rheoliadau, safonau uniondeb a/neu safonau ymddygiad proffesiynol nad ydynt yn gysylltiedig â'r pŵer ymddiriedig

- yn weithgarwch yr ymgymerir ag ef er cyfleustra yn unig nac yn ddefnydd aneffeithlon/aneffeithiol o'r pŵer hwnnw

# Cefndir

1. Mae JACU, ar y cyd â Chanolfan Astudio Llygredigaeth Prifysgol Sussex, wedi datblygu'r diffiniad uchod o lygredigaeth. Mae wedi cael ei brofi yn Llywodraeth y DU ac ymhlith rhanddeiliaid allanol. Mater cymhleth yw llygredigaeth, a bydd unrhyw ddiffiniad o lygredigaeth o reidrwydd yn dibynnu ar nodiadau esboniadol er mwyn lleihau unrhyw amrywiadau wrth ei ddehongli.
2. Nid oes unrhyw gonsensws rhyngwladol ynglŷn â'r diffiniad o lygredigaeth, ond mae pennu diffiniad polisi cyffredin ar gyfer Llywodraeth y DU yn cefnogi:
   - gwaith datblygu polisi – drwy bennu cwmpas y strategaeth ac ymdrin â mannau llwyd ynglŷn â'r hyn sydd/nad yw'n gyfystyr â llygredigaeth.
   - gwaith casglu tystiolaeth – drwy roi paramedrau i fesur llygredigaeth a, lle y bo'n berthnasol, ei dadgyfuno oddi wrth yr ystadegau ehangach ynglŷn â throseddau a chamymddwyn
3. Fel diffiniad polisi, ni fwriedir iddo gael ei gymhwyso'n gyfreithiol o gwbl, ac ni fydd iddo sail statudol ac ni fydd yn creu unrhyw drosedd newydd. Bydd diffiniad polisi o anghenraid yn ehangach nag unrhyw ddiffiniad cyfreithiol, gan y gall ymddygiad fod yn llwgr hyd yn oed os nad yw'n torri unrhyw cyfreithiau na rheolau'n benodol.

# Egwyddorion craidd

4. Rydym wedi cytuno ar gyfres o egwyddorion craidd sy'n sail i'r diffiniad:

   I. **Nid trosedd yw pob gweithred lwgr**
   Mae'n bosibl y bydd gweithred yn torri safonau rheoleiddiol neu uniondeb, neu godau ymddygiad yn y gweithle, ac yn yr achos hwnnw efallai mai camau disgyblu fyddai'r ymateb mwyaf priodol.

   II. **Nid yw llygredigaeth wedi'i chyfyngu i'r sector cyhoeddus**
   Gall unrhyw achos o gamddefnyddio rôl, pŵer, awdurdod neu gyfrifoldeb fod yn achos posibl o lygredigaeth, boed hynny yn y sector cyhoeddus, y sector preifat neu'r sector gwirfoddol. Fodd bynnag, mae'n bosibl nad ydym yn cynnwys lleoliadau cwbl bersonol: nid yw gwaith gwrthlygredigaeth yn cwmpasu sefyllfaoedd domestig.

   III. **Nid oes angen i lygredigaeth fod o fudd uniongyrchol i'r gweithredwr llwgr**
   Gall llygredigaeth fod o fudd i gyfaill, perthynas neu rywun arall â chysylltiad â'r unigolyn sy'n cyflawni'r llygredigaeth, neu gall fod o fudd i sefydliad, plaid wleidyddol, gwladwriaeth neu hyd yn oed ideoleg.

   IV. **Nid oes angen i fuddiannau llygredigaeth fod yn ariannol**
   Mae gweithredoedd llwgr yn aml yn cael eu cyflawni oherwydd budd ariannol disgwyliedig, ond gallent hefyd gael eu cyflawni am resymau eraill, er enghraifft pleser rhywiol neu fudd gwleidyddol. Gallant hefyd gael eu cyflawni i osgoi colled, megis colli enw da.

   V. **Mae angen i gamymddwyn fod yn gysylltiedig â'r pŵer ymddiriedig**
   Er enghraifft, os bydd swyddog sy'n dal pŵer ymddiriedig wedi torri'r gyfraith drwy drosedd traffig ni fydd hyn ar ei ben ei hun yn weithred lwgr. Os bydd y swyddog

hwnnw wedyn yn ceisio defnyddio ei bŵer ymddiriedig i osgoi cael ei ddwyn i gyfrif, byddai hyn yn gyfystyr â llygredigaeth.

VI. **Nid yw anghytuno â gweithred yn ei gwneud yn llwgr**
Efallai na fydd rhywun yn cytuno â gweithred deiliad y swydd; efallai y bydd yn teimlo ei bod yn aneffeithlon, yn aneffeithiol neu'n annoeth ond nid yw hyn o anghenraid yn golygu ei bod yn llwgr.

# Atodiad B: Canlyniadau'r strategaeth

## Crynodeb o ymateb gwrthlygredigaeth y DU

| Cefnogi twf | Cryfhau diogelwch | Diogelu democratiaeth |
|---|---|---|
| **Lleihau'r niwed a achosir o ganlyniad i lygredigaeth i dwf, diogelwch, a democratiaeth yn y DU a buddiannau'r DU dramor** | | |
| **Gwrthsefyll gweithredwyr llwgr a'u harian yn y DU a thramor** | **Mynd i'r afael â gwendidau yn y DU sy'n ei gwneud yn agored i lygredigaeth** | **Meithrin gallu'r byd i wrthsefyll llygredigaeth** |
| **Cyfiawnder a atebolrwydd** Mae gweithredwyr llwgr yn cael eu dwyn i gyfrif am eu gweithredoedd yn y DU a thramor (maes 1.1) | **Gwleidyddiaeth a llywodraeth** Ailennyn ymddiriedaeth drwy safonau uchel a diogelu rhag camfanteisio gan weithredwyr llwgr (maes 2.1) | **Bartneriaethau rhyngwladol** Bartneriaethau rhyngwladol sbarduno dull rhwydweithiol effeithiol o ymdrin â llygredigaeth (maes 3.1) |
| **Tarfu ar fynediad** Rydym yn tarfu ar weithredwyr llwgr, gan gynnwys cleptocratiaid, ac yn eu hatal rhag cael mynediad i gymdeithas neu sefydliadau'r DU a chamfanteisio arnynt (maes 1.2) | **Sector cyhoeddus** Mae cyrff yn y sector cyhoeddus yn y DU yn atal llygredigaeth yn effeithiol (maes 2.2) | **Safonau rhyngwladol** Mae safonau gwrthlygredigaeth rhyngwladol allweddol yn cael eu diogelu, eu rhoi ar waith a'u gorfodi'n effeithiol (maes 3.2) |
| **Arian llwgr** Ni all gweithredwyr llwgr gelu arian anghyfreithlon yn y DU na thramor yn hawdd, na chael budd ohono (maes 1.3) | **Uniondeb busnesau** Mae busnesau ym Mhrydain yn gweithredu ym marchnadoedd y DU a marchnadoedd tramor (maes 2.3) | |

# Fframwaith canlyniadau

**Amcan: Lleihau'r niwed a achosir o ganlyniad i lygredigaeth i dwf, diogelwch, a democratiaeth yn y DU a buddiannau'r DU dramor**

## Piler 1: Gwrthsefyll gweithredwyr llwgr a'u harian yn y DU a thramor

**1.1 Cyfiawnder ac atebolrwydd**
Mae gweithredwyr llwgr yn cael eu dwyn i gyfrif am eu gweithredoedd yn y DU a thramor

1.1 a Bydd gweithgarwch llwgr posibl yn cael ei **nodi** ar gam cynnar, a bydd **atgyfeiriadau** yn cael eu brysbennu a'u cydgysylltu'n effeithiol gam asiantaethau gorfodi

1.1 b Bydd asiantaethau **gorfodi** yn ymchwilio i weithredwyr llwgr yn effeithiol er mwyn atal niwed i ddioddefwyr, y DU a'i buddiannau dramor

1.1 c Bydd gweithredwyr llwgr yn cael eu dwyn gerbron **llys barn** mewn modd cymesur ac amserol

**1.2 Tarfu ar fynediad**
Rydym yn tarfu ar weithredwyr llwgr, gan gynnwys cleptocratiaid, ac yn eu hatal rhag cael mynediad i gymdeithas neu sefydliadau'r DU neu gamfanteisio arnynt

1.2 a Mae elitiau llwgr yn cael eu hatal rhag croesi **ffiniau**'r DU

1.2 b Mae **sefydliadau**'r DU yn cael eu diogelu rhag camfanteisio gan elitiau llwgr

1.2 c Mae ymateb y DU i droseddau ariannol, gan gynnwys **deddfwriaeth**, yn barod i ymateb i'r bygythiad sy'n deillio o gleptocratiaeth

**1.3 Arian llwgr**
Nid yw gweithredwyr llwgr yn gallu celu arian anghyfreithlon yn hawdd yn y DU na thramor na chael budd ohono

1.3 a Mae cyfleoedd i gelu arian llwgr drwy strwythurau **perchenogaeth cymhleth** yn cael eu lleihau'n sylweddol

1.3 b Mae **asedau** yn cael eu hadennill a'u defnyddio i leihau niweidiau llygredigaeth dramor

1.3 c Rydym yn tarfu ar **alluogwyr proffesiynol** sy'n cefnogi gweithredwyr llwgr ac yn eu dwyn i gyfrif

### Trawsbynciol

**4.1a Tystiolaeth**
Mae tystiolaeth ynglŷn â'r broblem ac ymateb y DU yn llywio prosesau gwneud penderfyniadau polisi a gweithredol

**4.1b Goruchwyliaeth a thryloywder**
Mae'r strategaeth yn cael ei rhoi ar waith mewn ffordd dryloyw ac effeithiol ym mhob rhan o'r llywodraeth

**Amcan: Lleihau'r niwed a achosir o ganlyniad i lygredigaeth i dwf, diogelwch, a democratiaeth yn y DU a buddiannau'r DU dramor**

## Piler 2: Mynd i'r afael â gwendidau yn y DU sy'n ei gwneud yn agored i lygredigaeth

**2.1 Gwleidyddiaeth a llywodraeth**
Ailennyn ymdddiriedaeth drwy safonau uchel a diogelu rhag camfanteisio gan weithredwyr llwgr

2.1 a Mae safonau uchel mewn bywyd cyhoeddus yn cael eu hadfer

2.1 b Mae mesurau yn diogelu rhag gweithredwyr llwgr ac yn eu hatal rhag camfanteisio ar fframwaith cyllido gwleidyddol y DU

**2.2 Y sector cyhoeddus**
Mae cyrff y sector cyhoeddus yn y DU yn atal llygredigaeth yn effeithiol

2.2 a mae risgiau o lygredigaeth mewn **llywodraeth leol** yn cael eu nodi ac yr ymdrinnir â nhw

2.2 b Mae unigolion llwgr **o'r tu mewn** yn cael eu hadnabod yn effeithiol a'u hatal rhag gweithio mewn cyrff risg uchel yn y sector cyhoeddus

2.2 c Mae risgiau o lygredigaeth ym maes caffael yn y sector cyhoeddus yn cael eu lliniaru ac ymdrinnir â nhw

2.2 d Mae **arweinwyr a swyddogion** yn y sector cyhoeddus yn mynd ati'n rhagweithiol i nodi risgiau o lygredigaeth a gweithredu arnynt

**2.3 Uniondeb busnesau**
Mae busnesau o Brydain yn gweithredu gydag uniondeb ym marchnadoedd y DU a thramor

2.3 a Mae **busnesau** o Brydain yn gallu nodi risgiau o lwgrwobrwyo a llygredigaeth yn y DU a thramor a gweithredu arnynt

2.3 b Mae'r risgiau o lwgrwobrwyo a llygredigaeth a wynebir gan fusnesau o Brydain mewn **marchnadoedd tramor** risg uchel yn cael eu lliniaru

### Trawsbynciol

**4.1a Tystiolaeth**
Mae tystiolaeth ynglŷn â'r broblem ac ymateb y DU yn llywio prosesau gwneud penderfyniadau polisi a gweithredol

**4.1b Goruchwyliaeth a thryloywder**
Mae'r strategaeth yn cael ei rhoi ar waith mewn ffordd dryloyw ac effeithiol ym mhob rhan o'r llywodraeth

**Amcan: Lleihau'r niwed a achosir o ganlyniad i lygredigaeth i dwf, diogelwch, a democratiaeth yn y DU a buddiannau'r DU dramor**

# Piler 3: Meithrin gallu'r byd i wrthsefyll llygredigaeth

**3.1 Partneriaethau rhyngwladol**

Mae partneriaethau rhyngwladol yn sbarduno dull rhwydweithiol effeithiol o ymdrin â llygredigaeth

3.1 a Mae **cynghreiriau rhyngwladol** i wrthsefyll llygredigaeth a chyllid anghyfreithlon yn cael eu cryfhau gyda chymorth y DU

3.1 b Mae **niweidiau** i ddatblygu o ganlyniad i lygredigaeth a chyllid anghyfreithlon yn cael eu lleihau drwy gymorth technegol, eiriolaeth ac ymgysylltu'r DU

3.1 c Mae **cymdeithas sifil, newyddiaduraeth ymchwiliol a sefydliadau democrataidd** yn cael eu cefnogi a'u cryfhau i amlygu llygredigaeth a dwyn gweithredwyr llwgr i gyfrif

**3.2 Safonau rhyngwladol**

Mae safonau gwrthlygredigaeth rhyngwladol allweddol yn cael eu diogelu, eu rhoi ar waith a'u gorfodi'n effeithiol

3.2 a Mae **llais** llywodraethau, cymdeithas sifil a'r rhai sy'n ymrwymedig i amddiffyn safonau gwrthlygredigaeth rhyngwladol **ar y cyd** yn cael ei gryfhau

3.2 b Mae **cyrff sy'n pennu safonau** rhyngwladol yn cael eu diogelu a'u grymuso i ddwyn gwledydd i gyfrif am gyflawni eu rhwymedigaethau

3.2 c Mae safonau rhyngwladol penodol yn cael eu hestyn neu eu gorfodi'n fwy effeithiol drwy **fentrau** wedi'u targedu dramor **a arweinir gan y DU**

## Trawsbynciol

**4.1a Tystiolaeth**

Mae tystiolaeth ynglŷn â'r broblem ac ymateb y DU yn llywio prosesau gwneud penderfyniadau polisi a gweithredol

**4.1b Goruchwyliaeth a thryloywder**

Mae'r strategaeth yn cael ei rhoi ar waith mewn ffordd dryloyw ac effeithiol ym mhob rhan o'r llywodraeth

# Atodiad C: Crynodeb o'r ymrwymiadau

| 1.1 Cyfiawnder ac atebolrwydd | Rhif Adnabod | Ymrwymiad y Strategaeth Wrthlygredigaeth | Blaenoriaeth | Adrannau arweiniol | Dyddiad gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canlyniad** | | | | | |
| **Proses Nodi ac atgyfeirio (Canlyniad 1.1a)** | **1.1.1** | Adolygu'r system gyfredol o **roi gwybod am achosion posibl o lygredigaeth** yn y DU i nodi ffyrdd o wneud hyn yn haws ac mewn ffordd fwy cydgysylltiedig, gan gynnwys mwy o gysondeb â'r systemau presennol ar gyfer atgyfeirio troseddau economaidd | Blaenoriaeth | JACU | 2026 |
| | **1.1.2** | **Ehangu tŷ clirio Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth y Ganolfan Troseddau Economaidd Genedlaethol (NECC)** i gynnig proses gadarn i gael gwared ar wrthdaro a goruchwyliaeth dactegol o'r achosion mwyaf arwyddocaol o lygredigaeth yn y DU, gan gynnwys un ffordd o sgorio risg, cofrestr o achosion a chyflwyno adroddiadau ar achosion bob chwe mis | Blaenoriaeth | NECC, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, JACU | 2026 |
| | **1.1.3** | Ystyried canfyddiadau'r Adolygiad Annibynnol o Ddatgelu a Throseddau Twyll (rhan dau) sy'n cynnwys **rhoi cymhellion i chwythwyr chwiban mewn troseddau economaidd**, ac asesu dichonoldeb cyflwyno cynlluniau cymhellion ariannol a chymorth i unigolion roi gwybod am droseddau economaidd | Blaenoriaeth | Y Swyddfa Gartref, JACU, Y Swyddfa Twyll Difrifol, Trysorlys EF, Y | 2026 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, yr Adran Fusnes a Masnach, Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus | |
| | **1.1.4** | Ystyried cyfleoedd i ddiwygio'r ffordd y mae'r **DU yn ymdrin â chwythu'r chwiban** yng nghyd-destun cyflogaeth. | Blaenoriaeth | Yr Adran Fusnes a Masnach | 2027 |

| 1.1 Cyfiawnder ac atebolrwydd | Rhif Adnabod | Ymrwymiad y Strategaeth Wrthlygredigaeth | Blaenoriaeth | Adrannau arweiniol | Dyddiad gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canlyniad** | | | | | |
| **Gorfodi (Canlyniad 1.1b)** | **1.1.5** | Ehangu'r DCU i ymchwilio i achosion cenedlaethol a rhanbarthol o lygredigaeth yn y DU, gan ganolbwyntio ar sectorau allweddol sy'n wynebu risg, a chefnogi achosion yr Unedau Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol a heddluoedd lleol | Blaenoriaeth | JACU, Heddlu Dinas Llundain | 2027 |
| | **1.1.6** | Parhau i gefnogi **ICU** yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol a chryfhau cydweithrediad â gwledydd partner yr uned ar ymchwiliadau i wella tystiolaeth | Blaenoriaeth | Y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol | Yn barhaus |
| | **1.1.7** | Parhau i gefnogi'r **IACCC** fel y bydd mwy o asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn y DU yn ymaelodi ac y gall godi ei phroffil mewn fforymau rhyngwladol, a chael mwy o adnoddau ac aelodau o wledydd eraill | Blaenoriaeth | Y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol | Yn barhaus |
| | **1.1.8** | Yng nghyd-destun yr Adolygiad o Wariant 2025, **ystyried y dirwedd gyllido** gyda'r nod o gryfhau gweithgarwch gorfodi ar gyfer troseddau economaidd | Blaenoriaeth | Trysorlys EF, y Swyddfa Gartref | 2026 |
| | **1.1.9** | Cyflymu ymchwiliadau'r Swyddfa Twyll Difrifol, drwy broses ymchwilio fwy effeithlon a'r defnydd o **ddeallusrwydd artiffisial a dysgu peirianyddol**, a rhannu gwersi ehangach a ddysgwyd y gellid eu mabwysiadu a'u hintegreiddio drwy'r system gyfan. | Blaenoriaeth | Y Swyddfa Twyll Difrifol | Yn barhaus |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **1.1.10** | Treialu prototeip ar gyfer **cynorthwyydd ymchwilio llygredigaeth â deallusrwydd artiffisial** er mwyn gwella cymorth ar gyfer cyflawni gweithredol yn Unedau Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol a heddluoedd lleol ar achosion lleol o lygredigaeth | | JACU, Heddlu Dinas Llundain, y Coleg Plismona, Unedau Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol | 2027 |

| **1.1 Cyfiawnder ac atebolrwydd** | **Rhif Adnabod** | **Ymrwymiad y Strategaeth Wrthlygredigaeth** | **Blaenoriaeth** | **Adrannau arweiniol** | **Dyddiad gweithredu** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canlyniad** | | | | | |
| **Gorfodi (Canlyniad 1.1b)** | **1.1.11** | Cydgysylltu **gweithgarwch cyfathrebu ym maes gorfodi'r gyfraith** i godi ymwybyddiaeth ymhlith unigolion a diwydiant er mwyn diogelu rhag risgiau o lygredigaeth yn y dyfodol | | NECC | Yn barhaus |
| | **1.1.12** | Datblygu pecyn hyfforddiant a chymorth i wledydd incwm isel ar ddefnyddio adnoddau **cydweithredu rhyngwladol** mewn achosion gwrthlygredigaeth | | Y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, UKCA | 2028 |
| | **1.1.13** | Cyflwyno'r **tasglu erlyniadol gwrthlygredigaeth rhyngwladol newydd** i ddatblygu gwell partneriaeth weithredol rhwng y Swyddfa Twyll Difrifol a'i phartneriaid rhyngwladol allweddol | | Y Swyddfa Twyll Difrifol | 2026 |
| | **1.1.14** | Mynd ati i orfodi'n gryfach drwy **Uned Orfodi Beilot (PSFA) Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus** drwy ymchwilio i dwyll yn y sector cyhoeddus ar ran awdurdodau cyhoeddus ac atgyfeirio achosion o lwgrwobrwyo a llygredigaeth at asiantaethau perthnasol, yn dddarostyngedig i'r pwerau a roddwyd o dan y Bil Twyll, Gwall ac Adennill Awdurdodau Cyhoeddus | | Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus | Yn barhaus |

| 1.1 Cyfiawnder ac atebolrwydd | Rhif Adnabod | Ymrwymiad y Strategaeth Wrthlygredigaeth | Blaenoriaeth | Adrannau arweiniol | Dyddiad gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canlyniad** | | | | | |
| **Cyfiawnder (Canlyniad 1.1c)** | **1.1.15** | Yn dibynnu ar ymateb y llywodraeth i'r Adolygiad Annibynnol o Ddatgelu a Throseddau Twyll 'Disclosure in the Digital Age', byddwn yn rhoi'r argymhellion y cytunwyd arnynt ar waith, yn amodol ar gyllid, er mwyn sicrhau bod y **gyfundrefn ddatgelu** yn hwyluso yn hytrach nag yn llesteirio cyfiawnder cyflym, gan gynnwys mewn achosion o lygredigaeth | Blaenoriaeth | Y Swyddfa Gartref, Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol, y Weinyddiaeth Gyfiawnder | 2029 |
| | **1.1.16** | Cwmpasu a lansio **adolygiad o'r dechrau i'r diwedd o achosion o lwgrwobrwyo** sydd wedi dod i ben, er mwyn nodi rhwystrau cyffredin i ddatrys achosion, gan gynnwys adolygu gofynion o ran cydsyniad personol | | JACU, y Swyddfa Twyll Difrifol | 2027 |
| | **1.1.17** | Yn unol ag argymhellion Comisiwn y Gyfraith, byddwn yn bwrw ati (drwy'r Bil Swydd Gyhoeddus (Atebolrwydd) i ddiddymu'r drosedd cyfraith gyffredin bresennol o **Gamymddwyn mewn Swydd Gyhoeddus** ac, yn ei lle, gyflwyno dwy drosedd statudol newydd, sef tor dyletswydd mewn swydd gyhoeddus a gweithredoedd difrifol amhriodol mewn swydd gyhoeddus | | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder | 2026 |

| 1.2 Tarfu ar fynediad | Rhif Adnabod | Ymrwymiad y Strategaeth Wrthlygredigaeth | Blaenoriaeth | Adrannau arweiniol | Dyddiad gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canlyniad** | | | | | |
| **Ffiniau (Canlyniad 1.2a)** | **1.2.1** | Datblygu gwell gallu gweithredol i **darfu ar elitiau llwgr a'r rhai sy'n eu galluogi a'u hatal rhag dod i'r DU**, drwy integreiddio a gwella'r ymateb ar y ffin fel ein llinell amddiffyn gyntaf a chynyddu adnoddau timau mewnfudo yn y Swyddfa Gartref | Blaenoriaeth | Y Swyddfa Gartref | 2027 |
| | **1.2.2** | Parhau i **fynd i'r afael â chamddefnyddio preswyliaeth neu ddinasyddiaeth drwy gynlluniau buddsoddi**, a allai gynnwys cyflwyno gofynion fisa pan fo angen, a thrwy waith ymgysylltu rhyngwladol i fyny'r gadwyn i leihau'r risg o gyllid anghyfreithlon | | Y Swyddfa Gartref | Yn barhaus |
| | **1.2.3** | Ystyried **mesurau mewnfudo ychwanegol** i dargedu elitiau llwgr a'r rhai sy'n eu galluogi, ar sail gwarchod diogelwch gwladol a gwrthsefyll llygredigaeth | | Y Swyddfa Gartref | 2025 |
| **Sefydliadau (Canlyniad 1.2b)** | **1.2.4** | Rhoi'r **mesurau SLAPP** yn Neddf Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol 2023 mewn perthynas â throseddau economaidd ar waith (y Weinyddiaeth Gyfiawnder) (ymrwymiad â blaenoriaeth | Blaenoriaeth | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder | 2025 |
| | **1.2.5** | Ystyried, ar sail y dystiolaeth ehangach sydd ar gael ynglŷn â SLAPPs, sut i fynd i'r afael â **phob SLAPP yn gynhwysfawr** yn y dyfodol | Blaenoriaeth | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder | 2029 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **1.2.6** | Annog **sefydliadau cenedlaethol**, gan gynnwys sefydliadau diwylliannol a dinesig, i gryfhau eu gallu i wrthsefyll llygredigaeth a risgiau cyllid anghyfreithlon o roddion gwerthfawr | Blaenoriaeth | Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, y Swyddfa Gartref, yr Adran Addysg | Yn barhaus |

| 1.2 Tarfu ar fynediad | Rhif Adnabod | Ymrwymiad y Strategaeth Wrthlygredigaeth | Blaenoriaeth | Adrannau arweiniol | Dyddiad gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canlyniad** | | | | | |
| **Sefydliadau (Canlyniad 1.2b)** | **1.2.7** | Cefnogi'r **Rheoleiddiwr Pêl-droed Annibynnol** yn y gwaith o gryfhau ei alluoedd ym maes llygredigaeth a chyllid anghyfreithlon, gan gynnwys drwy wella cysylltiadau'r rheoleiddiwr â gorfodi'r gyfraith | Blaenoriaeth | Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, JACU | 2027 |
| | **1.2.8** | Codi **ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth** o fygythiad llygredigaeth mewn chwaraeon **yn system gorfodi'r gyfraith y DU** | | JACU | 2030 |
| | **1.2.9** | Ymgysylltu â chyrff a phroffesiynau ym maes pêl-droed i hyrwyddo **safonau ymddygiad a chydymffurfio uwch** | | Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, JACU | 2030 |
| **Deddfwriaeth (Canlyniad 1.2c)** | **1.2.10** | **Adolygu effeithiolrwydd ymdrechion presennol y DU i wrthsefyll cleptocratiaeth**, gan gynnwys ein hymateb i droseddau ariannol o ddeddfwriaeth i orfodi, a'r defnydd o sancsiynau. Bydd unrhyw argymhellion yn cael eu hystyried drwy'r sianeli priodol | Blaenoriaeth | Y Swyddfa Gartref, Trysorlys EF, y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu | 2028 |

| 1.3<br>**Arian llwgr** | **Rhif Adnabod** | **Ymrwymiad y Strategaeth Wrthlygredigaeth** | **Blaenoriaeth** | **Adrannau arweiniol** | **Dyddiad gweithredu** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canlyniad** | | | | | |
| **Tryloywder perchenogaeth (Canlyniad 1.3a)** | **1.3.1** | Parhau i **weithio gyda Thiriogaethau Dibynnol y Goron a'r Tiriogaethau Tramor i wella tryloywder perchenogaeth lesiannol**, gan gynnwys rhoi cofrestrau ar waith sy'n cynnwys mynediad buddiant dilys eang a chynhwysol yn unol â disgwyliadau'r DU, fel cam dros dro i gyflwyno cofrestrau cyhoeddus. Mae'r DU yn disgwyl y bydd hyn yn cael ei gyflawni yn unol â'r ymrwymiadau a wnaed yng Nghyd-gyngor y Gweinidogion ym mis Tachwedd 2024 ar gyfer y Tiriogaethau Tramor a Thiriogaethau Dibynnol y Goron, a bydd y broses weithredu yn cyd-fynd â therfyn amser yr UE, sef Gorffennaf 2026 | Blaenoriaeth | Y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, JACU. | 2026 |
| | **1.3.2** | Bydd yr Hyrwyddwr Gwrthlygredigaeth yn arwain **adolygiad** cynhwysfawr seiliedig ar dystiolaeth o **berchenogaeth asedau** yn y DU **ar ran y llywodraeth** er mwyn nodi a oes unrhyw wendidau a bylchau, gan weithio gydag asiantaethau gorfodi'r gyfraith ac asiantaethau eraill i ystyried sut i wella'r gallu i ryngweithredu a defnyddio data | Blaenoriaeth | Y Swyddfa Gartref | 2026 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **1.3.3** | Datblygu **sylfaen dystiolaeth gadarn** ar y defnydd o ddata ar berchenogaeth lesiannol, y tu hwnt i atal gwyngalchu arian a chyllido gwrthderfysgaeth, ar y cyd â sefydliadau sy’n cynrychioli busnesau, cymdeithas sifil a sefydliadau amlochrog, er mwyn meithrin amgylchedd busnes yr ymddiriedir ynddo, rhoi hwb i hyder buddsoddwyr a sbarduno twf economaidd cynaliadwy | Blaenoriaeth | Y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, yr Adran Fusnes a Masnach | Yn barhaus |

| 1.3<br>Arian llwgr | Rhif Adnabod | Ymrwymiad y Strategaeth Wrthlygredigaeth | Blaenoriaeth | Adrannau arweiniol | Dyddiad gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canlyniad** | | | | | |
| **Tryloywder perchenogaeth (Canlyniad 1.3a)** | **1.3.4** | Gwella **mynediad asiantaethau gorfodi'r gyfraith** ac awdurdodau cymwys perthnasol eraill **yn y DU** at wybodaeth am berchenogaeth lesiannol endidau tramor drwy ddatblygu cytundebau ar gyfnewid gwybodaeth am berchenogaeth lesiannol yn amserol ac yn effeithiol rhwng y DU ac awdurdodaethau rhyngwladol allweddol | Blaenoriaeth | JACU | 2027 |
| | **1.3.5** | Gweithio'n agosach gyda **phartneriaid rhyngwladol** er mwyn cefnogi mynediad ehangach at ddata ar berchenogaeth lesiannol, yn ddelfrydol drwy gofrestrau cyhoeddus o berchenogaeth cwmnïau a chofrestrau canolog o berchenogaeth ymddiriedolaethau, a gwell defnydd o ddata o ansawdd drwy gynyddu'r defnydd o'r Safon Data Perchenogaeth Lesiannol | | Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu | Yn barhaus |
| | **1.3.6** | Cynnig cymorth **technegol** sydd wedi'i deilwra ac wedi'i arwain gan arbenigwyr i helpu awdurdodaethau i adeiladau fframweithiau perchenogaeth lesiannol cryfach a lleihau gwendidau sy'n eu gwneud yn agored i arian anghyfreithlon a llygredigaeth | | yr Adran Busnes a Masnach, y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu | Yn barhaus |
| **Adennill asedau rhyngwladol (Canlyniad 1.3b)** | **1.3.7** | Rhoi cymorth ychwanegol i'r gwladwriaethau dan sylw o ran **olrhain ac adennill asedau** a ddygwyd | | Y Swyddfa Gartref, y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, yr Asiantaeth Troseddu | Yn barhaus |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Cenedlaethol | |
| | **1.3.8** | Parhau i gefnogi gwaith **meithrin gallu'r** gwladwriaethau dan sylw, er mwyn gwella cynaliadwyedd galluoedd i adennill asedau | | Y Swyddfa Gartref, y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol | Yn barhaus |
| | **1.3.9** | Ystyried sut y gallwn ddefnyddio'r **sector preifat a chymdeithas sifil** ymhellach er mwyn cynyddu'r gallu a'r adnoddau i adennill asedau | | Y Swyddfa Gartref | 2026 |

| 1.3<br>Arian llwgr | Rhif Adnabod | Ymrwymiad y Strategaeth Wrthlygredigaeth | Blaenoriaeth | Adrannau arweiniol | Dyddiad gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canlyniad** | | | | | |
| **Adennill asedau rhyngwladol (Canlyniad 1.3b)** | **1.3.10** | Ystyried polisïau a gweithdrefnau presennol y DU ar gyfer **digolledu dioddefwyr llwgrwobrwyo dramor** a gwneud argymhellion ar gyfer diwygiadau | | Y Swyddfa Gartref | 2027 |
| | **1.3.11** | Cyhoeddi **canllawiau ar y llwybrau digolledu presennol**, a fydd yn esbonio terminoleg a chyfeirio dioddefwyr posibl at yr opsiynau mwyaf priodol | | Y Swyddfa Gartref | 2027 |
| **Galluogwyr proffesiynol (Canlyniad 1.3c)** | **1.3.12** | Ariannu cydgysylltydd penodol ar gyfer galluogwyr proffesiynol er mwyn cynnig cydgysylltydd ychwanegol ar gyfer ymateb PURSE a hefyd ystyried opsiynau eraill i feithrin y gallu i wella'r **ymateb gweithredol i alluogwyr proffesiynol** | Blaenoriaeth | NECC, JACU | Yn barhaus |
| | **1.3.13** | **Cymryd camau i liniaru risgiau yn y sectorau risg uchel a nodir yn yr Asesiad Risg Cenedlaethol.** Bydd hyn yn cynnwys ymgynghori ar ychwanegu gweithgareddau rheoleiddiedig newydd at y rheoliadau gwyngalchu arian dros oes y strategaeth | Blaenoriaeth | Trysorlys EF, y Swyddfa Gartref | Yn barhaus |
| | **1.3.14** | Gwella **dealltwriaeth Llywodraeth EF o'r bygythiad** oddi wrth alluogwyr proffesiynol rhyngwladol o ran sbarduno llygredigaeth a chyllido anghyfreithlon, drwy fentrau cydweithredol dadansoddol newydd rhwng Llywodraeth EF a phartneriaid allanol | | NECC, y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, OPBAS | Yn barhaus |

| 1.3<br>**Arian llwgr** | **Rhif Adnabod** | **Ymrwymiad y Strategaeth Wrthlygredigaeth** | **Blaenoriaeth** | **Adrannau arweiniol** | **Dyddiad gweithredu** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canlyniad** | | | | | |
| **Galluogwyr proffesiynol (Canlyniad 1.3c)** | **1.3.15** | Ehangu'r defnydd o **sancsiynau**, ochr yn ochr â'r adnoddau presennol i orfodi'r gyfraith, er mwyn targedu rhwydweithiau galluogwyr proffesiynol. Cryfhau system sancsiynau'r DU i gyfyngu ymhellach ar allu galluogwyr proffesiynol i symud enillion llygredigaeth | | Y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, Trysorlys EF | Yn barhaus |
| | **1.3.16** | Dwysáu **partneriaeth Llywodraeth EF ag awdurdodaethau** sydd hefyd yn agored i risgiau oddi wrth alluogwyr proffesiynol, gan ganolbwyntio ar annog a chefnogi rhannu gwybodaeth, cryfhau goruchwyliaeth a chefnogi cydweithredu gweithredol | | Y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, NECC, OPBAS | Yn barhaus |
| | **1.3.17** | Cryfhau **cydweithrediad ac ymwybyddiaeth yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat** ynglŷn â'r bygythiad a'r risgiau a achosir gan alluogwyr proffesiynol llygredigaeth drwy fodel Tasglu Cuddwybodaeth Gwyngalchu Arian ar y cyd NECC a fforymau eraill, yn enwedig drwy'r ffordd y caiff gweithgarwch galluogi ei nodi ac y rhoddir gwybod amdano | | Y Swyddfa Gartref, y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, NECC, OPBAS | Yn barhaus |

| 2.1 Gwleidyddiaeth a llywodraeth | Rhif Adnabod | Ymrwymiad y Strategaeth Wrthlygredigaeth | Blaenoriaeth | Adrannau arweiniol | Dyddiad gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canlyniad** | | | | | |
| **Safonau mewn bywyd cyhoedd us (Canlyniad 2.1a)** | **2.1.1** | **Sefydlu Comisiwn Moeseg ac Uniondeb** i gryfhau gonestrwydd mewn bywyd cyhoeddus drwy gryfhau a diwygio'r Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, gan greu corff awdurdodol sydd â mandad i wella safonau moesegol ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus | Blaenoriaeth | Swyddfa'r Cabinet | 2025 |
| | **2.1.2** | **Rhoi'r Bil Swydd Gyhoeddus (Atebolrwydd) ar waith** er mwyn sicrhau tryloywder a bod yn agored ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus, gan gynnwys ei rwymedigaeth arfaethedig y dylai pob corff cyhoeddus lunio cod ymddygiad moesegol, a gefnogir gan y Comisiwn Moeseg ac Uniondeb fel Canolfan Ragoriaeth ar godau ymddygiad y sector cyhoeddus | Blaenoriaeth | Swyddfa'r Cabinet | Yn barhaus |
| | **2.1.3** | **Cryfhau'r system Penodiadau Busnes** drwy gau'r Pwyllgor Cynghori ar Benodiadau Busnes a symud ei swyddogaethau i gyrff eraill, gan symleiddio'r system a gwella cydymffurfiaeth drwy gyflwyno sancsiynau newydd am dorri'r rheolau | Blaenoriaeth | Swyddfa'r Cabinet | 2025 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2.1.4** | **Diwygio taliadau diswyddo i weinidogion** drwy gyflwyno gofyniad gwasanaeth sylfaenol newydd o chwe mis i weinidogion cyn eu bod yn cael taliadau diswyddo, gyda’r eithriad y bydd gweinidogion yn ymatal â derbyn taliadau os byddant yn gadael eu swydd ar ôl achos difrifol o dorri Cod y Gweinidogion | | Swyddfa’r Cabinet | 2025 |
| | **2.1.5** | Ystyried argymhellion adroddiad y Pwyllgor Safonau ar **fuddiannau allanol ASau** | | Swyddfa’r Cabinet | Yn barhaus |

| 2.1 Gwleidyddiaeth a llywodraeth | Rhif Adnabod | Ymrwymiad y Strategaeth Wrthlygredigaeth | Blaenoriaeth | Adrannau arweiniol | Dyddiad gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canlyniad** | | | | | |
| | **2.1.6** | **Parhau i adolygu tryloywder lobïo**, gan ystyried argymhellion adroddiad y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol wrth i unrhyw ddiwygiadau polisi gael eu hystyried | | Swyddfa'r Cabinet | Yn barhaus |
| **Rhoddion gwleidyddol (Canlyniad 2.1b)** | **2.1.7** | **Cryfhau'r rheolau ynglŷn â rhoddion gwleidyddol gan gwmnïau** | Blaenoriaeth | Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol | Yn barhaus* |
| | **2.1.8** | Bydd yn rhaid i bob rhoddwr wneud datganiad ynghylch unrhyw ffynonellau cysylltiedig o arian er mwyn **atal rhoddion procsi** | Blaenoriaeth | Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol | Yn barhaus* |
| | **2.1.9** | Cyflwyno gofynion newydd ar y rhai sy'n cael rhoddion gwleidyddol i gynnal asesiadau risg, a bydd y Comisiwn Etholiadol yn paratoi canllawiau ar **ddiwydrwydd dyladwy ychwanegol** | | Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol | Yn barhaus* |
| | **2.1.10** | Cynyddu gofynion adrodd i **gymdeithasau anghorfforedig** er mwyn gwella tryloywder ynglŷn â'u cyllid | | Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol | Yn barhaus* |
| | **2.1.11** | Rhoi'r cyfrifoldeb am orfodi **troseddau cyllid etholiadol** gan ymgeiswyr a thrydydd partïon lleol i'r Comisiwn Etholiadol yn hytrach na swyddogion yr heddlu nad ydynt yn arbenigwyr | | Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol | Yn barhaus* |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2.1.12** | Cynyddu pwerau’r Comisiwn Etholiadol **i roi’r dirwyon mwyaf a ganiateir** | | Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol | Yn barhaus* |

*Cyn gynted ag a ganiata amser seneddol

| 2.2 Y sector cyhoeddus | Rhif Adnabod | Ymrwymiad y Strategaeth Wrthlygredigaeth | Blaenoriaeth | Adrannau arweiniol | Dyddiad gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canlyniad** | | | | | |
| **Llywodraeth leol (Canlyniad 2.2a)** | **2.2.1** | Sefydlu **Swyddfa Archwilio Leol annibynnol** a statudol newydd yn Lloegr i wella tryloywder a phrosesau rheoli ansawdd yn y system archwilio, gan gyfrannu at fwy o atebolrwydd a chryfhau trefniadau craffu mewn perthynas â chamddefnyddio arian cyhoeddus | Blaenoriaeth | Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol | 2026 |
| | **2.2.2** | Yn ddarostyngedig i gytundeb ar wahân, yn Lloegr cyflwyno **Cod Ymddygiad gorfodol newydd** i swyddogion llywodraeth leol etholedig drwy ddeddfwriaeth, gan gynnwys sancsiynau cadarn am dorri rheolau ac ystyried pwerau ychwanegol i gryfhau'r Cod er mwyn cynnal safonau o ran uniondeb mewn llywodraeth leol | Blaenoriaeth | Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol | 2028 |
| | **2.2.3** | Yn ddarostyngedig i gytundeb ar wahân, ystyried sefydlu **trefniadau goruchwylio annibynnol** i Loegr ar safonau llywodraeth leol er mwyn rhoi sicrwydd ynglŷn â phrosesau apelio | | Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol | 2028 |
| **Bygythiad gan unigolion o'r tu mewn (Canlyniad 2.2b)** | **2.2.4** | Cefnogi **sefydlu adnodd sgrinio uniondeb cenedlaethol** ar gyfer yr heddlu er mwyn gwella ymddiriedaeth y cyhoedd a hyder, a lleihau niwed i'n cymunedau, a hefyd ystyried ei botensial i gryfhau sicrwydd y gweithlu yn y sector cyhoeddus ehangach | Blaenoriaeth | Y Swyddfa Gartref, Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu | 2025 |
| | **2.2.5** | Treialu dichonoldeb defnyddio data yng **Nghronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu** mewn Fetio Diogelwch Gwladol | Blaenoriaeth | Swyddfa'r Cabinet, UKSV | 2025 |

| 2.2 Y sector cyhoeddus | Rhif Adnabod | Ymrwymiad y Strategaeth Wrthlygredigaeth | Blaenoriaeth | Adrannau arweiniol | Dyddiad gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canlyniad** | | | | | |
| **Bygythiad gan unigolion o'r tu mewn (Canlyniad 2.2b)** | **2.2.6** | Sicrhau y gall **heddluoedd gael gafael ar wybodaeth berthnasol** am ymgeiswyr neu drosglwyddiadau o'r lluoedd arfog ac asiantaethau eraill y llywodraeth yn hawdd a'i rhannu, fel y bydd ganddynt ddarlun llawn o gefndir pob person | Blaenoriaeth | Y Swyddfa Gartref, y Coleg Plismona, Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu | 2026 |
| | **2.2.7** | Cyhoeddi **Canllawiau Llywodraeth y DU ar Risg Unigolion o'r Tu Mewn** sy'n amlinellu'r strategaethau a'r dull gweithredu gorau o ymdrin â risg unigolion o'r tu mewn a gweithgareddau a gweithdrefnau cyffredin i gyrff cyhoeddus y DU | | Swyddfa'r Cabinet | 2025 |
| | **2.2.8** | **Esemptio staff Llu'r Ffiniau a Gorfodi Mewnfudo** rhag y Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr er mwyn sicrhau bod euogfarnau wedi'u disbyddu yn cael eu datgelu | | Llu'r Ffiniau, Gorfodi Mewnfudo | 2026 |
| | **2.2.9** | Rhoi **gwiriadau uniondeb ychwanegol** ar waith mewn perthynas â staff newydd yn Llu'r Ffiniau neu'r rhai sy'n adnewyddu cliriad diogelwch, ac estyn gwiriadau uniondeb i'r staff presennol | | Llu'r Ffiniau | 2026 |
| | **2.2.10** | Yn y gwasanaeth **carchardai a phrawf**, datblygu Strategaeth Atal Llygredigaeth ychwanegol, adnewyddu'r Strategaeth Rheoli Llygrwyr, ac adnewyddu'r broses gwrthdaro buddiannau | | Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi | 2027 |

| 2.2 Y sector cyhoeddus | Rhif Adnabod | Ymrwymiad y Strategaeth Wrthlygredigaeth | Blaenoriaeth | Adrannau arweiniol | Dyddiad gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canlyniad** | | | | | |
| **Bygythiad gan unigolion o'r tu mewn (Canlyniad 2.2b)** | **2.2.11** | Ym maes **gorfodi'r gyfraith**, creu rhestrau gwahardd a chynghorol i'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, y Gwnstabliaeth Niwclear Sifil, yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn a sicrhau nad yw cyrff plismona yn cyflogi nac yn penodi unrhyw un ar y rhestrau hynny. Hefyd, ystyried defnyddio pwerau deddfwriaethol pellach i greu rhestrau gwahardd a chynghorol i asiantaethau gorfodi'r gyfraith eraill | | Y Swyddfa Gartref, yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net, yr Adran Drafnidiaeth, y Weinyddiaeth Amddiffyn | 2026 |
| | **2.2.12** | Ym maes **amddiffyn**, gwella'r prosesau a'r safonau fetio, rhoi canolfan fetio ar y cyd ar waith, a gwella galluogrwydd data i fonitro, canfod a rhagweld risg unigolion o'r tu mewn | | Y Weinyddiaeth Amddiffyn | 2027 |
| | **2.2.13** | Yn y **Gwasanaeth Sifil**, ehangu'r Hwb Twyll Mewnol (y Gronfa Ddata Twyll Mewnol gynt) y tu hwnt i dwyll a budrelw er mwyn cofnodi unigolion sy'n cael eu diswyddo am droseddau sy'n debyg i lygredigaeth | | PSFA | 2026 |

| 2.2 Y sector cyhoeddus | Rhif Adnabod | Ymrwymiad y Strategaeth Wrthlygredigaeth | Blaenoriaeth | Adrannau arweiniol | Dyddiad gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canlyniad** | | | | | |
| **Caffael (Canlyniad 2.2c)** | **2.2.14** | Monitro cyfraddau cymryd rhan mewn **hyfforddiant ar gaffael** a gwerthuso effeithiolrwydd cynhyrchion dysgu a datblygu | Blaenoriaeth | Swyddfa'r Cabinet | Yn barhaus |
| | **2.2.15** | Sicrhau **cydymffurfiaeth** â'r gyfundrefn dryloywder o dan Ddeddf Caffael 2023 a monitro ansawdd data | | Swyddfa'r Cabinet | Yn barhaus |
| | **2.2.16** | Gwella mynediad at **ddata ar gaffael** at ddibenion adrodd cyhoeddus a'r defnydd a wneir o'r data hynny, a gweithio gyda rhanddeiliaid yn y llywodraeth i ffurfio dadansoddeg tryloywder, a'i darparu'n gyhoeddus os yw hynny'n briodol | | Swyddfa'r Cabinet | 2026 |
| | **2.2.17** | Cynllunio i **adolygu a gwerthuso** effeithiolrwydd y **gyfundrefn ragwahardd**, sy'n caniatáu i weinidogion restru cyflenwyr y mae eu hymddygiad neu eu hamgylchiadau blaenorol yn eu hanghymhwyso rhag cymryd rhan mewn ymarferion caffael cyhoeddus | | Swyddfa'r Cabinet | Yn barhaus |
| | **2.2.18** | Monitro **tirwedd awdurdodau contracti**o drwy atgyfeiriadau ac adroddiadau mewnol i'r PRU, gan ganiatáu ar gyfer goruchwyliaeth a, lle y bo'n briodol, argymell camau gweithredu i wella cydymffurfiaeth, gan gynnwys mesurau atal llygredigaeth, â'r Ddeddf Caffael | | Swyddfa'r Cabinet | Yn barhaus |
| | **2.2.19** | **Dadansoddi'r** data masnachol sydd ar gael ac sy'n cael eu dal ar y llwyfan digidol canolog i **gynhyrchu gwybodaeth** am berfformiad marchnadoedd, gan ei gwneud yn bosibl i risgiau posibl o lygredigaeth gael eu hasesu | | Swyddfa'r Cabinet | 2027 |

| 2.2 Y sector cyhoeddus | Rhif Adnabod | Ymrwymiad y Strategaeth Wrthlygredigaeth | Blaenoriaeth | Adrannau arweiniol | Dyddiad gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canlyniad** | | | | | |
| **Galluogrwydd a gwybodaeth (Canlyniad 2.2d)** | **2.2.20** | Cyflwyno rhaglen wedi'i diweddaru o **e-ddysgu ar lygredigaeth a thwyll** i holl swyddogion cenedlaethol a lleol y sector cyhoeddus sy'n wynebu risg o ymarfer twyllodrus neu lwgr, a'i gwneud yn orfodol i bob gwas sifil | Blaenoriaeth | JACU, GCFP | 2026 - 2030 |
| | **2.2.21** | Codi ymwybyddiaeth o'r risgiau o dwyll a llygredigaeth mewn llywodraeth ar lefel genedlaethol drwy gynnal **ymgyrch gyfathrebu** fewnol ar gyfer pob gwas sifil | | Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus, GCFP | 2026 |
| | **2.2.22** | Meithrin **diwylliant effeithiol** i fynd i'r afael â llygredigaeth, llwgrwobrwyo a thwyll yn y sector cyhoeddus drwy ddatblygu'r Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Gwrthdwyll, gan ddatblygu'r Brentisiaeth Rheoli Twyll Lefel 4 a chymhwyster rheoli twyll ar wahân | | Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus, GCFP | 2027 |
| | **2.2.23** | Gwella gallu cyrff cyhoeddus i reoli risgiau o dwyll a llygredigaeth drwy gynyddu **asesiadau effaith a risg o ansawdd da**, datblygu adnoddau asesu risg, a hyfforddi mwy o aseswyr risg twyll cymwysedig | | PSFA | 2027 |

| 2.3 Uniondeb busnesau | Rhif Adnabod | Ymrwymiad y Strategaeth Wrthlygredigaeth | Blaenoriaeth | Adrannau arweiniol | Dyddiad gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canlyniad** | | | | | |
| **Atal (Canlyniad 2.3a)** | **2.3.1** | Lansio **casgliad newydd o adnoddau gwrthlygredigaeth** ar GOV.UK i fusnesau a sefydliadau eraill yn y DU a fydd yn cynnig adnoddau am ddim i'w helpu i ddeall sut y maent wedi'u hamlygu i risgiau o lwgrwobrwyo a lygredigaeth ac i roi mesurau ar waith i'w lleihau, a gweithio gyda'r sector preifat, y byd academaidd a chymdeithas sifil i sicrhau bod y canllawiau hyn a chanllawiau eraill ar atal llygredigaeth yn dal i fod yn gyson ag arferion gorau byd-eang | Blaenoriaeth | JACU, y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, yr Adran Fusnes a Masnach | 2026 |
| | **2.3.2** | Ehangu ar **allu'r Swyddfa Twyll Difrifol i atal troseddau** er mwyn helpu cwmnïau i gryfhau eu mesurau diogelu rhag llwgrwobrwyo a llygredigaeth | Blaenoriaeth | Y Swyddfa Twyll Difrifol | Yn barhaus |
| | **2.3.3** | Bydd yr **adolygiad o'r ffordd y mae'r DU yn ymdrin ag ymddygiad busnes cyfrifol** yn cynnwys llwgrwobrwyo a llygredigaeth, ochr yn ochr ag arferion niweidiol eraill sy'n ymwneud â'r amgylchedd, hawliau dynol a hawliau llafur | | Adran Fusnes a Masnach | Yn barhaus |
| | **2.3.4** | Yn seiliedig ar ganlyniad yr adolygiad o ymddygiad busnes cyfrifol, asesu ymhellach yr opsiynau i Lywodraeth y DU **roi cymhellion** i gwmnïau roi mesurau atal llwgrwobrwyo ar waith, gan gynnwys drwy fynediad at fanteision cyhoeddus. | | JACU | Yn barhaus |
| | **2.3.5** | Egluro a chryfhau cymhellion i gorfforaethau **hunangofnodi** drwy roi Canllawiau Allanol y Swyddfa Twyll Difrifol ar Gydweithredu a Gorfodi Corfforaethol ar waith | | Y Swyddfa Twyll Difrifol | Yn barhaus |

| 2.3 Uniondeb busnesau | Rhif Adnabod | Ymrwymiad y Strategaeth Wrthlygredigaeth | Blaenoriaeth | Adrannau arweiniol | Dyddiad gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canlyniad** | | | | | |
| **Marchnadoedd tramor (Canlyniad 2.3b)** | **2.3.6** | Datblygu **pecyn cymorth ar gyfer rhwydwaith diplomyddol a masnach y DU**, gan ddefnyddio profiad y sector cyhoeddus a'r sector preifat, paratoi swyddogion i roi arweiniad i fusnesau ac ymgysylltu â gwledydd perthnasol ynglŷn â materion gwrthlygredigaeth sy'n effeithio ar gwmnïau o Brydain | Blaenoriaeth | JACU, yr Adran Fusnes a Masnach, y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu | 2026 |
| | **2.3.7** | Parhau i geisio darpariaethau gwrthlygredigaeth cadarn yn ein **cytundebau masnach**, lle y bo'n briodol. Darparu ar gyfer monitro'r darpariaethau hyn a'u rhoi ar waith ar ôl i gytundebau ddod i rym | Blaenoriaeth | Yr Adran Fusnes a Masnach, JACU | Yn barhaus |
| | **2.3.8** | Bydd UK Export Finance (UKEF) yn gweithio mewn partneriaeth ag Asiantaethau Credyd Allforio o'r un anian i **hyrwyddo safonau uwch o ddiwydrwydd dyladwy mewn perthynas â throseddau ariannol i'r asiantaethau hyn**, gan gynnwys drwy gymryd rhan yng nghyfarfodydd ymarferwyr arbenigol ar droseddau ariannol Grŵp Credyd Allforio'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd a fforymau rhyngwladol eraill megis Undeb Berne | | UKEF | Yn barhaus |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2.3.9** | **Adolygu hysbysiadau cydymffurfio a gwybodaeth gyhoeddus UKEF mewn perthynas â throseddau ariannol** er mwyn hyrwyddo lefelau uwch o ymwybyddiaeth o ddiwydrwydd dyladwy UKEF mewn perthynas â throseddau ariannol a'i ofynion ymhlith cwsmeriaid, rhanddeiliaid a phartïon eraill â buddiant, gyda'r nod yn y pen draw o atal throseddau ariannol | | UKEF | Yn barhaus |

| 2.3 Uniondeb busnesau | Rhif Adnabod | Ymrwymiad y Strategaeth Wrthlygredigaeth | Blaenoriaeth | Adrannau arweiniol | Dyddiad gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canlyniad** | | | | | |
| **Marchnadoedd tramor (Canlyniad 2.3b)** | **2.3.10** | Treialu rhaglen i gryfhau **cyfreithiau llwgrwobrwyo tramor a'u gorfodi** dramor i leihau cystadleuaeth annheg i fusnesau o Brydain pan fyddant yn gweithredu'n rhyngwladol | | JACU | 2026 |
| | **2.3.11** | Gwella'r llif o **wybodaeth** am achosion o lwgrwobrwyo a llygredigaeth o rwydwaith diplomyddol a masnach y DU i gyrff gorfodi'r gyfraith | | JACU, yr Adran Fusnes a Masnach, y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol | Yn barhaus |

| 3.1 Partneriaethau rhyngwladol | Rhif Adnabod | Ymrwymiad y Strategaeth Wrthlygredigaeth | Blaenoriaeth | Adrannau arweiniol | Dyddiad gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canlyniad** | | | | | |
| **Partneriaethau rhyngwladol y DU (Canlyniad 3.1a)** | **3.1.1** | Cynnal **Uwchgynhadledd yn erbyn Cyllid Anghyfreithlon** yn y DU a fydd yn dwyn ynghyd gynghrair eang o lywodraethau, sefydliadau amlochrog, cymdeithas sifil a'r sector preifat i weithredu ar y gwendidau cyffredin sy'n ei gwneud yn bosibl i lygredigaeth a chyllid anghyfreithlon ffynnu | Blaenoriaeth | Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu | 2026 |
| | **3.1.2** | Dyrchafu llygredigaeth a chyllid anghyfreithlon yn **flaenoriaeth polisi tramor a datblygu i'r DU** drwy ymgorffori'r materion hyn yn strategaethau ymgysylltu'r DU mewn gwledydd allweddol, a defnyddio Penaethiaid Cenadaethau i hyrwyddo cydweithio rhwng swyddi ar risgiau a rennir o ran llygredigaeth a chyllid anghyfreithlon | Blaenoriaeth | Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu | Yn barhaus |
| | **3.1.3** | Ehangu ein rhwydwaith o **arbenigwyr ar gyllid anghyfreithlon** sy'n gweithio dramor a datblygu partneriaethau dynamig newydd â chanolfannau ariannol byd-eang a rhai sy'n datblygu gyda ffocws ar risgiau a rennir a mynd i'r afael â methodolegau newydd a datblygol o symud arian llwgr a chyllid anghyfreithlon ehangach | Blaenoriaeth | Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu | Yn barhaus |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **3.1.4** | Cynyddu graddfa gwaith **Canolfan Ryngwladol Arbenigedd ar Gyllid Anghyfreithlon** y DU i ddeall cyllid anghyfreithlon rhyngwladol a'r bygythiad y mae'n ei achosi i ddiogelwch y DU, ynghyd â datblygiad a thwf rhyngwladol a datblygu ymatebion gwleidyddol a thechnegol gadarn iddo | | Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu | Yn barhaus |

| **3.1 Partneriaethau rhyngwladol** | **Rhif Adnabod** | **Ymrwymiad y Strategaeth Wrthlygredigaeth** | **Blaenoriaeth** | **Adrannau arweiniol** | **Dyddiad gweithredu** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canlyniad** | | | | | |
| **Partneriaethau rhyngwladol y DU (Canlyniad 3.1a)** | **3.1.5** | Bydd swyddogaeth **Partneriaeth Cyhoeddus-Preifat** y DU yn y NECC yn parhau i ddatblygu ei gweithgarwch ymgysylltu â Phartneriaethau Cyhoeddus-Preifat rhyngwladol er mwyn rhannu ymhellach wybodaeth bygythiad am droseddau economaidd, gan gynnwys llygredigaeth, a pharhau i hyrwyddo arferion gorau wrth ddefnyddio partneriaethau i ymateb i'r bygythiad | | NECC, y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu | Yn barhaus |
| **Lleihau niweidiau i ddatblygu (Canlyniad 3.1b)** | **3.1.6** | Gweithio gyda gwledydd De'r Byd i **feithrin gallu hirdymor i fynd i'r afael â risgiau mewn perthynas â llygredigaeth a chyllid anghyfreithlon**. Bydd hyn yn cynnwys gwaith gan Uned Cymorth Technegol Trysorlys EF i helpu gwledydd datblygol i roi Safonau'r Tasglu Gweithredu Ariannol (FATF) ar waith, a mwy o gydweithio rhwng Llywodraeth y DU a sefydliadau ariannol rhyngwladol a banciau datblygu rhanbarthol | Blaenoriaeth | Trysorlys EF, y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu | Yn barhaus |
| | **3.1.7** | Gwneud defnydd llawn o'r **Ganolfan Arbenigedd Cyllid Cyhoeddus**, er mwyn helpu gwledydd partner i adeiladu systemau rheoli arian cyhoeddus cryfach, cryfhau goruchwyliaeth annibynnol dros y ffordd y caiff arian cyhoeddus ei wario a dwysáu atebolrwydd cyllidol | | Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu | Yn barhaus |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **3.1.8** | Cyflwyno cymorth polisi a rhaglenni i fynd i'r afael â llygredigaeth mewn **sectorau sydd wedi'u hamlygu ar raddfa fawr** i risgiau o lygredigaeth, gan gynnwys seilwaith a diwydiannau cloddiol (gan gynnwys mwynau allweddol) | | Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu | Yn barhaus |

| 3.1 Partneriaethau rhyngwladol | Rhif Adnabod | Ymrwymiad y Strategaeth Wrthlygredigaeth | Blaenoriaeth | Adrannau arweiniol | Dyddiad gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canlyniad** | | | | | |
| **Lleihau niweidiau i ddatblygu (Canlyniad 3.1b)** | **3.1.9** | Lleihau risgiau o lygredigaeth mewn **cyllid hinsawdd** drwy helpu i roi mesurau atal llygredigaeth ar waith drwy'r rhai y mae British Investment International a'r Grŵp Datblygu Seilwaith Preifat yn buddsoddi ynddynt, ac integreiddio'r cymorth i gryfhau systemau rheoli arian cyhoeddus â'r Tasglu Mynediad at Gyllid Hinsawdd | | Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu | Yn barhaus |
| | **3.1.10** | Parhau i chwarae rôl flaenllaw ym maes gwrthlygredigaeth ac amddiffyn yn rhyngwladol ac yn NATO **drwy fuddsoddi yn Rhaglen Meithrin Uniondeb y DU** | | Y Weinyddiaeth Amddiffyn | Yn barhaus |
| **Cymdeithas sifil (Canlyniad 3.1c)** | **3.1.11** | Rhoi **cyllid i gymdeithas sifil a newyddiadurwyr ymchwiliol**, gan ganolbwyntio ar feithrin cydweithrediad rhwng gohebwyr lleol a grwpiau rhyngwladol ehangach gyda chymorth arloesedd mewn data er mwyn amlygu risgiau o lygredigaeth a chyllid anghyfreithlon sy'n achosi lefel uchel o niwed | Blaenoriaeth | Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu | Yn barhaus |
| | **3.1.12** | Cyflwyno cyfres o **ddeialogau strategol** â chymdeithas sifil a newyddiaduwyr ymchwiliol i lywio a chryfhau ymateb rhyngwladol Llywodraeth EF i lygredigaeth a chyllid anghyfreithlon | | Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu | Yn barhaus |

| 3.1 Partneriaethau rhyngwladol | Rhif Adnabod | Ymrwymiad y Strategaeth Wrthlygredigaeth | Blaenoriaeth | Adrannau arweiniol | Dyddiad gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canlyniad** | | | | | |
| **Cymdeithas sifil (Canlyniad 3.1c)** | **3.1.13** | Ehangu gwaith **Canolfan Arbenigedd ar Wleidyddiaeth, Llywodraethu a Hawliau'r** DU er mwyn helpu Llywodraeth EF a'n partneriaid i ddeall bygythiadau i sefydliadau democrataidd o ganlyniad i lygredigaeth a rhwystrau a gwrthbwysau yn well ac ymateb iddynt | | Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu | Yn barhaus |
| | **3.1.14** | Parhau i chwarae rôl ryngwladol flaenllaw o ran **hyrwyddo rhyddid y cyfryngau, diogelu amddiffynwyr hawliau dynol** a gofod dinesig. Bydd hyn yn cynnwys chwarae rôl flaenllaw yng Nghynghrair Rhyddid y Cyfryngau, diweddaru canllawiau Llywodraeth EF ar gefnogi amddiffynwyr hawliau dynol, gan gynnwys newyddiadurwyr a'r rhai sy'n hyrwyddo rheolaeth y gyfraith ac integreiddio'r blaenoriaethau hyn â strategaethau Llywodraeth EF | | Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu | Yn barhaus |

| 3.2 Safonau rhyngwladol | Rhif Adnabod | Ymrwymiad y Strategaeth Wrthlygredigaeth | Blaenoriaeth | Adrannau arweiniol | Dyddiad gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canlyniad** | | | | | |
| **Llais ar y cyd (Canlyniad 3.2a)** | **3.2.1** | Cefnogi rôl y **Cenhedloedd Unedig** o ran mynd i'r afael â llygredigaeth drwy roi'r UNCAC ar waith yn effeithiol, gan weithio gyda nifer o bartneriaid i hyrwyddo ymdrechion i sicrhau mwy o dryloywder, atebolrwydd, a chynhwysiant yn y System Adolygu Gweithredu | Blaenoriaeth | JACU, y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu | Yn barhaus |
| | **3.2.2** | Cefnog ymdrechion i ehangu **a chynyddu cyfranogiad mewn cyrff sy'n pennu safonau** megis y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, GRECO a FATF | | Trysorlys EF, JACU, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu | Yn barhaus |
| | **3.2.3** | Defnyddio rôl y DU mewn cyrff anrhanbarthol megis y **G7, G20 a'r Bartneriaeth Llywodraeth Agored** i ddadlau dros ddiogelu a gorfodi safonau gwrthlygredigaeth byd-eang, a rhannu arferion da a phrofiad go iawn rhwng gwledydd | | Y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, JACU, Swyddfa'r Cabinet | Yn barhaus |
| | **3.2.4** | Ymrwymo o'r newydd i amddiffyn a **hyrwyddo rôl rhanddeiliaid anllywodraethol**, gan gynnwys cymdeithas sifil, y sector busnes a'r byd academaidd i lunio dadleuon a pholisïau rhyngwladol | | Y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, JACU. | Yn barhaus |

| 3.2 Safonau rhyngwladol | Rhif Adnabod | Ymrwymiad y Strategaeth Wrthlygredigaeth | Blaenoriaeth | Adrannau arweiniol | Dyddiad gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canlyniad** | | | | | |
| **Pennu safonau (Canlyniad 3.2b)** | **3.2.5** | Sicrhau bod systemau atebolrwydd wedi'u cryfhau **FATF** i gyrraedd safonau FATF yn cael eu rhoi ar waith yn llawn ac yn gyson, a helpu gwledydd incwm isel a chanolig i roi safonau FATF ar waith | Blaenoriaeth | HMT | Yn barhaus |
| | **3.2.6** | Helpu **Gweithgor y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ar Lwgrwobrwyo** i gynyddu ei aelodaeth a hefyd gynnal ei effeithiolrwydd a'i hygrededd ar yr un pryd, a chryfhau systemau atal llwgrwobrwyo drwy chwarae rhan weithredol yng ngwerthusiadau, cenadaethau technegol, a chenadaethau gwlad y gweithgor | Blaenoriaeth | JACU, y Swyddfa Twyll Difrifol, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu | Yn barhaus |
| | **3.2.7** | Gweithio gyda gwledydd yn **UNCAC** i hyrwyddo safonau allweddol, datblygu cynghreiriau amrywiol, a rhannu arferion gorau sy'n cael effeithiau go iawn, gan gynnwys drwy gynnal yr egwyddorion a nodwyd yn y datganiad ar y cyd a arweiniwyd gan y DU am y System Adolygu Gweithredu yn 2023 | | JACU, y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu | Yn barhaus |
| | **3.2.8** | Rhoi cefnogaeth weithredol i **GRECO** er mwyn gwella safonau gwrthlygredigaeth ledled Ewrop a thu hwnt, gan gefnogi'r cylch gwerthuso ar lygredigaeth leol a chynyddu ei weithgarwch ymgysylltu y tu hwnt i Ewrop ac â gyda chymdeithas sifil, gan gyhoeddi argymhellion | | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder | Yn barhaus |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Mentrau a arweinir gan y DU (Canlyniad 3.2c)** | **3.2.9** | Llunio a chyflwyno **rhaglen dreigl o hyd at dair menter a arweinir gan y DU sy'n canolbwyntio ar safonau rhyngwladol penodol**, a ddatblygir ar y cyd â gwledydd o'r un anian a phartneriaid mewn cymdeithas sifil, ac a gyflwynir drwy weithgarwch ymgysylltu amlochrog a rhaglenni tramor y DU | | Y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, JACU, y Weinyddiaeth Gyfiawnder | Yn barhaus |

| **4.1 Tystiolaeth a rhoi ar waith** | **Rhif Adnabod** | **Ymrwymiad y Strategaeth Wrthlygredigaeth** | **Blaenoriaeth** | **Adrannau arweiniol** | **Dyddiad gweithredu** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canlyniad** | | | | | |
| **Tystiolaeth (Canlyniad 4.1a)** | **4.1.1** | Treialu **Hwb Ymchwil a Thystiolaeth Llygredigaeth** newydd (Hwb) i wella dealltwriaeth y system o broblem llygredigaeth a'n hymateb | Blaenoriaeth | JACU | 2026 |
| | **4.1.2** | Canolbwyntio ymchwil i'r system ddadansoddol gyfan ar set o **fylchau mewn tystiolaeth â blaenoriaeth** y cytunir arnynt, a fydd yn cael eu hadolygu o leiaf unwaith y flwyddyn, gan ddefnyddio tystiolaeth berthnasol gan dimau dadansoddi, academyddion, a chymdeithas sifil | | Yr Hwb, y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, NECC | Yn barhaus |
| | **4.1.3** | **Nodi a mapio'r data presennol** sy'n ymwneud â blaenoriaethau o ran tystiolaeth a nodwyd drwy gydweithio rhwng yr Hwb a phartneriaid allweddol | | Yr Hwb, y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, y Swyddfa Twyll Difrifol, Heddlu Dinas Llundain, Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus | 2027 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **4.1.4** | Gwella dealltwriaeth o **effaith** llygredigaeth ar y DU drwy ymchwil wedi'i thargedu, gan gynnwys dadansoddiad niwed manwl o achosion o lygredigaeth yr ymchwiliwyd iddynt | | Yr Hwb, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, Heddlu Dinas Llundain, y Swyddfa Twyll Difrifol | Yn barhaus |
| | **4.1.5** | **Cydgrynhoi gwybodaeth systemau** yn gynnyrch unedig sy'n llywio'r broses o roi'r strategaeth hon ar waith, ac olrhain **y broblem** o ran llygredigaeth ar lefel maes a strategaeth, drwy ddatblygu a monitro dangosyddion allweddol | | Yr Hwb, y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu | Yn barhaus |
| | **4.1.6** | Deall effeithiau ein **hymateb**, gyda fframwaith mesur cychwynnol y cytunir arno â phartneriaid o fewn chwe mis i gyhoeddi'r strategaeth hon, ac asesiadau annibynnol o gynnydd gan dimau cyflawni, gyda gwaith gwerthuso wedi'i dargedu lle y bo'n briodol | | Yr Hwb, JACU, y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu | 2026 - 2030 |

| 4.1 Tystiolaeth a rhoi ar waith | Rhif Adnabod | Ymrwymiad y Strategaeth Wrthlygredigaeth | Blaenoriaeth | Adrannau arweiniol | Dyddiad gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canlyniad** | | | | | |
| **Goruchwyliaeth a thryloywder (Canlyniad 4.1b)** | **4.1.7** | **Rhoi diweddariadau rheolaidd i bartneriaid allanol** drwy'r Grŵp Ymgysylltu Allanol a arweinir gan yr Hyrwyddwr, gan gynnwys cymdeithas sifil, y byd academaidd, y sector preifat, a'r APPG | Blaenoriaeth | JACU | Yn barhaus |
| | **4.1.8** | Cyhoeddi **diweddariad blynyddol ar gynnydd** ar GOV.UK gyda chrynodeb lefel uchel o gynnydd a wnaed yn erbyn yr ymrwymiadau yn y strategaeth hon a rhoi datganiad gweinidogol ysgrifenedig i Senedd y DU | Blaenoriaeth | JACU | Yn barhaus |
| | **4.1.9** | Cyhoeddi **dau asesiad manwl o gynnydd** ar ddiwedd blwyddyn tri (y canolbwynt) a blwyddyn pump (diwedd) o'r strategaeth hon, a'u cylchoedd gorchwyl y cytunir arnynt, ar GOV.UK | Blaenoriaeth | JACU | 2028, 2030 |
| | **4.1.10** | Rhoi **arweinyddiaeth ym mhob rhan o Lywodraeth EF** i sicrhau y caiff ymrwymiadau'r strategaeth eu cyflawni'n llwyddiannus a sicrhau goruchwyliaeth effeithiol gan weinidogion ar gynnydd yn erbyn y canlyniadau y cytunwyd arnynt, gan gynnwys drwy drefniadau llywodraethu traws-system effeithiol | | JACU | Yn barhaus |

**Deall yn barhaus o gymharu ag ymrwymiadau ac iddynt ddyddiad penodol**

Yn y strategaeth, rhestrir yr ymrwymiadau mewn dwy brif ffordd: yn barhaus neu erbyn dyddiad penodol. Dyma'r hyn y mae'r naill a'r llall yn ei olygu:

Yn barhaus: Disgwylir i'r ymrwymiadau hyn godi bob blwyddyn drwy gydol y cyfnod o bum mlynedd ar gyfer y strategaeth. Gweithredoedd cylchol ydynt – megis adolygiadau, adroddiadau, neu hyfforddiant blynyddol – a fydd yn cael eu darparu'n gyson, ond gall union gwmpas neu ddwysedd y gweithgareddau amrywio o flwyddyn i flwyddyn.

Dyddiad penodol: Mae'r ymrwymiadau hyn ynghlwm wrth adeg benodol, megis mis neu flwyddyn benodol. Gweithredoedd untro neu weithredoedd ac iddynt derfyn amser ydynt fel arfer, fel lansio menter newydd neu gwblhau carreg filltir.

# Atodiad D: Rhestr o bartneriaid Llywodraeth y DU

## Y Swyddfa Gartref

Mae'r Swyddfa Gartref yn chwarae rôl hanfodol o ran diogelwch a ffyniant economaidd y DU. Mae'n arwain, ar y cyd â Thrysorlys EF, waith ehangach i fynd i'r afael â throseddau economaidd, yma ac yn rhyngwladol, gan weithio ar draws y llywodraeth. Mae'r Swyddfa Gartref hefyd yn arwain ymateb domestig y DU i lygredigaeth ac yn cydgysylltu ymdrechion trawslywodraethol drwy'r **Uned Wrthlygredigaeth ar y Cyd** (JACU). Mae'r JACU yn gyfrifol am sicrhau bod Strategaeth Wrthlygredigaeth y DU yn cael ei rhoi ar waith, gan gefnogi Hyrwyddwr Gwrthlygredigaeth Prif Weinidog y DU, sy'n cynrychioli'r DU mewn fforymau gwrthlygredigaeth rhyngwladol, a sicrhau ei bod yn cael ei chyflawni gan adrannau ac asiantaethau. Mae'n cryfhau sylfaen dystiolaeth y DU ar lygredigaeth, yn cydygysylltu ymateb strategol i'r bygythiadau a achosir gan lygredigaeth, ac yn sicrhau camau gweithredu cydlynus gan asiantaethau gorfodi'r gyfraith ac adrannau'r llywodraeth i gynnal safonau byd-eang a chyflawni ymrwymiadau.

## Y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu

Mae'n gweithredu ar ran y DU yn rhyngwladol, gan arwain gwaith diplomyddol, datblygu a chonsylaidd y llywodraeth ledled y byd. Mae'n chwarae rôl flaenllaw yn ymdrechion y DU i wrthsefyll llygredigaeth a chyllid anghyfreithlon yn rhyngwladol. Gwneir y gwaith hwn drwy amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys rhwydwaith tramor y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu o ddiplomyddion, ac arbenigwyr technegol, ymgysylltu amlochrog, a rhaglenni ac adnoddau a ariennir gan y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu. Mae hefyd yn arwain polisi sancsiynau'r DU, gan gynnwys defnyddio'r gyfundrefn Sancsiynau Gwrthlygredigaeth fyd-eang i darfu ar weithredwyr llwgr a'u rhwydweithiau a mynd ati i sicrhau bod dylanwad byd-eang y DU yn sbarduno camau gweithredu rhyngwladol ar y cyd. Mae'n arwain ymdrechion datblygu'r DU, gan gynnwys cefnogi gwledydd partner i greu sefydliadau atebol a mynd i'r afael â llygredigaeth a chyllid anghyfreithlon. Mae ei gwaith yn sail i'r ymdrechion i ddiogelu canlyniadau datblygu, cynnal normau rhyngwladol, a lleihau'r ffactorau sy'n sbarduno llygredigaeth yn fyd-eang, sy'n effeithio ar y DU.

## Trysorlys EF

Mae Trysorlys EF yn rheoli gwariant cyhoeddus, yn pennu cyfeiriad polisi economaidd y DU ac yn gweithio i sicrhau twf economaidd cryf a chynaliadwy ym mhob un o ranbarthau a gwledydd y DU. O ran llygredigaeth a throseddau economaidd yn fwy cyffredinol, mae Trysorlys EF, ar y cyd â'r Swyddfa Gartref, yn arwain ymateb y llywodraeth i droseddau economaidd, gan weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau gorfodi'r gyfraith a'r sector

preifat. Mae cyfrifoldeb penodol ar Drysorlys EF am gyfundrefn rheoleiddio atal gwyngalchu arian a chyllido gwrthderfysgaeth (AML/CTF) a goruchwylio cyfundrefn goruchwylio AML/CTF y DU a pherfformiad y 25 o oruchwylwyr AML/CTF. Mae hefyd yn gyfrifol am gynrychioli'r DU yn y Tasglu Gweithredu Ariannol, sef y corff sy'n pennu safonau rhyngwladol ar gyfer mesurau i wrthsefyll gwyngalchu arian a chyllido terfysgaeth. Mae'r Swyddfa Gweithredu Sancsiynau Ariannol yn Nhrysorlys EF yn sicrhau bod sancsiynau ariannol yn cael eu deall, eu rhoi ar waith a'u gorfodi'n briodol.

# Rhestr o bartneriaid Llywodraeth y DU ac acronymau

## Adrannau/cyfarwyddiaethau Llywodraeth y DU

| Enw | Acronym |
|---|---|
| Swyddfa’r Twrnai Cyffredinol | AGO |
| Swyddfa’r Cabinet | CO |
| Gwasanaeth Erlyn y Goron | CPS |
| Yr Adran Busnes a Masnach | DBT |
| Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon | DCMS |
| Yr Adran Addysg | DfE |
| Yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net | DESNZ |
| Yr Adran Drafnidiaeth | DfT |
| Y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu | FCDO |
| Cyllid a Thollau EF | CThEF |
| Trysorlys EF | HMT |
| Y Swyddfa Gartref | HO |
| Yr Uned Wrthlygredigaeth ar y Cyd (y Swyddfa Gartref) | JACU |
| Y Weinyddiaeth Amddiffyn | MOD |
| Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol | MHCLG |
| Y Weinyddiaeth Gyfiawnder | MoJ |
| Swyddfa Goruchwylio Atal Gwyngalchu Arian ar gyfer Cyrff Proffesiynol | OPBAS |
| Awdurdod Cymwys y DU | UKCA |
| Cyllid Allforio y DU | UKEF |


## Gorfodi’r gyfraith yn y DU

| Enw | Acronym |
|---|---|
| Llu’r Ffiniau (Swyddfa Gartref) | BF |
| Heddlu Dinas Llundain | CoLP |
| Yr Uned Llygredigaeth Ddomestig (Heddlu Dinas Llundain) | DCU |
| Gorfodi Mewnfudo (Swyddfa Gartref) | IE |
| Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol | NCA |
| Y Ganolfan Troseddau Economaidd Genedlaethol (Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol) | NECC |
| Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu | NPCC |
| Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol | ROCU |
| Swyddfa Twyll Difrifol | SFO |

## Cyrff cyhoeddus/asiantaethau’r DU

| Enw | Acronym |
|---|---|
| Y Coleg Plismona | CoP |
| Proffesiwn Gwrthdwyll y Llywodraeth | GCFP |
| Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF | HMPPS |
| Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus | PSFA |
| Fetio Diogelwch y DU | UKSV |

# Atodiad E: Ymateb i droseddau economaidd



E03041725 12/25

ISBN 978-1-5286-6077-8